



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mawrth 19 Mawrth 2002

Tuesday 19 March 2002

Cynnwys
Contents

- 3 Anerchiad gan yr Anrhydeddus Peter Caruana QC, Prif Weinidog Gibraltar
Address by the Honourable Peter Caruana QC, Chief Minister of Gibraltar
- 6 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru
Questions to the First Minister
- 27 Datganiad Busnes
Business Statement
- 28 Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion
Composite Motion: Approval of Orders
- 30 Cymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth
Gorau) (Cymru) 2002
*Approval of the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales)
Order 2002*
- 40 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 41 Gwasanaethau Gofal Dydd i Blant Dan Wyth
Day-care Services for Children Under Eight
- 58 Cymeradwyo Deddfwriaeth sy'n Gysylltiedig â Gwasanaethau Gofal Dydd i Blant
Dan Wyth
Approval of Legislation Associated with Day-care Services for Children Under Eight
- 59 Adolygiad Pum Mlynedd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru
Quinquennial Review of the Countryside Council for Wales
- 77 Cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Mesurau
Welsh Assembly Government Proposals for Bills

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.*

Anerchiad gan yr Anrhydeddus Peter Caruana QC, Prif Weinidog Gibraltar
Address by the Honourable Peter Caruana QC, Chief Minister of Gibraltar

Y Llywydd: Mae'n bleser gennyf estyn croeso ffurfiol a chynnes i'r ddirprwyaeth o Gibraltar ar ei hymweliad swyddogol â'r Cynulliad, ac yn arbennig i'r Anrhydeddus Peter Caruana QC, y Prif Weinidog.

Chief Minister, I invite you to address Assembly Members.

The Chief Minister: Presiding Officer, First Minister, Ministers and Members, it is a great pleasure as Chief Minister of Gibraltar to address you this afternoon. I have been told that I must finish by 2 p.m., so it is a great privilege to have 10 minutes of your time.

I bring you greetings from your sister British parliament in Gibraltar—the House of Assembly. Many Members have already met some of our parliamentarians at Commonwealth Parliamentary Association meetings. You will be able to meet them again shortly, as we are sending a full delegation to the regional meeting to be held here in Cardiff, in this Assembly, in a few weeks' time.

I will give a quick, broad brush of Gibraltar for those of you who may not know our history. We are one of the United Kingdom's remaining 13 overseas territories. We have been British since 1704, nearly 300 years ago. I am happy to report that the people of Gibraltar overwhelmingly—not to say unanimously—wish it to remain so for all time. The 1969 constitution given to us by the British Parliament establishes a separate jurisdiction for political, governmental and administrative purposes. We have a Parliament, which is smaller than this Assembly, with 17 members, 15 of whom are elected. In the Parliament, we pass our own laws, and transpose all European Union obligations into the laws of Gibraltar. We have elections once every four years, and the party with the majority not only wins control of the Parliament, it also forms the Government. At present, I lead that party. We have a peculiar electoral system, which means that the winning party only gets a majority of one seat, regardless of the size of

The Presiding Officer: It is my pleasure to formally and warmly welcome the delegation from Gibraltar on its official visit to the Assembly, and especially the Honourable Peter Caruana QC, the Chief Minister.

Brif Weinidog, fe'ch gwahoddaf i annerch Aelodau'r Cynulliad.

Y Prif Weinidog: Lywydd, Prif Weinidog, Gweinidogion ac Aelodau, mae'n bleser mawr i mi fel Prif Weinidog Gibraltar eich annerch y prynhawn yma. Dywedwyd wrthyf fod rhaid imi orffen erbyn 2 p.m., felly mae'n frainnt mawr cael 10 munud o'ch amser.

Deuaf â chyfarchion ichi oddi wrth eich chwaer senedd Brydeinig yn Gibraltar—y Tŷ Ymgynnull. Mae llawer o'r Aelodau eisoes wedi cwrdd â rhai o'n seneddwr yng nghyfarfodydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Cewch gwrdd â hwy eto cyn bo hir, gan y byddwn yn anfon dirprwyaeth lawn i'r cyfarfod rhanbarthol a gynhelir yma yng Nghaerdydd, yn y Cynulliad hwn, ymhen ychydig wythnosau.

Rhoddaf fraslun sydyn o Gibraltar i'r rhai ohonoch sydd efallai heb wybod ein hanes. Yr ydym yn un o'r 13 tiriogaeth dramor sy'n weddill gan y Deyrnas Unedig. Yr ydym yn Brydeinig er 1704, bron 300 o flynyddoedd yn ôl. Mae'n dda gennyf ddweud fod mwyafrif llethol pobl Gibraltar—os nad pob un copa walltog—yn dymuno iddi aros felly hyd byth. Mae cyfansoddiad 1969, a roddwyd inni gan Senedd Prydain, yn sefydlu awdurdodaeth ar wahân at ddibenion gwleidyddol, llywodraethol a gweinyddol. Mae gennym Senedd, sy'n llai na'r Cynulliad hwn, gyda 17 o aelodau, 15 ohonynt yn etholedig. Yn y Senedd, pasiwn ein deddfau ein hunain, gan drawsosod holl rwymedigaethau'r Undeb Ewropeaidd i ddeddfau Gibraltar. Cynhaliwn etholiadau un waith bob pedair blynedd, a bydd y blaid a enillodd fwyafrif yn ennill rheolaeth ar y Senedd, a hefyd yn ffurfio'r Llywodraeth. Ar hyn o bryd, fi yw arweinydd y blaid honno. Mae gennym system etholiadol od, sy'n golygu mai dim ond mwyafrif o un sedd a

the electoral majority. For those of you who are party leaders, I do not recommend it; it is difficult to keep discipline and good order when any one of your members can hold you to ransom.

The Government of Gibraltar, in the executive sense, and the Parliament of Gibraltar, in the legislative sense, have a large measure of legislative and executive rights. It extends to all matters with the exception of defence, external affairs and internal security—the police. We pay for the police force, but it is operationally accountable to the British Governor in Gibraltar. Other than that, we have complete control of our fiscal and economic policy, all public expenditure, and policies in education, health, social security, social services, transport and the environment—everything that is not internal security, defence or external affairs. We are economically self-sufficient; we do not receive any budgetary aid from the UK. To give you a rough idea, Gibraltar is 8 sq km, and has a population of 30,000 people. We have an economically active labour force of 15,000 people. The Government's revenue budget is £175 million, and its expenditure is just over £155 million. From those figures, you see that we operate to regular annual budget surpluses, from which we fund our own capital investment programme.

We are an Objective 2 region of the European Community, which means that we receive an element of European Union Objective 2 funding—I think that we received £6 million from the current programme. We are a small but self-governing place with our own Parliament, Government, civil service, judiciary, police force and customs and excise, all of which follow the Westminster and British model. You are welcome to visit us to establish for yourselves that Gibraltar truly is a piece of Britain in the Mediterranean sun.

However, there is a Chinese saying, 'may you live in interesting times', which is meant as a curse. We are, indeed, living in interesting times. Like all colonial peoples, we believe in the right to self-determination,

gaiff y blaid fuddugol, ni waeth beth fo maint y mwyafrif etholiadol. I'r rheini ohonoch sydd yn arweinwyr plaid, nid wyf yn argymhell y drefn hon; mae'n anodd cadw disgyblaeth a threfn dda pan all unrhyw un o'ch aelodau eich dal yn wystl.

Mae gan Lywodraeth Gibraltar, yn yr ystyr gweithredol, a Senedd Gibraltar, yn yr ystyr deddfwriaethol, gryn dipyn o hawliau deddfwriaethol a gweithredol. Maent yn cynnwys popeth ac eithrio amddiffyn, materion allanol a gwarchodaeth fewnol—yr heddlu. Talwn am yr heddlu, ond mae'n weithrediadol atebol i'r Llywodraethwr Prydeinig yn Gibraltar. Ar wahân i hynny, mae gennym reolaeth lwyr dros ein polisi ariannol ac economaidd, pob gwariant cyhoeddus, a pholisïau ym meysydd addysg, iechyd, nawdd cymdeithasol, gwasanaethau cymdeithasol, trafniadaeth a'r amgylchedd—popeth ar wahân i warchodaeth fewnol, amddiffyn a materion allanol. Yr ydym yn economaidd hunan-gynhaliol; ni dderbyniwn gymorth cyllidol oddi wrth y DU. I roi syniad bras ichi, mae Gibraltar yn 8 km sgwâr, a chanddi boblogaeth o 30,000 o bobl. Mae gennym weithlu economaidd weithredol o 15,000 o bobl. Mae cyllideb refeniw'r Llywodraeth yn £175 miliwn, a'i wariant ychydig dros £155 miliwn. O'r ffigurau hynny, fe welwch ein bod yn creu gwarged blynyddol rheolaidd yn y gyllideb, ac o hynny byddwn yn talu am ein rhaglen fuddsoddi cyfalaf ein hunain.

Yr ydym yn rhanbarth Amcan 2 yn y Gymuned Ewropeaidd, felly cawn elfen o gyllid Amcan 2 yr Undeb Ewropeaidd—credaf inni dderbyn £6 miliwn o'r rhaglen gyfredol. Lle bach ond hunan-lywodraethol ydym, gyda'n Senedd, ein Llywodraeth, ein gwasanaeth sifil, ein barnwriaeth, ein heddlu a'n tollau tramor a chartref ein hunain, i gyd ar fodel San Steffan a Phrydain. Mae croeso ichi ymweld â ni i weld drosoch eich hunain fod Gibraltar yn wir yn ddarn o Brydain yn haul y Canoldir.

Er hynny, mae gan y Tsieineaidd ddywediad, 'boed ichi fyw mewn amserau diddorol', a fwriedir fel melltit. Yr ydym, yn wir, yn byw mewn amserau diddorol. Fel pobloedd gwladychol ym mhobman, credwn yn yr

to decide our own future. We wish to exercise that right to choose to retain our British sovereignty, and to retain our close, constitutional links with the United Kingdom. Spain, on the other hand, believes that it is still possible to restore the map of Europe to what it was 297 years ago, and claims the sovereignty of Gibraltar. There is an interesting anecdote in that respect: of the last 1,300 years, Gibraltar has been British for 297 years, Spanish for 242, and Moorish for the 900 or so years before that. Spain did not exist 1,300 years ago, so Gibraltar has been British for longer than it has ever been Spanish. Notwithstanding, Spain maintains a claim to obtain the sovereignty of Gibraltar—a claim that it prosecutes with some aggression. For example, there are border restrictions; air and ferry links between Gibraltar and Spain are not allowed; only 30,000 of our telephone numbers can be accessed from the Spanish telephone network; sporting links are not allowed, with Gibraltar barred from joining international sporting federations, and so on. It is a behavioural pattern that you would not expect to find between two places that are both part of the European Community.

We are not adverse to engaging Spain in a process of dialogue—indeed, we welcome it. However, we must be clear that we do so not to surrender or barter away our sovereignty, or our rights to decide on our own future, but simply to establish a normal, European-style relationship of co-operation, mutual respect, friendship and bridge-building. We do not accept that we should pay with any part of our British sovereignty for the things to which we believe we are entitled as Europeans. Yesterday, we had a demonstration in Gibraltar attended by 25,000 people. That does not sound much to you, but 25,000 people means our entire able-bodied population. The purpose of the demonstration was to signal to the Foreign and Commonwealth Office in London that we are willing to participate in reasonable dialogue, but please do not make sovereignty concessions to Spain which will remain on the table despite their rejection by the people of Gibraltar—which will happen as certain as night follows day—in a referendum. We do not mind having our views tested in a

hawl i ymreolaeth, i benderfynu'n dyfodol ein hunain. Dymunwn arfer yr hawl honno i ddewis cadw'n sofraniaeth Brydeinig, a chadw'n perthynas agos, gyfansoddiadol gyda'r Deyrnas Unedig. Cred Sbaen, ar y llaw arall, fod modd o hyd i adfer map Ewrop i'r hyn ydoedd 297 o flynyddoedd yn ôl, ac mae'n hawlio sofraniaeth dros Gibraltar. Mae hanesyn difyr yn hynny o beth: o'r 1,300 o flynyddoedd diwethaf, bu Gibraltar yn Brydeinig am 297 o flynyddoedd, yn Sbaenaidd am 242, ac yn Fwraidd am yr oddeutu 900 mlynedd cyn hynny. Nid oedd Sbaen yn bodoli 1,300 o flynyddoedd yn ôl, felly mae Gibraltar wedi bod yn Brydeinig am fwy o amser nag y bu'n Sbaenaidd erioed. Er hynny, mae Sbaen yn dal i geisio hawlio sofraniaeth dros Gibraltar—hawliad y mae'n ei gyrchu'n dra ymosodol. Er enghraifft, mae cyfyngiadau ar y ffin; ni chaniateir cysylltiadau awyr a fferi rhwng Gibraltar a Sbaen; dim ond 30,000 o'n rhifau ffôn y gellir eu galw o rwydwaith ffôn Sbaen; ni chaniateir cysylltiadau ym myd chwaraeon, ac ni chaiff Gibraltar ymuno â chyrff chwaraeon rhyngwladol, ac yn y blaen. Mae'n batrwm ymddygiad na ddisgwyliech ei weld rhwng dau le sydd ill dau'n rhan o Gymuned Ewrop.

Nid oes gennym wrthwynebiad i ymuno â Sbaen mewn proses o ddeialog—yn wir, croesawn hynny. Ond rhaid inni fod yn glir y gwnawn hynny nid er mwyn ildio na gwerthu'n sofraniaeth, na'n hawliau i benderfynu ar ein dyfodol ein hun, ond yn syml er mwyn sefydlu perthynas normal, Ewropeaidd ei naws, o gydweithredu, cyfeillgarwch a chodi pontydd. Nid ydym yn derbyn y dylem dalu gydag unrhyw ran o'n sofraniaeth Brydeinig am y pethau y credwn y mae gennym hawl iddynt fel Ewropeaid. Ddoe, cawsom wrthdystiad yn Gibraltar gyda 25,000 o bobl yn bresennol. Nid yw hynny'n swnio'n llawer i chi, ond 25,000 o bobl yw'r cyfan o'n poblogaeth gorfforol abl. Pwrpas y gwrthdystiad oedd cyhoeddi i'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn Llundain ein bod yn fodlon cymryd rhan mewn deialog resymol, ond peidiwch da chi â rhoi consesiynau sofraniaeth i Sbaen a fydd yn aros ar y bwrdd er i bobl Gibraltar eu gwrthod—a fydd yn digwydd cyn sicred ag y mae nos yn dilyn dydd—mewn refferendwm. Nid ydym yn gwrthwynebu profi'n barn

referendum. However, once we have expressed our views, they must be respected, and nothing which is adverse to the wishes of the people of Gibraltar with regard to British sovereignty, which compromises our rights or our sovereignty, or which legitimises the Spanish sovereignty claim over Gibraltar, should survive that rejection.

Presiding Officer, I have been given the 30-second warning. I know that it is regarded as a near-hanging offence for invited speakers to overstep their mark. I am grateful for the opportunity to address you, and for the measure of support that some Members have already expressed. Members of our House of Assembly, from both the Government and opposition benches, look forward to meeting as many as possible of your Assembly Members during the forthcoming regional meeting of the Commonwealth Parliamentary Association. Thank you. [*Applause.*]

mewn refferendwm. Fodd bynnag, unwaith y byddwn wedi mynegi'n barn, rhaid ei pharchu, ac ni ddylai dim sy'n groes i ddymuniadau pobl Gibraltar parthed sofraniaeth Brydeinig, sy'n cyfaddawdu'n hawliau neu'n sofraniaeth, neu sy'n cyfreithloni hawliad sofraniaeth Sbaen dros Gibraltar, gael goroesi'r gwrthodiad hwnnw.

Lywydd, cefais y rhybudd 30 eiliad. Gwn yr ystyri'r ei bod bron yn drosedd grogi i siaradwyr gwadd fynd dros eu hamser. Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i'ch annerch, ac am hynny o gefnogaeth a fynegwyd eisoes gan rai Aelodau. Mae Aelodau'n Tŷ Ymgynnull ni, ar feinciau'r Llywodraeth a'r wrthblaid fel ei gilydd, yn edrych ymlaen at gyfarfod â chynifer ag sy'n bosibl o'ch Aelodau Cynulliad yn ystod y cyfarfod rhanbarthol sydd i ddod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Diolch. [*Cymeradwyaeth.*]

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru Questions to the First Minister

Y Llywydd: Mae cwestiwn 1 (OAQ16430) wedi'i dynnu yn ôl.

The Presiding Officer: Question 1 (OAQ16430) has been withdrawn.

Hybu Buddsoddiad yng Nghymru Promoting Investment in Wales

Q2 Jocelyn Davies: What assessment has been made of the effect of Assembly policies in promoting investment to all sectors of Wales? (OAQ16412)

C2 Jocelyn Davies: Pa asesiad a wnaed o effaith polisiau'r Cynulliad ar hybu buddsoddiad ym mhob sector yng Nghymru? (OAQ16412)

The First Minister (Rhodri Morgan): We promote investment in all areas of Wales, but preference is given to the two thirds of Wales in the Objective 1, or tier 1, area. Further preference is given to the 9 per cent of Wales in the tier 2 area. That is why I was pleased that the European Semiconductor Manufacturing Ltd plant in Newport—the only semiconductor plant in Wales—was saved yesterday with the assistance of an Assembly Government grant. It will be bought by International Rectifier of Swansea.

Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan): Yr ydym yn hybu buddsoddiad ym mhob ardal yng Nghymru, ond rhoddir blaenoriaeth i'r ddau draean o Gymru sydd yn yr ardal Amcan 1, neu haen 1. Rhoddir blaenoriaeth yn ogystal i'r 9 y cant o Gymru sydd yn yr ardal haen 2. Dyna pam yr oeddwn yn falch y cafodd ffatri cwmni European Semiconductor Manufacturing Cyf yng Nghasnewydd—yr unig ffatri led-ddargludyddion yng Nghymru—ei hachub ddoe gyda chymorth grant gan Lywodraeth y Cynulliad. Caiff ei phrynu gan International Rectifier o Abertawe.

I was also pleased to visit Bangor last Friday, where I was able to celebrate the building and opening of a major new mail order warehouse for The Book People. It will provide 180 jobs at the other end of Wales, with an additional 250 seasonal jobs between September and Christmas. I could go on, but it will be better to discover the extent of Jocelyn's happiness at this flow of investment into all parts of Wales.

Jocelyn Davies: Do you agree with Mike German's assessment of the situation, laid out in his recent article in *The House Magazine*, which claims that three quarters of your Government's policies are in fact Liberal Democrat ideas?

The First Minister: I sympathise with Jocelyn's unsuccessful struggle to ensure that her supplementary was relevant to the original question. I should remind her of other areas where we have succeeded in bringing investment to all sectors of Wales. She will, perhaps, join me in congratulating Biotrace International plc, Bridgend, in winning the *Financial Times* award for the best technology public limited company in the whole of the United Kingdom. It beat a shortlist of four—all of which were Welsh. She will also, perhaps, join me in congratulating BHP Billiton—a major multinational company—which has decided to move the vast bulk of its head office from London to Flint. She may also, as she lives in that area, be willing to manifest her happiness at the fact that General Dynamics UK Ltd has decided to move its operational and research and development headquarters to the Oakdale Business Park. I am sure that she would be happy to realise that that is a flow of top quality investment to all parts of Wales, but with an emphasis on Objective 1 areas.

Kirsty Williams: With regard to the Liberal Democrat idea of a tier 3 fund for Wales, when will it be launched, and how many businesses in my constituency of Brecon and Radnorshire do you anticipate will be helped?

The First Minister: I am glad that you raised that point because there is no part of Wales

Yr oeddwn yn falch hefyd o ymweld â Bangor ddydd Gwener diwethaf, lle gallais ddatlu adeiladu ac agor warws archebion post mawr newydd i gwmni The Book People. Bydd yn darparu 180 o swyddi ym mhen arall Cymru, gyda 250 o swyddi tymhorol ar ben hynny rhwng mis Medi a'r Nadolig. Gallwn fynd ymlaen, ond bydd yn well canfod beth yw maint llawenydd Jocelyn gyda'r llif o fuddsoddiad i bob rhan o Gymru.

Jocelyn Davies: A ydych yn cytuno ag asesiad Mike German o'r sefyllfa, a amlinellwyd yn ei erthygl ddiweddar yn *The House Magazine*, sy'n honni mai syniadau'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn gwirionedd yw tri chwarter polisïau'ch Llywodraeth chi?

Prif Weinidog Cymru: Cydymdeimlaf ag ymdrech aflwyddiannus Jocelyn i sicrhau bod ei chwestiwn atodol yn berthnasol i'r cwestiwn gwreiddiol. Dylwn ei hatgoffa am ardaloedd eraill lle'r ydym wedi llwyddo i ddod â buddsoddiad i bob sector yng Nghymru. Efallai y gwnaiff ymuno â mi i longyfarch Biotrace International ccc, Pen-y-bont ar Ogwr, ar ennill gwobr y *Financial Times* i'r cwmni cyfyngedig cyhoeddus gorau ym maes technoleg drwy'r Deyrnas Unedig gyfan. Fe gurodd restr fer o bedwar—pob un ohonynt o Gymru. Efallai hefyd y gwnaiff ymuno â mi i longyfarch BHP Billiton—cwmni rhyngwladol mawr—sydd wedi penderfynu symud y rhan helaeth o'i brif swyddfa o Lundain i'r Fflint. Efallai hefyd, gan ei bod yn byw yn yr ardal honno, y bydd yn fodlon mynegi'i llawenydd ynghylch y ffaith fod General Dynamics UK Cyf wedi penderfynu symud ei bencadlys gweithredol ac ymchwil a datblygu i Barc Busnes Oakdale. Yr wyf yn siŵr y byddai'n hapus i sylweddoli bod hynny'n llif o fuddsoddiad o'r radd flaenaf i bob rhan o Gymru, ond gyda phwyslais ar ardaloedd Amcan 1.

Kirsty Williams: Ynghylch syniad y Democratiaid Rhyddfrydol am gronfa haen 3 i Gymru, pa bryd y caiff honno ei lansio, a sawl busnes yn fy etholaeth i, sef Brycheiniog a Sir Faesyfed, a gaiff eu helpu, yn ôl a ragwelwch chi?

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn falch ichi godi'r pwynt hwnnw oherwydd nid oes yr un

that does not benefit from Assembly policies. In an area such as Powys, most of which, geographically speaking, you represent, along with your Liberal Democrat colleague, Mick Bates, the issue of what you do for the so-called white areas, which are not eligible for tier 1 or tier 2 funding, is important. I am pleased that we are close to an agreement on an Assembly investment grant for small and medium-sized enterprises in those areas. This will be of great benefit to them, as they sometimes feel left out because they are not eligible for tier 1 or tier 2 funding.

Rosemary Butler: You are aware of our disappointment in Newport, with the loss of a number of jobs over the last couple of years, and I am pleased with your efforts to ensure that International Rectifier takes over the ESM plant. Can you give an assurance that International Rectifier is a better employer than ESM, which treated its employees in an abominable manner? I look forward to having proper discussions with International Rectifier to ensure that the future of as many jobs as possible is secure at the plant in Newport.

The First Minister: ESM had been through an extraordinarily difficult time—I do not believe that I am exaggerating in saying that there has been something close to a holocaust in the semiconductor industry worldwide. We have only one semiconductor plant in Wales, into which we have put enormous effort to ensure that it is retained. We originally assisted it during the management buy-out from its former receivers, following its Hong Kong ownership. That was important. We anticipate that several hundred additional jobs will be created at the ESM plant—I understand that close to 400 additional jobs will be created on top of the 260 jobs that were effectively saved by yesterday's announcement, which I am sure we all welcome.

William Graham: Will you outline changes in manufacturing and service industry investment in Wales, and how Assembly policies assist communities to adapt to these changes?

rhan o Gymru nad yw'n elwa ar bolisiau'r Cynulliad. Mewn ardal fel Powys, yr ydych chi'n cynrychioli'r rhan fwyaf ohoni, mewn termau daearyddol, ynghyd â'ch cyd-aelod o Ddemocrat Rhyddfrydol, Mick Bates, mae'r cwestiwn beth a wnewch chi i'r ardaloedd gwyn, fel y'u gelwir, sef yr ardaloedd nad ydynt yn gymwys ar gyfer cyllid haen 1 na haen 2, yn bwysig. Yr wyf yn falch ein bod yn nesáu at gytundeb ar grant buddsoddi gan y Cynulliad i fentrau bach a chanolig yn yr ardaloedd hynny. Bydd hyn o fudd mawr iddynt, gan eu bod weithiau'n teimlo eu bod ar eu colled am nad ydynt yn gymwys i gael arian haen 1 na haen 2.

Rosemary Butler: Yr ydych yn ymwybodol o'n siom yng Nghasnewydd, yn sgîl colli nifer o swyddi yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, ac yr wyf wedi fy mhlesio gyda'ch ymdrechion i sicrhau bod International Rectifier yn cymryd ffatri ESM. A allwch roi sicrwydd fod International Rectifier yn well cyflogwr nag ESM, a driniodd ei weithwyr yn wael ofnadwy? Edrychaf ymlaen at gael trafodaethau iawn gydag International Rectifier i sicrhau bod dyfodol cynifer o swyddi ag sy'n bosibl yn ddiogel yn y ffatri yng Nghasnewydd.

Prif Weinidog Cymru: Yr oedd ESM wedi bod drwy amser eithriadol o anodd—ni chredaf fy mod yn gor-ddweud pan ddywedaf y cafwyd rhywbeth agos at alanas yn y diwydiant lled-ddargludyddion ar draws y byd. Dim ond un ffatri led-ddargludyddion sydd gennym yng Nghymru, ac yr ydym wedi ymdrechu'n aruthrol i geisio sicrhau ein bod yn ei chadw. Rhoesom gymorth iddi'n wreiddiol pan oedd y rheolwyr yn ei phrynu oddi wrth ei derbynwyr blaenorol, wedi iddi fod ym meddiant cwmni o Hong Kong. Yr oedd hynny'n bwysig. Rhagwelwn y caiff rhai cannoedd o swyddi ychwanegol eu creu yn ffatri ESM—deallaf y creir yn agos at 400 o swyddi ychwanegol ar ben y 260 o swyddi a achubwyd i bob pwrpas gan gyhoeddiad ddoe, ac yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn croesawu hynny.

William Graham: A wnewch chi amlinellu newidiadau yn y buddsoddiad yn y diwydiant gweithgynhyrchu a gwasanaeth yng Nghymru, a sut y mae polisiau'r Cynulliad yn helpu cymunedau i ymaddasu i'r newidiadau

hyn?

The First Minister: There are two essential components to this, and one is that you treat service industries *pari passu*, as having the same status as manufacturing, in recognition of the way in which the economy is changing. It is impossible, in advanced western economies such as Great Britain, to maintain the same proportion of employment in manufacturing, because it gains its additional tonnage output by improved productivity rather than by creating extra jobs. Therefore, jobs growth will come from the service industries. I mentioned The Book People, the e-mail and mail order warehouse in Bangor; it is a service industry project that we treated as a manufacturing project for grant purposes. Within manufacturing, you move up the value chain in the type of products produced, and in the fact that you also get the head office and the research and development departments. That is why I was also pleased to mention the General Dynamics plant. BHP Billiton is another excellent service industry project whose head office is moving from London to Flint, bringing with it the high wages and high spending power that you would expect. That is part of the change in the economy; we are staying well abreast of that change.

John Griffiths: As far as the steel sector is concerned, following the recently announced sale of its aluminium operations, which will free up money for investment, will you join me in urging Corus to continue to invest in its operation in Wales to aid recovery from the recent cutbacks?

The First Minister: It is way down the track, but we will certainly do that when Corus has the money. It announced yesterday that it was to put the aluminium division up for sale—it has not sold it yet. It is hoping to get close to £1 billion for it. Some of the money will go towards debt reduction, but we will be pressing the company to invest. If you do not invest in steel, you die.

Prif Weinidog Cymru: Mae dwy gydran hanfodol i hyn, ac un yw eich bod yn trin diwydiannau gwasanaeth yn gydradd, gyda'r un statws â diwydiannau gweithgynhyrchu, gan gydnabod y ffordd y mae'r economi'n newid. Mae'n amhosibl, mewn economi orllewinol ddatblygedig fel un Prydain Fawr, cynnal yr un gyfran o gyflogaeth mewn gweithgynhyrchu, oherwydd mae diwydiant yn sicrhau cynnydd yn y tunelli y mae'n eu cynhyrchu drwy wella cynhyrchedd yn hytrach na thrwy greu swyddi ychwanegol. O'r diwydiannau gwasanaeth y daw twf swyddi, felly. Soniais am gwmi The Book People, y warws archebion post ac e-bost ym Mangor; dyna brosiect diwydiant gwasanaeth a driniwyd gennym ni fel prosiect gweithgynhyrchu at ddibenion grant. O fewn gweithgynhyrchu, symudwch i fyny'r gadwyn werth yn y math o gynhyrchion a gynhyrchir, ac yn y ffaith y cewch y brif swyddfa a'r adrannau ymchwil a datblygu hefyd. Dyna pam yr oeddwn yn falch o sôn am ffatri General Dynamics hefyd. Mae BHP Billiton yn brosiect diwydiant gwasanaeth ardderchog arall sy'n symud ei brif swyddfa o Lundain i'r Fflint, gan ddod â'r cyflogau uchel a'r grym gwario uchel a ddisgwylicch gyda hi. Dyna ran o'r newid yn yr economi; yr ydym yn cydgerdded â'r newid hwnnw.

John Griffiths: O ran y sector dur, yn dilyn y bwriad a gyhoeddwyd yn ddiweddar i werthu ei waith alwminiwm er mwyn rhyddhau arian ar gyfer buddsoddi, a wnewch chi ymuno â mi i annog Corus i barhau i fuddsoddi yn ei waith yng Nghymru i gynorthwyo adferiad yn sgîl y toriadau diweddar?

Prif Weinidog Cymru: Mae hynny ymhell i ffwrdd, ond yn sicr fe wnawn ni hynny pan fydd yr arian gan Corus. Cyhoeddodd ddoe ei fod yn bwriadu rhoi'r adran alwminiwm ar werth—nid yw wedi ei gwerthu eto. Mae'n gobeithio cael yn agos at £1 biliwn amdani. Aiff rhywfaint o'r arian at leihau dyledion, ond byddwn yn pwyso ar y cwmni i fuddsoddi. Os na fuddsoddwch mewn dur, mae ar ben arnoch.

Blaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Chwe Mis Nesaf
Priorities of the National Assembly for Wales for the Next Six Months

Q3 Lynne Neagle: Will the First Minister make a statement on discussions he has had with the Secretary of State for Wales regarding the priorities of the National Assembly for Wales for the next six months? (OAQ16426)

First Minister: I will mention some of my discussions with the Secretary of State for Wales on how we intend to implement the changes to the health service. You will be aware, Lynne, that the Assembly approved the Townsend report in a debate last week, and it will be implemented from 1 April 2003. However, over the next 12 months, much effort will go into the planning that is needed for its implementation. Furthermore, you will be aware of our new targets for health delivery: there will be a maximum waiting list of four months for cataract surgery, 12 months for cardiac surgery, and 18 months for orthopaedic surgery.

Lynne Neagle: Following other Members' remarks, do you agree that giving even more support to manufacturing industry in Wales should be one of the top priorities for the Assembly and for the UK Government over the next six months? Given the problems that areas such as Torfaen and the whole of the former Gwent face as a result of job losses in Corus and other companies, will you outline how the administration will be supporting manufacturing industry to stay in the area? How will you be helping those people made redundant to access training and new work?

2:10 p.m.

The First Minister: We will do that through a proactive use of regional selective assistance and the Welsh Development Agency's ability to construct tailor-made factory premises via the property development grant. It is the package that can be put together that really makes the difference. By our use of regional selective assistance and the WDA's use of the property development grant, we attracted The Book

C3 Lynne Neagle: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y trafodaethau y mae wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch blaenoriaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y chwe mis nesaf? (OAQ16426)

Prif Weinidog Cymru: Fe grybwyllaf rai o'm trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch sut y bwriadwn weithredu'r newidiadau i'r gwasanaeth iechyd. Fe wyddoch, Lynne, fod y Cynulliad wedi cymeradwyo adroddiad Townsend mewn dadl yr wythnos diwethaf, ac y'i gweithredir o 1 Ebrill 2003. Fodd bynnag, dros y 12 mis nesaf, gwneir llawer o ymdrech ar y cynllunio sy'n angenrheidiol ar gyfer ei roi ar waith. Yn ogystal, gwyddoch am ein targedau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd: bydd rhestr aros o bedwar mis fan bellaf am lawdriniaeth i gataract, 12 mis am lawdriniaeth ar y galon, a 18 mis am lawdriniaeth orthopedig.

Lynne Neagle: Yn dilyn sylwadau Aelodau eraill, a ydych yn cytuno mai un o'r blaenoriaethau pennaf i'r Cynulliad ac i Lywodraeth y DU dros y chwe mis nesaf ddylai fod rhoi mwy fyth o gefnogaeth i'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? Gyda'r problemau y mae ardaloedd fel Torfaen a'r cyfan o'r hen Went yn eu hwynebu o ganlyniad i golli swyddi yn Corus a chwmnïau eraill, a wnewch chi amlinellu sut y bydd y weinyddiaeth yn cefnogi'r diwydiant gweithgynhyrchu i'w gadw yn yr ardal? Sut fyddwch chi'n helpu'r bobl hynny a roddwyd ar y clwt i gael hyfforddiant a gwaith newydd?

Prif Weinidog Cymru: Fe wnawn hynny drwy ddefnydd rhagweithiol o gymorth rhanbarthol dewisol, a thrwy allu Awdurdod Datblygu Cymru i adeiladu ffatrioedd pwrpasol drwy'r grant datblygu eiddo. Y pecyn y gellir ei roi at ei gilydd yw'r peth sy'n gwneud y gwahaniaeth mewn gwirionedd. Trwy'n defnydd ni o gymorth rhanbarthol dewisol a defnydd yr Awdurdod Datblygu o'r grant datblygu eiddo,

People to Bangor. The same principle will apply in Torfaen or in south-east Wales or in any of the areas worst hit by the Corus job losses announced in February last year. That is the key. I am sure that we will have more success in bringing manufacturing industry in, or as often happens now following takeovers, where the newly merged company has 15 plants in seven different countries and wants to rationalise over a two-year period to having seven plants in four countries, we must ensure that Wales is one of the countries that has a plant and not one of the ones left out as that post-merger rationalisation process progresses. That is where proactive use of RSA to safeguard jobs can be as valuable as the provision of RSA for creating new jobs.

David Davies: Will you be discussing with the Secretary of State for Wales why one of the top priorities for the National Assembly at present is spending £20 million on a science-fiction style monorail, which will convey people from the Assembly building to Cardiff county hall across the road? If building funfair rides is a priority, would it not be better to send your Cabinet off on an awayday to Alton Towers and spend that £20 million on schools, hospitals and proper transport facilities for people throughout Wales?

The First Minister: I did not know that you were a transport expert, David. What new skill do you have that ensures that you are right and that the transport experts that we are using are completely wrong? It was a one-sided, hysterical and completely over-the-top remark. When the pilot project is completed for the ULTra advanced technology vehicle, if it works it may find a place in city transport mass transit systems around the world; if it does not work, then it will not. We are funding a pilot project. If you do not fund pilot projects you do not do anything for the first time. A mark of a good Conservative, David, is someone who believes you should never do anything for the first time. We would not have invented the wheel if you had

llwyddasom i ddenu The Book People i Fangor. Bydd yr un egwyddor yn wir yn Nhorfaen neu yn y De-ddwyrain neu yn unrhyw un o'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt waethaf gan golledion swyddi Corus a gyhoeddwyd yn Chwefror y llynedd. Dyna'r allwedd. Yr wyf yn siŵr y cawn ragor o lwyddiant yn denu diwydiant gweithgynhyrchu, neu, fel sy'n digwydd yn aml yn awr wedi i gwmni gael ei gymryd drosodd, lle bo gan y cwmni cyfunedig newydd 15 o ffatrioedd mewn saith gwlad wahanol a bod arno eisiau rhesymoli dros gyfnod o ddwy flynedd i gael saith ffatri mewn pedair gwlad, rhaid inni sicrhau bod Cymru'n un o'r gwledydd a gaiff ffatri ac nid yn un o'r rhai a gaiff eu gadael ar ôl wrth i'r broses resymoli ôl-gyfuno honno fynd yn ei blaen. Dyna lle gall defnyddio cymorth rhanbarthol dewisol mewn modd rhagweithiol i ddiogelu swyddi fod yr un mor werthfawr â'i ddefnyddio i greu swyddi newydd.

David Davies: A fyddwch yn trafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru pam mai un o'r prif flaenoriaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd yw gwario £20 miliwn ar monoreilffordd sy'n perthyn i fyd ffuglen wyddonol, er mwyn cludo pobl o adeilad y Cynulliad i neuadd sir Caerdydd dros y ffordd? Os yw adeiladu reidiau ffair yn flaenoriaeth, oni fyddai'n well anfon eich Cabinet am ddiwrnod i Alton Towers a gwario'r £20 miliwn hynny ar ysgolion, ysbytai a chyfleusterau cludiant iawn i bobl ar hyd a lled Cymru?

Prif Weinidog Cymru: Ni wyddwn eich bod yn arbenigwr ar drafnidiaeth, David. Pa allu newydd sydd gennych sy'n sicrhau mai chi sy'n iawn a bod yr arbenigwyr trafnidiaeth a ddefnyddir gennym ni yn gwbl anghywir? Yr oedd eich sylw'n unochrog, yn orffwyll ac yn gwbl dros ben llestri. Pan gwblheir y prosiect peilot ar gyfer y cerbyd technoleg uwch ULTra, os bydd yn gweithio efallai y caiff le mewn systemau cludiant torfol dinasoedd ledled y byd; os na fydd yn gweithio, dyna ben arni. Yr ydym yn ariannu prosiect peilot. Os nad ariannwch chi brosiectau peilot ni wnewch chi ddim byd am y tro cyntaf. Arwydd o Geidwadwr da, David, yw rhywun sy'n credu na ddylech byth wneud dim byd am y tro cyntaf. Ni fyddem wedi dyfeisio'r

that attitude in the Stone Age, which is no doubt where you would like us to return.

Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones): Pan ddewch yn ôl o Alton Towers, a wnewch chi dreulio ychydig amser yn trafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yr arolwg a gyhoeddwyd gan Sefydliad y Rheolwyr sy'n dangos bod economi Cymru mewn cyflwr bregus? Mae'n ceisio ymateb i argyfyngau megis yr hyn a ddigwyddodd ar ôl y gyflafan yn Efrog Newydd ar 11 Medi. O ystyried bod economi Cymru wedi cael dwy ergyd sylweddol y llynedd, nid yn unig effaith y gyflafan honno, ond hefyd argyfwng clwy'r traed a'r genau, a allwch ddweud wrthym ba gamau y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn eu cymryd i sicrhau y bydd economi Cymru yn gallu ymateb i argyfyngau tebyg yn llawer gwell yn y dyfodol?

Prif Weinidog Cymru: Mae pawb yn derbyn bod cynllun adfywio Cymru wledig, y bu i ni ei lunio ar ôl clwy'r traed a'r genau, gystal—os nad yn well—na chynlluniau tebyg a gyflwynwyd yn yr Alban ac yn Lloegr. Ni chlywais neb yng Nghymru wledig yn cwyno ynghylch natur y cynllun hwnnw sy'n helpu gwahanol sectorau economi wledig Cymru—sef amaethyddiaeth, twristiaeth a busnesau bach eraill—i atgyfodi ar ôl sioc clwy'r traed a'r genau a'r hyn a ddigwyddodd ar 11 Medi.

Ieuan Wyn Jones: Surely you accept, First Minister, that the joint impact of both of these disasters on the Welsh economy was immense. Are you really asking us to accept that the proposals that you drafted were the answer to that and that the Welsh economy will be in a better position to overcome those difficulties in the future? We must ensure now that we are in a position to spread prosperity throughout the whole of Wales. Will you reconsider your rejection of the Plaid Cymru proposals on regional targets for job creation? Is it not the case that we must now ensure that devolution benefits and engages all regions of Wales? Would that not be an easy answer for you to give to Huw Lewis, who now complains that you are more interested in petty palace politics than in

olwyn pe bai'r agwedd honno i'w gweld yn Oes y Cerrig, a dyna'n ddi-os lle yr hoffech inni ddychwelyd.

The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones): When you return from Alton Towers, will you spend a little time discussing with the Secretary of State for Wales the review that was published by the Institute of Management which shows that the Welsh economy is vulnerable? It strives to react to crises such as the repercussions of the 11 September atrocity in New York. Given that the Welsh economy suffered two damaging blows last year, not only that atrocity, but also the foot and mouth disease crisis, can you tell us what steps the Government of Wales and the UK Government are taking to ensure that the Welsh economy will be able to react more effectively to similar crises in the future?

The First Minister: Everyone accepts that the regeneration plan for rural Wales, which we drafted after the foot and mouth disease outbreak, is as good—if not better—than similar plans introduced in Scotland and in England. I have not heard anyone in rural Wales complaining about the nature of that plan which is helping the different sectors of the rural economy in Wales—namely agriculture, tourism and other small businesses—to rebuild after the impact of foot and mouth disease and the events of 11 September.

Ieuan Wyn Jones: Siawns nad ydych yn derbyn, Brif Weinidog, fod cyd-ffaith y ddwy drychineb hynny ar economi Cymru yn aruthrol. A ydych mewn gwirionedd yn gofyn inni dderbyn fod y cynigion a ddrafftiwyd gennych yn ateb i hynny ac y bydd economi Cymru mewn sefyllfa well i oresgyn yr anawsterau hyn yn y dyfodol? Rhaid inni sicrhau yn awr ein bod mewn sefyllfa i ledaenu ffyniant drwy Gymru gyfan. A wnewch chi ailystyried eich penderfyniad i wrthod cynigion Plaid Cymru ar dargedau rhanbarthol ar gyfer creu swyddi? Onid yw'n wir fod yn rhaid inni bellach sicrhau bod datganoli'n rhoi budd a llais i holl ranbarthau Cymru? Oni fyddai hynny'n ateb hawdd ichi ei roi i Huw Lewis, sy'n cwyno'n awr fod gennych fwy o

eradicating poverty in Wales?

The First Minister: Never believe what you read in the press, Ieuan. On the first part of your question, which was a repetition of the first part of your previous question, are we talking about different reports here? I thought that you were talking about rural Wales and tourism and whether we were badly affected by foot and mouth disease and 11 September with regard to tourism. As regards the overall impact on the Welsh economy, it is true that 11 September had a devastating short-term impact on the aerospace industry. It is remarkable how management, unions and the community in general has pulled together to help the aerospace industry through that crisis, which is expected to last until the beginning of 2004. They have done remarkably well to create an atmosphere—to which you have not contributed—to readiness to spring forward in 2004 when we face the up-turn and the resumption of aircraft ordering.

You always trot out regional targets, Ieuan, as though it were the easy answer to everything. I always assumed that Plaid Cymru's interest in regional targets was so that you could say different things to different people in different parts of Wales. You could then say that you were for the Valleys when you were in the Valleys and for rural Wales when in rural Wales. As I said in an earlier reply, we give our top priority to Objective 1 Wales. That is two thirds of Wales. Then, we give a further priority to Objective 2, or tier 2, Wales, giving a further 9 per cent, which makes 74 per cent. That is the strongest package in terms of pumping money into industry anywhere in the UK at the moment. It is also the strongest package seen in Wales since the height of the pit closures in the mid-1960s, 35 years ago.

ddiddordeb mewn mân wleidyddia ymysg arweinwyr nag mewn dileu tlodi yng Nghymru?

Prif Weinidog Cymru: Peidiwch byth â chredu'r hyn a ddarllenwch yn y wasg, Ieuan. Ynghylch rhan gyntaf eich cwestiwn, a oedd yn ailbobiad o ran gyntaf eich cwestiwn blaenorol, a ydym yn sôn am adroddiadau gwahanol yma? Yr oeddwn yn meddwl eich bod yn sôn am y Gymru wledig a thwristiaeth ac effaith clwy'r traed a'r genau ac 11 Medi ar dwristiaeth. O ran yr effaith gyffredinol ar economi Cymru, mae'n wir fod 11 Medi wedi cael effaith ddinistriol yn y tymor byr ar y diwydiant aerofod. Mae'r modd y llwyddodd y rheolwyr, yr undebau a'r gymuned yn gyffredinol i gyd-dynnu i helpu'r diwydiant aerofod drwy'r argyfwng hwnnw, y disgwylir iddo bara tan ddechrau 2004, yn hynod. Maent wedi gwneud yn arbennig o dda i greu awyrgylch—nad ydych chi wedi cyfrannu ato—o barodrwydd i neidio ymlaen yn 2004 pan fydd pethau ar i fyny a phan aildechreuir archebu awyrennau.

Yr ydych bob amser yn adrodd pader targedau rhanbarthol, Ieuan, fel pe bai'n ateb hawdd i bopeth. Yr oeddwn bob amser wedi tybio mai'r rheswm dros ddiddordeb Plaid Cymru mewn targedau rhanbarthol oedd fel y gallech ddweud gwahanol bethau wrth wahanol bobl mewn gwahanol rannau o Gymru. Wedyn gallech ddweud eich bod o blaid y Cymoedd pan fyddech yn y Cymoedd ac o blaid cefn gwlad pan fyddech yn y wlad. Fel y dywedais mewn ateb cynharach, rhoddwn ein blaenoriaeth uchaf i Gymru Amcan 1. Mae hynny'n ddwy ran o dair o Gymru. Wedyn, rhoddwn flaenoriaeth bellach i Gymru Amcan 2, neu haen 2, sef 9 y cant arall, sy'n gwneud 74 y cant. Dyna'r pecyn cryfaf yn nhermau pwmpio arian i mewn i ddiwydiant yn unman yn y DU ar hyn o bryd. Dyna hefyd y pecyn cryfaf a welwyd yng Nghymru ers pan oedd y rhaglen i gau'r pyllau glo yn ei hanterth yng nghanol y 1960au, 35 mlynedd yn ôl.

De-Orllewin Cymru South-West Wales

C4 David Lloyd: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut mae polisïau ei

Q4 David Lloyd: Will the First Minister make a statement on how his Government's

lywodraeth yn effeithio ar dde-orllewin Cymru? (OAQ16429)

Prif Weinidog Cymru: Byddem yn awyddus i ganolbwyntio, y prynhawn yma, ar fater y technïams. Polisi newydd sbon a ddyfeisiwyd yn y De-orllewin gan Awdurdod Datblygu Cymru ac eraill ydyw. Dechreuodd yn Abertawe, ac mae'r technïum cyntaf yn fwy o lwyddiant nag y gellid bod wedi breuddwydio. Yn awr, cyflwynir y syniad ymhellach, gyda technïum arall yn Llandeilo. Bydd un arall ym Mhen-bre a Dafen, gydag un arall wedyn ar gyfer sectorau pwysig megis ynni ym Maglan. Dyna gyfraniad mawr y De-orllewin i ddyfodol ein heconomi dros y chwarter canrif nesaf.

David Lloyd: I bwysu arnoch ymhellach, beth a wnewch i ddenu mwy o swyddi i ardal Abertawe yn benodol o hyn ymlaen? A gytunwch â Huw Lewis fod angen gwneud llawer mwy i fynd i'r afael â thlodi yn y De? Un ffordd o wneud hynny yw cael targedau rhanbarthol penodol i gynyddu swyddi mewn rhanbarthau lle mae eu hangen.

Prif Weinidog Cymru: Yr ydym wedi gwneud llawer drwy roi £5.6 miliwn ychwanegol i'r WDA yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol hon fel y gall fuddsoddi ymhellach ym mhrosiect Pentref Arloesedd Porth Tawe. Mae'r fath syniad wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae'r hyn a gyflawnwn yn bwysicach o lawer na thargedau, neu'r hyn yr ydych yn siarad ac yn ysgrifennu amdano. Yr hyn yr ydych yn ei wneud yw'r prawf, a gallwn ddangos ein bod wedi buddsoddi llawer yn Abertawe: £9 miliwn yn yr ysgol glinigol newydd, £10 miliwn—fe gredaf—yn y pwll nofio cenedlaethol newydd, grant o oddeutu £13 miliwn i ganolfan siopa newydd Castle Keys, ac ati. Ni fyddai'n rhesymol i unrhyw un yn Abertawe gwyno nad ydym wedi cymryd y camau yr ydych yn sôn amdanynt i greu llewyrch newydd yn Abertawe a'r cylch.

Alun Cairns: Yr ydych wedi sôn eisoes am International Rectifier, sydd wedi cyhoeddi safle newydd yng Nghasnewydd. Fodd bynnag, a ydych yn pryderu mai dim ond 100 o swyddi a grewyd ar safle International Rectifier yn Abertawe pan fo'r cwmni wedi addo creu 500 o swyddi? Gan bod 'Cymru'n

policies affect south-west Wales? (OAQ16429)

The First Minister: We would be keen to focus, this afternoon, on technïams. It is a brand new policy that was devised in south-west Wales by the Welsh Development Agency and others. It started in Swansea, and the first technïum is a greater success than could ever have been imagined. Now, the idea is being rolled out further, with another technïum at Llandeilo. There will be another at Pembrey and Dafen, with another later for important sectors such as energy at Baglan. That is south-west Wales's great contribution to the future of our economy over the next quarter century.

David Lloyd: To press you further, what will you do to attract more jobs to the Swansea area specifically from now on? Do you agree with Huw Lewis that much more must be done to tackle poverty in south Wales? One way to do that is to set specific regional targets to increase jobs in regions where they are needed.

The First Minister: We have done a great deal by providing an additional £5.6 million to the WDA in the last quarter of this financial year so that it can invest more extensively in the Port Tawe Innovation Village. Such ideas are at the heart of what we do. Our achievements are far more important than targets, or what you speak or write about. Actions speak louder than words, and we can show that we have invested a great deal in Swansea: £9 million in the new clinical school, £10 million—I believe—in the new national swimming pool, a grant of around £13 million for the new Castle Keys shopping centre, and so on. It would not be reasonable for anyone in Swansea to complain that we have not taken the steps that you mention to create new prosperity in Swansea and the surrounding area.

Alun Cairns: You have already mentioned International Rectifier, which has announced a new site at Newport. However, are you concerned that only 100 jobs have been created on the International Rectifier site in Swansea when the company promised to create 500 jobs? As 'A Winning Wales'

Ennill' yn sôn am sefydlu clystyrau, a ydych yn credu y byddai'n syniad da denu International Rectifier i sefydlu ail ffatri yn Abertawe er mwyn creu clwstwr ychwanegol yno?

2:20 p.m.

Prif Weinidog Cymru: Dyna ymateb hollol afresymol a thruenus i newyddion da ein bod wedi gallu achub swyddi a oedd ar fin diflannu yng Nghasnewydd. Yr oedd y cwmni yn nwylo'r derbynnydd ac wedi mynd yn llanast. Yr ydym wedi achub y swyddi ac mae addewid y caiff tua 400 o swyddi ychwanegol eu creu yng Nghasnewydd. O ran ffatri International Rectifier ym Mhenllergaer, y mae cynlluniau'r cwmni yn bwrw yn eu blaen. Dywed ei fod am gyrraedd y nod o greu 500 o swyddi o fewn pum mlynedd. Y mae'n hollol sicr y gall gyrraedd y nod. Felly, nid wyf yn deall eich problem, Alun, o ran newyddion da i economi Cymru.

mentions setting up clusters, do you think that it would be a good idea to attract International Rectifier to establish a second factory in Swansea in order to create an additional cluster there?

The First Minister: That is a totally unreasonable and pitiful response to the good news that we have been able to save jobs which were about to be lost in Newport. The company was in administration and had become a shambles. We have saved the jobs and there is a promise that around 400 additional jobs will be created in Newport. Regarding the International Rectifier factory at Penllergaer, the company's plans are going ahead. It says that it will achieve its target of creating 500 jobs within five years. It is absolutely sure that it can achieve the target. Therefore, I do not understand your problem, Alun, regarding good news for the Welsh economy.

Cysylltiadau â Gwledydd a Rhanbarthau yn Ewrop Links with Nations and Regions in Europe

Q5 Peter Black: What is being done to improve Wales's links with nations and regions in Europe with similar interests? (OAQ16424)

The First Minister: We have links with the statutory element of Europe's emerging constitution, namely the Committee of the Regions, and we are also members of other bodies, which one can choose to join—it would be unwise to join them all because you could not find enough people to sit on them. Nevertheless, we have chosen to join the Conference of Peripheral and Maritime Regions. The Assembly is also a member of the group of regions with legislative powers in Europe. Between now and the next intergovernmental conference—which may choose to rewrite the treaties governing Europe—the regions' position will be under the spotlight as part of the subsidiarity agenda. That agenda will consider what Europe, member states and regional tier Governments, such as ours, should be doing. That will be determined in early 2004 and we must ensure that we have a voice.

C5 Peter Black: Beth sy'n cael ei wneud i wella cysylltiadau Cymru â gwledydd a rhanbarthau yn Ewrop sydd â diddordebau cyffelyb? (OAQ16424)

Prif Weinidog Cymru: Mae gennym gysylltiadau gyda'r elfen statudol yng nghyfansoddiad gwledydd bach Ewrop, sef Pwyllgor y Rhanbarthau, ac yr ydym yn aelodau hefyd o gyrff eraill, y gellir dewis ymuno â hwy—byddai'n annoeth ymuno â phob un ohonynt oherwydd ni allech gael digon o bobl i eistedd arnynt. Serch hynny, yr ydym wedi dewis ymuno â Chynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arforol. Mae'r Cynulliad hefyd yn aelod o'r grŵp o ranbarthau sydd â phwerau deddfu yn Ewrop. O hyn tan y gynhadledd rynglywodraethol nesaf—a all ddewis ailysgrifennu'r cytundebau ar reolaeth Ewrop—bydd sefyllfa'r rhanbarthau dan y chwyddwydr fel rhan o'r agenda ddatganoli. Bydd y rhaglen honno'n ystyried beth y dylai Ewrop, yr aelod wladwriaethau a Llywodraethau haen ranbarthol, fel ein hun ni, fod yn ei wneud. Penderfynir ar hynny yn gynnar yn 2004 a rhaid inni sicrhau bod gennym lais.

Peter Black: Do you think that Wales and the United Kingdom have much to learn about the federal structures of many European countries, particularly Germany? Will you be asking the commission on Assembly powers to consider those structures to see if there are any lessons that we can learn?

The First Minister: We can only learn up to a point. We have far more in common with Spain than with Germany. The German post-war constitution—written by our best constitutional lawyers—is a uniform, across-the-board, federal and land government constitution. Spain is more similar to us in the fact that it has an unwritten constitution which moves forward slowly every five or 10 years. Parts of Spain have more devolution than others, which is much more similar to devolution in the United Kingdom. The Spanish constitution recognises the special position of Catalunya, the Basque Country and Galicia as the unwritten British constitution recognises Scotland, Wales and Northern Ireland. I see more parallels with Spain than with Germany.

Elin Jones: A gytunwch, felly, â'r sylwadau a wnaeth Prif Weinidog Gibraltar y prynhawn yma, y dylai'r holl bobloedd trefedigaethol fwynhau'r hawl i benderfynu drostynt eu hunain? Os felly, a anghytunwch yn sylfaenol â sylwadau anhygoel Eluned Morgan dros y penwythnos mai pleidiau asgell dde gwladwriaeth Sbaen a ddylai benderfynu ar lais cryfach i Gymru yn Ewrop y dyfodol? Beth yw eich safbwynt chi ar y mater hwn? A gredwch mai pobl Cymru a ddylai benderfynu ar ddyfodol cyfansoddiadol y wlad neu a ddylai gwladwriaethau hunanol yr Undeb Ewropeaidd benderfynu?

Prif Weinidog Cymru: Deallaf ddrwgdeimlad Elin tuag at Eluned Morgan, gan mai hi a sicrhodd ddyfarniad y comisiwn nad oes statws annibynnol i'w gael o fewn Ewrop. Credais y byddai hynny yn achosi ymateb o ryw fath gan Aelodau Plaid Cymru. Fodd bynnag, o ran democratiaeth, yr ydym yn gweithio o fewn ein cyfundrefn,

Peter Black: A ydych yn meddwl bod gan Gymru a'r Deyrnas Unedig lawer i'w ddsygu ynghylch strwythurau ffederal llawer o wledydd Ewrop, a'r Almaen yn enwedig? A fyddwch yn gofyn i'r comisiwn ar bwerau'r Cynulliad ystyried y strwythurau hynny i weld a oes unrhyw wersi y gallwn eu dysgu?

Prif Weinidog Cymru: Dim ond at ryw bwynt y gallwn ddsygu. Mae gennym lawer mwy yn gyffredin â Sbaen nag â'r Almaen. Mae cyfansoddiad yr Almaen ers y rhyfel—a ysgrifennwyd gan ein cyfreithwyr cyfansoddiadol gorau—yn gyfansoddiad unffurf, ar draws y bwrdd, ffederal sy'n llywodraethu'r tir. Mae Sbaen yn debycach i ni o ran y ffaith fod ganddi gyfansoddiad anysgrifenedig sy'n symud ymlaen yn araf bob pum mlynedd neu 10. Mae gan rai rhannau o Sbaen fwy o ddatganoli nag eraill, sydd yn llawer tebycach i ddatganoli yn y Deyrnas Unedig. Mae cyfansoddiad Sbaen yn cydnabod sefyllfa arbennig Catalunya, Gwlad y Basg a Galicia fel y mae cyfansoddiad anysgrifenedig Prydain yn cydnabod yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Gwelaf fwy yn gyffredin gyda Sbaen na chyda'r Almaen.

Elin Jones: Do you therefore agree with the comments made by the Chief Minister of Gibraltar earlier this afternoon that all colonial peoples should enjoy the right to self-determination? If so, do you fundamentally disagree with Eluned Morgan's absurd comments over the weekend that right-wing parties within the Spanish state should decide whether Wales should be given a stronger voice in the Europe of the future? Where do you stand on this issue? Do you believe that the people of Wales should decide on the constitutional future of the country or should the selfish states of the European Union do so?

The First Minister: I understand Elin's ill-feeling towards Eluned Morgan, since she secured the commission's judgment that full national status within Europe is not recognised. I expected that to draw some sort of response from Plaid Cymru Members. However, regarding democracy, we are working within our system, which has several

sydd yn fanteisiol mewn sawl ffordd gan ei bod mor hyblyg. Er bod datganoli wedi bodoli yn Sbaen ers chwarter canrif, ers marwolaeth Franco, nid oes gan arweinwyr Cataluny, Gwlad y Basg a Galicia yr hawl i fynychu cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion yn Ewrop. Cawsom yr hawl honno oherwydd bod gan y Cynulliad gyfansoddiad hyblyg heb ei ysgrifennu a chan fod cydweithrediad rhwngom a Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Felly, mae'n anodd cymharu yr hyn na allwch ei wneud yn Sbaen â'r hyn y llwyddasom i'w wneud yn llawer cyflymach na'r disgwyl ar ôl sefydlu'r Cynulliad.

advantages as it is so flexible. Although devolution has been a reality in Spain for a quarter of a century, since Franco's death, the leaders of Catalunya, the Basque Country and Galicia do not have the right to attend meetings of the European Council of Ministers. We were given that right because the Assembly has a flexible unwritten constitution and because there is co-operation between us and the UK Government. Therefore, it is difficult to compare what you cannot do in Spain with what we have achieved much quicker than anticipated after the inception of the Assembly.

Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Lywodraethu European Commission White Paper on Governance

Q6 Brian Hancock: Will the First Minister give an update following his response to the European Commission White Paper on Governance? (OAQ16423)

C6 Brian Hancock: A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi'r newyddion diweddaraf yn dilyn ei ymateb i Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Lywodraethu? (OAQ16423)

The First Minister: I have not yet responded; we have until 30 March and I am waiting until after tomorrow's meeting of the Committee on European and External Affairs. We will then finalise the response because, although it will be issued by the Assembly Government, I want it to be as consensus-based as possible, because we put much work into involving the other parties in the Assembly and also the other stakeholders following the forum in Llandudno. There was good representation there from Welsh local government and from the voluntary sector. I would like it to be sent on behalf of Wales as a whole, not under some narrower definition.

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf wedi ymateb eto; mae gennym hyd 30 Mawrth ac yr wyf yn aros tan ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yfory. Wedyn fe luniwn yr ymateb terfynol oherwydd, er mai Llywodraeth y Cynulliad fydd yn ei gyhoeddi, mae arnaf eisiau iddo fod yn seiliedig ar gonsensws gymaint ag sy'n bosibl, oherwydd gwnaethom lawer o waith i gynnwys y pleidiau eraill yn y Cynulliad ynghyd â'r cyfranogion eraill yn dilyn y fforwm yn Llandudno. Cafwyd cynrychiolaeth dda yno o lywodraeth leol yng Nghymru a'r sector gwirfoddol. Hoffwn iddo gael ei anfon ar ran Cymru gyfan, nid drwy ddefnyddio diffiniad culach.

Brian Hancock: In relation to the possibility of tripartite contracts, which is referred to in the White Paper, are you aware of regions already preparing proposals for pilot schemes to be launched this year? What action do you intend to take to ensure that projects from Wales will be among the successful applications for pilot schemes?

Brian Hancock: O ran posibilrwydd cytundebau tridarn, y cyfeirir ato yn y Papur Gwyn, a ydych yn ymwybodol bod rhanbarthau eisoes yn paratoi cynigion ar gyfer cynlluniau peilot i'w lansio eleni? Beth y bwriadwch ei wneud i sicrhau y bydd prosiectau o Gymru ymhlith y ceisiadau llwyddiannus am gynlluniau peilot?

The First Minister: We discussed that subject with Jérôme Vignon, who is Commission President Prodi's special envoy and assistant and who wrote the White Paper on Governance. He was with us in Llandudno and we were able to have a meeting with him

Prif Weinidog Cymru: Gwnaethom drafod y pwnc hwnnw gyda Jérôme Vignon, a ysgrifennodd y Papur Gwyn ar Lywodraethu ac sydd yn gennad arbennig a chynorthwy-ydd i Lywydd y Comisiwn, Romano Prodi. Yr oedd Jérôme Vignon gyda

to define what a pilot project would look like and in which areas he would welcome proposals from Wales. We are working on those now.

Mick Bates: I have always been concerned about the aspects of this review concerning better regulations. What can the Assembly do to ensure that Welsh small businesses are not adversely affected by European legislation?

The First Minister: There was an agreement at last weekend's Barcelona summit for a lighter touch on regulation. We look forward to that reduced red tape, now that it has been agreed by the 15 prime ministers and foreign ministers who were at the Barcelona summit. Let us see that being put into action over the next 12 months.

Jonathan Morgan: Do you agree that the future governance of the European Union is an integral part of the whole debate on Europe and its future direction? Do you also agree that Britain should lead the way as part of the European Union and not sit on the sidelines, as some former Conservative Prime Ministers would have us do?

The First Minister: You can hardly expect me to disagree with that, Jonathan. I leap on that question with great alacrity and commend your views, whatever some of your colleagues might think of them. I agree; you cannot stand on the sidelines. You must be constructively involved with Europe. I do not want to see the return of handbag diplomacy in Europe; it does not work.

Y Llywydd: Mae cwstiwn 7 (OAQ16413) wedi'i dynnu'n ôl.

ni yn Llandudno a llwyddasom i gael cyfarfod gydag ef i ddiffinio sut beth fyddai prosiect peilot ac ym mha feysydd y byddai ef yn croesawu cynigion o Gymru. Yr ydym yn gweithio ar y rheini'n awr.

Mick Bates: Yr wyf wedi bod yn bryderus erioed ynghylch yr agweddau ar yr adolygiad hwn sy'n ymwneud â gwell rheoliadau. Beth all y Cynulliad ei wneud i sicrhau nad effeithir yn andwyol ar fusnesau bychain yng Nghymru gan ddeddfwriaeth Ewrop?

Prif Weinidog Cymru: Cafwyd cytundeb yn uwch-gynhadledd y penwythnos diwethaf yn Barcelona i beidio ag ymdrin â rheoliadau â llaw mor gadarn. Edrychwn ymlaen at y lleihad hwnnw mewn biwrocratiaeth, gan ei fod bellach wedi'i gytuno gan y 15 o brif weinidogion a gweinidogion tramor a fynychodd uwch-gynhadledd Barcelona. Gobeithiwn weld hynny'n cael ei weithredu yn y 12 mis nesaf.

Jonathan Morgan: A ydych yn cytuno bod y modd y llywodraethir yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol yn rhan annatod o'r holl ddadl ar Ewrop a'i chyfeiriad i'r dyfodol? A ydych yn cytuno hefyd y dylai Prydain arwain y ffordd fel rhan o'r Undeb Ewropeaidd ac nid eistedd ar yr ymylon, fel yr hoffai ambell gyn Brif Weinidog Ceidwadol inni wneud?

Prif Weinidog Cymru: Prin y gallwch ddisgwyl imi anghytuno â hynny, Jonathan. Neidiaf ar y cwestiwn hwnnw gydag awch mawr a chymeradwyaf eich sylwadau, beth bynnag fo barn rhai o'ch cyd-Aelodau arnynt. Cytunaf; ni ellir sefyll ar yr ymylon. Rhaid ymwneud yn adeiladol ag Ewrop. Nid oes arnaf fi eisiau gweld diplomyddiaeth bagiau llaw yn dychwelyd yn Ewrop; nid yw'n gweithio.

The Presiding Officer: Question 7 (OAQ16413) has been withdrawn.

Cynhadledd ar Ddyfodol Ewrop Convention on the Future of Europe

Q8 Geraint Davies: What meetings has the First Minister had with the UK Minister for Europe on representing the views of the Assembly in the Convention on the Future of

C8 Geraint Davies: Pa gyfarfodydd y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda Gweinidog y DU dros Ewrop ynghylch cynrychioli safbwyntiau'r Cynulliad yn y

Europe? (OAQ16421)

The First Minister: A meeting with the UK Minister for Europe is scheduled for next month where we will discuss a range of issues. The convention will be a main issue of discussion at that meeting.

Geraint Davies: Will you explain how Peter Hain, the UK Minister for Europe, can represent the Assembly's views, when they might not be in line with those of the UK Government? Do you not think that Wales's interests would be far better served by having direct representation, like Scotland, which has two seats on that convention, so that we could have a direct, strong voice for the people of Wales at the highest level of European structure?

The First Minister: That question would be fine, if it was not wrong. Scotland does not have direct representation on the convention. No region or regional tier government has direct representation. I understand to whom you refer. There is a member of the Committee of the Regions who represents the rainbow group of Members of the European Parliament. That member was not chosen by Scotland, but by the rainbow group. In the same way, Peter Hain represents the UK Government. Naturally, the Scot concerned will have a Scottish perspective and Peter Hain will have a Welsh perspective. However, those are not their prime representative duties, and they were not chosen by those countries. The rainbow group chose its member of the Committee of the Regions. That member has observer status, and cannot vote. I also understand that one other person has come through from the local government bodies, again, not representing Scotland. Plaid Cymru harps on, as ever, about Scotland having this and Wales not having that, but I am afraid that it is misleading people in Wales, as always. These people represent a much bigger constituency than Scotland. That is no different from Peter Hain having a Welsh perspective, although he is present as the UK Government Minister for Europe.

Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop? (OAQ16421)

Prif Weinidog Cymru: Mae cyfarfod gyda Gweinidog y DU dros Ewrop wedi'i drefnu ar gyfer y mis nesaf lle byddwn yn trafod gwahanol bethau. Bydd y gynhadledd yn brif destun trafod yn y cyfarfod hwnnw.

Geraint Davies: A wnewch chi esbonio sut y gall Peter Hain, Gweinidog y DU dros Ewrop, gynrychioli barn y Cynulliad, gan y bydd efallai'n wahanol i farn Llywodraeth y DU? Onid ydych yn meddwl y byddai buddiannau Cymru'n cael eu gwasanaethu'n llawer gwell o gael cynrychiolaeth uniongyrchol, fel yr Alban, sydd â dwy sedd yn y gynhadledd honno, fel y gallem ninnau gael llais cryf, uniongyrchol dros bobl Cymru ar lefel uchaf y strwythur Ewropeaidd?

Prif Weinidog Cymru: Byddai'r cwestiwn hwnnw'n un da, pe na bai'n anghywir. Nid oes gan yr Alban gynrychiolaeth uniongyrchol yn y gynhadledd. Nid oes gan unrhyw ranbarth na llywodraeth haen ranbarthol gynrychiolaeth uniongyrchol. Deallaf at bwy yr ydych yn cyfeirio. Mae aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau yn cynrychioli'r grŵp ambleidiol o Aelodau Senedd Ewrop. Nid yr Alban a ddewisodd yr aelod hwnnw, ond y grŵp ambleidiol. Yn yr un modd, mae Peter Hain yn cynrychioli Llywodraeth y DU. Yn naturiol, bydd gan yr Albanwr dan sylw safbwynt Albanaidd a bydd gan Peter Hain safbwynt Cymreig. Er hynny, nid dyna'u prif ddyletswyddau fel cynrychiolwyr, ac ni chawsant eu dewis gan y gwledydd hynny. Y grŵp ambleidiol a ddewisodd eu haelod hwy ar Bwyllgor y Rhanbarthau. Mae gan yr aelod hwnnw statws sylwedydd, ac ni chaiff bleidleisio. Deallaf hefyd fod un person arall wedi dod o'r cyrff llywodraeth leol, ond nid i gynrychioli'r Alban. Mae Plaid Cymru'n rhygnu ymlaen, fel arfer, fod yr Alban yn cael hyn a Chymru heb gael y llall, ond mae gennyf ofn eu bod yn camarwain pobl Cymru, fel arfer. Mae'r bobl hyn yn cynrychioli etholaeth lawer mwy na'r Alban. Nid yw hynny'n ddim gwahanol i'r ffaith bod gan Peter Hain safbwynt Cymreig, er ei fod yn bresennol fel Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop.

2:30 p.m.

Glyn Davies: Many believe that the convention on the future of Europe could degenerate into chaos because of the domineering approach of its chair. Do you agree that to create some order, it would be good to lay down some ground rules? I am sure that all Conservative Party leaders—past and present—would agree. Do you think that, on behalf of the Assembly we should say now that we are not in favour of extending qualified majority voting?

The First Minister: I do not know whether you are confusing Giscard d'Estang and Margaret Thatcher in your references. You should be aware that the convention is not a decision-making body. It will run up to the inter-governmental conference in early 2004 and will try to tap into the feelings of the citizens of Europe, pre-enlargement and in all its different variegated areas. It is trying to guess what Europe will be like after enlargement in terms of what the role of subsidiarity should be in a post-enlargement 27-state Europe. How do you run Europe when you have got 27 member states? What does Europe do? What will the member states do and what will regional tier governments and local government finish up doing after that?

The convention has a rolling programme of engagements, which may or may not take place outside Brussels; it may come to Wales. We do not know how that will work. However, decisions will be made at the inter-governmental conference in early 2004, which will include an entirely different cast of characters, namely the prime ministers and foreign ministers of member states, which, presumably, will still amount to 15.

On having different rules on qualified majority voting, many issues that you probably agree with Glyn, such as further liberalisation of energy, telecommunications and financial markets, were agreed on in Barcelona two or three days ago, based on an extension of qualified majority voting. Your party would probably agree with that.

Glyn Davies: Mae llawer yn credu y gallai'r gynhadledd ar ddyfodol Ewrop droi'n anhrefn oherwydd agwedd dra-arglwyddiaethol ei chadeirydd. A ydych yn cytuno y byddai'n beth da, er mwyn creu rhywfaint o drefn, sefydlu rhai rheolau sylfaenol? Yr wyf yn siŵr y byddai holl arweinwyr y Blaid Geidwadol—ddoe a heddiw—yn cytuno. A ydych yn meddwl y dylem ddatgan yn awr, ar ran y Cynulliad, nad ydym o blaid ymestyn pleidleisio mwyafrifol amodol?

Prif Weinidog Cymru: Ni wn a ydych yn cymysgu rhwng Giscard d'Estang a Margaret Thatcher yn yr hyn a ddywedwch. Dylech wybod nad corff sy'n gwneud penderfyniadau yw'r gynhadledd. Bydd yn gweithio hyd at y gynhadledd ryng-lywodraethol ym misoedd cyntaf 2004 ac yn ceisio barn dinasyddion Ewrop, cyn yr ehangu, ac yn ei holl wahanol ardaloedd amrywiol. Mae'n ceisio dyfalu sut le fydd Ewrop wedi'r ehangu, o ran beth ddylai rôl is-reolaeth fod mewn Ewrop o 27 gwladwriaeth wedi'r ehangu. Sut mae gweinyddu Ewrop sy'n cynnwys 27 o aelod-wladwriaethau? Beth mae Ewrop yn ei wneud? Beth fydd yr aelod-wladwriaethau'n ei wneud a beth fydd y llywodraethau haen ranbarthol a llywodraeth leol yn ei wneud ar ôl hynny?

Mae gan y gynhadledd raglen dreigl o gyfarfodydd, a allai ddigwydd y tu allan i Frwsel; fe allai ddod i Gymru. Ni wyddwn sut y bydd hynny'n gweithio. Fodd bynnag, gwneir penderfyniadau yn y gynhadledd ryng-lywodraethol ym misoedd cyntaf 2004, a fydd yn cynnwys cast cwbl wahanol o gymeriadau, sef prif weinidogion a gweinidogion tramor yr aelod-wladwriaethau, a fydd, gallwn dybio, yn gyfanswm o 15 o hyd.

O ran cael rheolau gwahanol ar bleidleisio mwyafrifol amodol, cytunwyd ar lawer o faterion yr ydych chi, Glyn, mae'n debyg, yn cytuno â hwy, megis rhyddhau marchnadoedd ariannol, ynni a thelathrebu ymhellach, yn Barcelona ddeuddydd neu dri yn ôl, ar sail estyniad o system bleidleisio mwyafrifol amodol. Mae'n debyg y

byddai'ch plaid yn cytuno â hynny.

Cysylltiadau â Gwledydd Eraill **Links with Other Countries**

Q9 Christine Gwyther: With regard to his responsibility for relations between Wales and the rest of the world, will the First Minister give an update on the development of Assembly links with other countries? (OAQ16416)

The First Minister: I will not mention Europe again, because I have covered that in my answer to Peter Black. Outside Europe, over the last year, I have signed a memorandum of understanding with the Government of the Chubut province in Argentina, with which we have such close historic links. Similarly, the Minister for Education and Lifelong Learning signed an agreement with Cuba based on co-operation in higher education. The Premier of Queensland will visit us later this year following the visit of his education minister, Anna Bligh, earlier in the year. A highly successful Wales weekend in New York two weekends ago to celebrate St David's Day, gave me the opportunity to build on our links with America and to further our plans for setting up a series of Wales international centres, the first of which, we hope, will open in New York in the final quarter of the year.

Christine Gwyther: You will not be surprised to know that I want to concentrate on export initiatives. WalesTrade International's record is impressive and I agree that ministerial visits are great for morale and awareness raising. However, do you think that we could do more if we looked outside the box in terms of export initiatives? Will you support the work being done by individual companies such as Ledwood Construction Ltd in my constituency, which is developing links with companies overseas and encouraging other local firms to join it?

The First Minister: I was interested to visit Ledwood Construction Ltd with you. As you say, it thinks outside the box in terms of what pay-off it can get over the next 10 years. It is

C9 Christine Gwyther: O ran ei gyfrifoldeb dros y berthynas rhwng Cymru a gweddill y byd, a wnaiff Prif Weinidog Cymru roi'r newyddion diweddaraf ar hynt yr ymdrechion i ddatblygu cysylltiadau rhwng y Cynulliad a gwledydd eraill? (OAQ16416)

Prif Weinidog Cymru: Ni soniaf am Ewrop eto, oherwydd yr wyf wedi trafod hynny yn fy ateb i Peter Black. Y tu allan i Ewrop, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yr wyf wedi llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth talaith y Chubut yn yr Ariannin, y mae gennym ni gysylltiadau hanesyddol agos iawn â hwy. Yn yr un modd, llofnododd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes gytundeb gyda Chiwba yn seiliedig ar gydweithredu mewn addysg uwch. Bydd Prif Weinidog Queensland yn ymweld â ni'n ddiweddarach eleni yn dilyn ymweliad ei weinidog addysg, Anna Bligh, yn gynharach yn y flwyddyn. Mewn penwythnos Cymreig hynod o lwyddiannus yn Efrog Newydd ddau benwythnos yn ôl i ddatlu Dydd Gŵyl Dewi, cefais y cyfle i ddatblygu ein cysylltiadau ag America a hyrwyddo'n cynlluniau i sefydlu cyfres o ganolfannau Cymru rhyngwladol, a gobeithiwn y bydd y gyntaf ohonynt yn agor yn Efrog Newydd yn chwarter olaf y flwyddyn.

Christine Gwyther: Ni fyddwch yn synnu fy mod i am ganolbwyntio ar fentrau allforio. Mae record WalesTrade International yn dda a chytunaf fod ymweliadau gan weinidogion yn wych ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac ysbryd. Er hynny, ydych chi'n meddwl y gallem ni wneud mwy pe edrychem y tu allan i'r blwch yng nghyd-destun mentrau allforio? A wnewch chi gefnogi'r gwaith a wneir gan gwmnïau unigol fel Ledwood Construction Cyf yn fy etholaeth i, sy'n datblygu cysylltiadau â chwmnïau tramor ac yn annog cwmnïau lleol eraill i ymuno ag ef?

Prif Weinidog Cymru: Profiad diddorol oedd ymweld â Ledwood Construction Cyf gyda chi. Fel y dywedaso, mae'n meddwl y tu allan i'r blwch o ran beth y gall ei gael

organising a method by which the future managers of plants, or people who will be ordering public sector goods in middle-eastern countries will receive much of their vocational education in Wales or will have followed a Welsh-orientated programme. They are then much more likely to order from Wales because they are used to the Welsh way of doing things. That was a well-known principle in Britain, but it had worn thin over the last 20 years. However, reintroducing that principle, as Ledwood Construction Ltd now proposes in co-operation with at least one country in the middle east, is an original way of exporting goods today, tomorrow and for generations to come.

Helen Mary Jones: You will be aware that your colleague—or whatever he is—Mike German, has tabled a written question to you about the location of other Wales international centres, in addition to Hong Kong, Tokyo, San Francisco and New York. Would it be too much of a breach of what I think your colleague, Huw Lewis, called your ‘palace politics’ for you to let us know whether you think Mike German might be on the lookout for another international job?

The First Minister: That went down like a lead balloon, did it not? We have no proposals to go beyond the list that you correctly quoted.

Rod Richards: Are you holding secret negotiations with Hong Kong?

The First Minister: I think that I know what you, in your usual straightforward manner, are referring to. However, I cannot comment on internal matters pertaining to a party to which I do not belong, have never belonged, and have no intention of ever belonging.

dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'n llunio system lle bydd rheolwyr ffatrioedd yn y dyfodol, neu bobl fydd yn archebu nwyddau'r sector cyhoeddus yng ngwledydd y dwyrain canol, yn cael llawer o'u haddysg alwedigaethol yng Nghymru neu yn dilyn rhaglen â gogwydd Cymreig. Wedyn byddant yn llawer mwy tebygol o archebu o Gymru am eu bod wedi arfer â'r ffordd Gymreig o wneud pethau. Yr oedd hynny'n egwyddor gyfarwydd ym Mhrydain, ond yr oedd wedi mynd yn dreuliedig braidd yn yr 20 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae ailgyflwyno'r egwyddor honno, fel y mae Ledwood Construction Cyf yn awgrymu yn awr gydag o leiaf un wlad yn y dwyrain canol, yn ffordd wreiddiol o allforio nwyddau heddiw, yfory ac am genedlaethau i ddod.

Helen Mary Jones: Byddwch yn ymwybodol fod eich cyd-Aelod—neu beth bynnag ydyw—Mike German, wedi cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig ichi ynghylch lleoliad canolfannau rhyngwladol eraill Cymru, ar wahân i Hong Kong, Tokyo, San Francisco ac Efrog Newydd. A fyddai'n ormod o ymadawiad oddi wrth yr hyn a alwyd gan eich cyd-Aelod, Huw Lewis, mi gredaf, yn ‘fân wleidydda ymysg arweinwyr’ ichi roi gwybod inni a ydych yn meddwl bod Mike German yn chwilio am swydd rhyngwladol arall?

Prif Weinidog Cymru: Aeth hynny i lawr yn dda, onid do? Nid oes gennym ddim cynlluniau i fynd ymhellach na'r rhestr a ddyfynnwyd yn gywir gennych.

Rod Richards: A ydych yn cynnal trafodaethau dirgel gyda Hong Kong?

Prif Weinidog Cymru: Credaf fy mod yn gwybod beth yr ydych chi, yn eich dull uniongyrchol arferol, yn cyfeirio ato. Fodd bynnag, ni allaf gyfeirio at faterion mewnol plaid nad wyf yn aelod ohoni, na fŷm i erioed yn aelod ohoni, ac nad oes gennyf ddim bwriad bod yn aelod ohoni byth.

Cod y Gweinidogion Ministerial Code

Q10 Pauline Jarman: Does the First Minister have any plans to frequently review the Ministerial Code? (OAQ16422)

C10 Pauline Jarman: A oes gan Brif Weinidog Cymru unrhyw gynlluniau i adolygu Cod y Gweinidogion yn rheolaidd?

(OAQ16422)

The First Minister: No.**Prif Weinidog Cymru:** Nac oes.

Pauline Jarman: On page 1 of the Ministerial Code, you claim that the code is based on the seven Nolan principles of public life. One of those principles is honesty. Can you remind us of the other six?

Pauline Jarman: Ar dudalen 1 Cod y Gweinidogion, haerwch fod y cod yn seiliedig ar saith egwyddor Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus. Gonestrwydd yw un o'r egwyddorion hynny. A allwch ein hatgoffa beth yw'r chwech arall?

The First Minister: I am trying to see where they are on page 1 of the code. They are not on page 1 of my code, but perhaps I am wrong. I remember that transparency is one of them, but I would not like to put myself forward these days as an expert on quiz questions such as the one that you have just asked.

Prif Weinidog Cymru: Yr wyf yn ceisio gweld ble y maent ar dudalen 1 y cod. Nid ydynt ar dudalen 1 fy nghod i, ond efallai fy mod yn anghywir. Cofiaf mai tryloywder yw un ohonynt, ond ni hoffwn gynnig fy hun bellach fel arbenigwr ar gwestiynau cwis yn debyg i'r un a ofynnwyd gennych chi yn awr.

Alun Cairns: As you have a Cardiff-centric Cabinet, are you confident that every decision that you have made affecting Cardiff has involved another Minister from outside the Cardiff area, and if not, will you review those decisions?

Alun Cairns: Gan fod gennych Gabinet Caerdydd-ganoledig, a ydych yn hyderus fod pob penderfyniad o'ch eiddo sy'n effeithio ar Gaerdydd wedi'i wneud gyda chyfraniad Gweinidog arall o'r tu allan i ardal Caerdydd, ac, os na, a wnewch chi adolygu'r penderfyniadau hynny?

The First Minister: I do not think that either Swansea or Bridgend are regarded as parts of Cardiff, unless you have some strange road maps by which you navigate around Wales, Alun. I am confident that we have adhered to the Ministerial Code, as far as I am aware, in every respect and in every decision since I became First Minister.

Prif Weinidog Cymru: Nid wyf yn meddwl y cyfrifir Abertawe na Phen-y-bont ar Ogwr yn rhannau o Gaerdydd, oni bai fod gennych chi ryw fapiau ffyrdd rhyfedd i ganfod eich ffordd o gwmpas Cymru, Alun. Yr wyf yn hyderus ein bod wedi glynu at God y Gweinidogion, hyd y gwn i, ym mhob ystyr ac ym mhob penderfyniad ers i mi ddod yn Brif Weinidog.

System Cyfiawnder Troseddol Criminal Justice System

Q11 John Griffiths: Will the First Minister make a statement on discussions he has held with the Secretary of State concerning the criminal justice system? (OAQ16409)

C11 John Griffiths: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y system cyfiawnder troseddol? (OAQ16409)

The First Minister: This is not a matter that comes up often in discussions with the Secretary of State, simply because affairs relating to the Home Office and to the Lord Chancellor's Department, such as the courts and so forth, are not devolved to the Assembly. However, when we have discussions—and it is relatively rarely—on issues such as trying to ensure that sentencing

Prif Weinidog Cymru: Nid yw hynny'n fater sy'n codi yn aml mewn trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, yn syml oherwydd nad yw materion y Swyddfa Gartref ac Adran yr Arglwydd Ganghellor, megis y llysoedd ac ati, wedi'u datganoli i'r Cynulliad. Fodd bynnag, pan gawn drafodaethau—ac mae'n gymharol brin—ar faterion fel ceisio sicrhau bod polisi dedfrydu

policy and court services are effective, and where there is a fringe element of Assembly responsibility, such as youth justice, we try to ensure that we consider effectiveness in terms of outcomes and continuing to see a reduction in crime. Crime has reduced sharply in Wales by some 16.5 per cent, I believe, since 1997. It has also fallen over the last 12 months, although obviously not by 16.5 per cent.

John Griffiths: In that regard, and to aid crime reduction in Wales, will you give full support to the Home Office's recent imaginative proposals? These include weekend prisons and non-custodial alternatives to prison to tackle the UK's terrible record of imprisoning more of its people than almost any other country in Europe.

The First Minister: I agree, if what you mean is that Britain must make a choice of whether it goes down the American road of imprisoning huge numbers of males, in particular, between the ages of 15 and 30. I do not think that there is any other European country that is even contemplating going down that road. I was pleased to see David Blunkett's constructive proposals to that effect.

Cynog Dafis: Byddwch yn gwybod bod camweinyddu cyfiawnder wedi digwydd nifer o weithiau yn dilyn ymchwiliadau gan Heddlu De Cymru. Carcharwyd nifer o bobl ar gam—yn achos Michael O'Brien, am 11 mlynedd. Mae pryder yn parhau ynglŷn â'r enghreifftiau hyn. Mae galw am ymchwiliad cyhoeddus. A gefnogwch yr alwad honno?

Prif Weinidog Cymru: Nid mater i mi yw cefnogi galwadau ar faterion sydd heb eu datganoli. Mae'n eithaf anodd i Brif Weinidog Cymru ddelio â materion sydd yn parhau yn gyfrifoldeb i San Steffan a'r Gweinidog Cartref. Yr wyf yn eithaf cyfarwydd â'r achos hwn gan mai yn fy etholaeth i y llofruddiwyd Philip Saunders. Yr oeddwn yn ei adnabod yn eithaf da oherwydd arferwn brynu papurau newydd o'i stondin. Gweithiodd Alun Michael a minnau, fel yr Aelodau Seneddol a oedd yn gyfrifol

a gwasanaethau'r llysoedd yn effeithiol, a lle mae elfen ymylol o gyfrifoldeb gan y Cynulliad, megis cyfiawnder ieuenctid, ceisiwn sicrhau ein bod yn ystyried effeithiolrwydd yng ngyd-destun canlyniadau a pharhau i weld troseddau'n prinhau. Mae nifer y troseddau yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol, rhyw 16.5 y cant, mi gredaf, ers 1997. Mae wedi cwmpo dros y 12 mis diwethaf hefyd, er nad o 16.5 y cant, yn amlwg.

John Griffiths: Yn hynny o beth, ac i helpu i leihau troseddau yng Nghymru, a roddwch gefnogaeth lawn i gynigion dychmygus diweddar y Swyddfa Gartref? Mae'r rhain yn cynnwys carchardai penwythnos ac opsiynau eraill yn lle carcharu, er mwyn mynd i'r afael â record ofnadwy'r DU o garcharu mwy o'i phobl na bron unrhyw wlad arall yn Ewrop.

Prif Weinidog Cymru: Cytunaf, os mai'r hyn a olygwch yw fod yn rhaid i Brydain ddewis a ydyw am ddilyn y trywydd Americanaidd o garcharu niferoedd enfawr o ddynion, yn enwedig, rhwng 15 a 30 mlwydd oed. Nid wyf yn meddwl bod unrhyw wlad Ewropeaidd arall hyd yn oed yn ystyried dilyn y trywydd hwnnw. Yr oedd yn dda gennyf weld cynigion adeiladol David Blunkett i'r perwyl hwnnw.

Cynog Dafis: You will be aware that miscarriages of justice have occurred on several occasions following inquiries by South Wales Police. Several people have been wrongly imprisoned—in the case of Michael O'Brien, for 11 years. There is continuing concern about these examples. There have been calls for a public inquiry. Do you support those calls?

The First Minister: It is not a matter for me to support requests on non-devolved matters. It is quite difficult, as First Minister, to deal with issues that remain within the remit of Westminster and the Home Secretary. I am quite familiar with this case because Philip Saunders was murdered in my constituency. I knew him quite well as I used to buy newspapers from his stand. Alun Michael and I, as the Members of Parliament responsible for the area and people in question, worked hard to ensure justice for the victim and his

am yr ardal a'r bobl dan sylw, yn eithaf caled i sicrhau cyfiawnder i'r person a lofruddiwyd a'i deulu, ynghyd ag ymchwilio i'r apêl gan Michael O'Brien, Ellis Sherwood a Darren Hall. Bu inni ystyried y pwysau y gellid ei ddwyn gennym i sicrhau adolygiad gan y Bwrdd Adolygu Cyfiawnder Troseddol. Digwyddodd hynny yn y pen draw, ac yr oeddwn yn falch iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar, er fy mod yn drist eu bod wedi gorfod treulio cymaint o amser yno yn y lle cyntaf.

family, as well as making inquiries into the appeal by Michael O'Brien, Ellis Sherwood and Darren Hall. We considered what pressure we could bring to bear to ensure a review by the Criminal Justice Review Board. That took place eventually, and I was pleased that the three were released from prison, while at the same time, but also saddened by the fact that they had been imprisoned for so long in the first place.

2:40 p.m.

Ymweliad ag Etholaeth Ogwr Visit to the Ogmere Constituency

Q12 Janice Gregory: Does the First Minister have any plans to visit the Ogmere constituency to highlight the delivery of Assembly policies? (OAQ16415)

C12 Janice Gregory: A oes gan Brif Weinidog Cymru unrhyw gynlluniau i ymweld ag etholaeth Ogwr i dynnu sylw at gyflwyno polisiau'r Cynulliad? (OAQ16415)

The First Minister: As you have probably read in the press, I made an unscheduled visit to your constituency on Sunday, stopping as the nearest motorist to an accident that happened close to the McArthur Glenn retail outlet. It could have been nasty but, luckily, no-one was seriously injured. I take this opportunity to compliment the emergency services in the Bridgend area, as they arrived at the scene within five minutes of the 999 call and dealt with the accident promptly and efficiently. It reminded me of how dependent we are on the emergency services turning up when needed, particularly as there could have been many deaths and serious injuries.

Prif Weinidog Cymru: Fel yr ydych wedi darllen yn y wasg, mae'n debyg, bu imi ymweld yn annisgwyl â'ch etholaeth chi ddydd Sul, pan stopiais yn rhinwedd y ffaith mai fi oedd y modurwr agosaf at ddamwain a ddigwyddodd yn agos at ganolfan siopa McArthur Glenn. Gallai'r ddamwain wedi bod fod yn ddrwg ond, wrth lwc, nid anafwyd neb yn ddifrifol. Manteisiaf ar y cyfle hwn i ganmol y gwasanaethau argyfwng yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, gan iddynt gyrraedd y fan o fewn pum munud i'r alwad 999 a delio â'r ddamwain yn gyflym ac effeithlon. Fe'm hatgoffwyd o ba mor ddibynnol yr ydym ar i'r gwasanaethau argyfwng ddod atom pan fo'u hangen, yn enwedig gan y gallasai fod llawer wedi marw ac wedi'u hanafu'n ddifrifol.

Janice Gregory: I commend you on your citizenship, and agree with you about the services that we rely so heavily upon.

Janice Gregory: Yr wyf yn cymeradwyo'ch dinasyddiaeth dda, ac yn cytuno â chi ynglŷn â'r gwasanaethau y dibynnwn gymaint arnynt.

The Assembly has many good initiatives, but I am concerned that the people of Wales are not sure what is available to them. I am sure that you are aware of Bridgend County Borough Council's excellent policy of free bus passes for pensioners. Some confusion was caused with regard to this, and I am glad that the local authority leader apologised

Mae gan y Cynulliad lawer o gynlluniau da, ond yr wyf yn bryderus nad yw pobl Cymru'n siŵr beth sydd ar gael iddynt. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o bolisi ardderchog Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o roi tocynnau bws rhad ac am ddim i bensiynwyr. Achoswyd peth dryswch ynglŷn â hyn, ac yr wyf yn falch fod

publicly to people who were taken ill while waiting for their bus passes. The Welsh Assembly Government is leading an excellent campaign for free bus passes. However, will you ensure that similar efforts are made with other Assembly policies so that people in need are fully aware of what is on offer to them?

The First Minister: That is an important point. Whenever you introduce a new initiative, you must estimate the demand for the service and work out how it will be delivered, but you can sometimes be knocked over in the rush. You do your very best to guess how many people will apply and how many days or weeks it will take, or how long they will have to queue, to get the free bus pass—which will be introduced in 10 days' time—or whatever it may be. It is still hard to estimate the best delivery method, but we must improve our record on that because we do not want another episode of over-lengthy queuing to access the benefits of Assembly Government policy.

Janet Davies: It is good to know that hospital services in Bridgend can compensate for the local council's deficiencies. Will you visit the top of the Ogmere Valley to compare the lack of action in deprived coalfield communities with Gwynedd Council's action in the slate valleys?

The First Minister: I do not know what you were referring to in your comparison—which I am sure was neutral in terms of party politics—between Gwynedd and the Bridgend borough. There are three Communities First areas in Ogmere, which aim to bridge the gap between the more affluent south and the more deprived north of the constituency. Likewise, we are keen to see money invested in Maesteg or Pontycymer. I had the pleasure of launching a major project that will bring new jobs to Maesteg as a result of the takeover of the Revlon facility by the South African company, COSi. Those jobs will be in addition to the ones created by Lloyds TSB in

arweinydd yr awdurdod lleol wedi ymddiheuro'n gyhoeddus i bobl a drawyd yn wael wrth aros am eu tocynnau bws. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain ymgyrch ardderchog dros docynnau bws di-dâl. Fodd bynnag, a wnewch chi sicrhau y gwneir ymdrechion tebyg gyda pholisiau eraill o eiddo'r Cynulliad fel y bydd pobl anghenus yn gwbl ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt?

Prif Weinidog Cymru: Mae hynny'n bwynt pwysig. Wrth gyflwyno cynllun newydd, rhaid amcangyfrif y galw am y gwasanaeth a phenderfynu ar y ffordd orau i'w ddarparu, ond weithiau gallwch gael eich taro i lawr yn y rhuthr amdanynt. Byddwch yn gwneud eich gorau glas i ddyfalu faint o bobl fydd yn gwneud cais a sawl diwrnod neu wythnos a gymer, neu am ba hyd y bydd raid iddynt sefyll mewn rhes, i gael y tocyn di-dâl—a gyflwynir ymhen deng niwrnod—neu beth bynnag. Mae'n dal i fod yn anodd amcangyfrif y dull gorau o'i ddarparu, ond rhaid inni wella'n record ar hynny oherwydd nid oes arnom eisiau digwyddiad arall lle mae gofyn i bobl sefyll mewn rhes am amser rhy faith er mwyn manteisio ar un o bolisiau Llywodraeth y Cynulliad.

Janet Davies: Mae'n braf gwybod y gall gwasanaethau'r ysbyty ym Mhen-y-bont ar Ogwr wneud iawn am ddiffygion y cyngor lleol. A wnewch chi ymweld â phen uchaf Cwm Ogwr i gymharu'r diffyg gweithredu yng nghymunedau difreintiedig y maes glo â'r modd y mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu yn ardaloedd y llechi?

Prif Weinidog Cymru: Ni wn at beth yr oeddech yn cyfeirio yn eich cymhariaeth—a oedd yn niwtral, yr wyf yn siŵr, o ran gwleidyddiaeth plaid—rhwng Gwynedd a bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae tair ardal Cymunedau'n Gyntaf yn Ogwr, a'u nod yw pontio'r bwlch yn yr etholaeth rhwng cyfoeth y de a thlodi'r gogledd. Yn yr un modd, yr ydym yn awyddus i weld buddsoddi ym Maesteg neu Bontycymer. Cefais y pleser o lansio prosiect mawr a ddaw â swyddi newydd i Faesteg yn sgîl dyfodiad y cwmni o Dde Affrica, COSi, i gymryd y ffatri Revlon. Bydd y swyddi hyn yn ychwanegol at y rhai a grëwyd gan Lloyds TSB yn ardal Pen-coed yn ne'r etholaeth.

the Pencoed area in the south of the constituency.

Datganiad Busnes Business Statement

The Minister for Rural Affairs and Assembly Business (Carwyn Jones): Before I turn to the business statement for the next three weeks, I wish to inform Members of a change to this week's business, which was discussed in Business Committee this morning. During Thursday's Plenary, with your permission, Llywydd, the no named day motion tabled last Thursday will be proposed, to elect Members to various Committees following recent reorganisation. Other business is as scheduled.

As for the three weeks following the Easter recess, the Business Committee this morning discussed my draft business statement as shown on the Chamberweb under supporting documents. I have added an item for 18 April: a revision to Standing Orders relating to questions to the House Committee. Finally, Llywydd, the Deputy Presiding Officer determined under Standing Order No. 22.5, that the following items of legislation need not be referred to Subject Committees for extended consideration: the Education Development Plans (Wales) Regulations 2002; the Care Standards Act 2000 (Extension of Meaning of 'Social Care Worker') Regulations 2002; and the Care Standards Act 2000 (Commencement No.9) (Wales) Order 2002.

Helen Mary Jones: Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod y ddau undeb sydd yn cynrychioli prifathrawon yng Nghymru yn ystyried cynnal pleidlais ar hyn o bryd ar weithredu diwydiannol oherwydd yr argyfwng sydd yn wynebu ysgolion wrth geisio ariannu'r codiadau cyflog a ddaw yn sgîl y system rheoli perfformiad. A ydych yn fodlon trefnu dadl yn amser y Llywodraeth, fel mater o frys, yn syth ar ôl y toriad, i ystyried y sefyllfa beryglus hon sydd, yn ôl y prifathrawon, yn peryglu morâl staff ysgolion yn ddifrifol, ynghyd â dyfodol ein plant?

Alun Pugh: Has the leader of the Welsh

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad (Carwyn Jones): Cyn troi at y datganiad busnes am y tair wythnos nesaf, hoffwn hysbysu'r Aelodau am newid i fusnes yr wythnos hon, a drafodwyd yn y Pwyllgor Busnes y bore yma. Yn ystod Cyfarfod Llawn dydd Iau, gyda'ch caniatâd, Lywydd, cynigir y cynnig heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd ddydd Iau diwethaf, i ethol Aelodau i amryfal Bwyllgorau yn dilyn yr ad-drefnu diweddar. Mae'r busnes arall fel a drefnwyd.

O ran y tair wythnos wedi gwyliau'r Pasg, y bore yma trafododd y Pwyllgor Busnes fy natganiad busnes drafft fel y'i gwelir ar we'r Siambr dan ddogfennau ategol. Yr wyf wedi ychwanegu eitem ar gyfer 18 Ebrill: diwygio'r Rheolau Sefydlog parthed cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ. Yn olaf, Lywydd, penderfynodd y Dirprwy Lywydd, dan Reol Sefydlog Rhif 22.5, nad oedd angen cyfeirio'r eitemau canlynol o ddeddfwriaeth i Bwyllgorau Pwnc i'w hystyried yn faith: Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002; Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr 'Gweithiwr Gofal Cymdeithasol') 2002; a Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 9) (Cymru) 2002.

Helen Mary Jones: The Minister will be aware that the two unions representing headteachers in Wales are currently considering a ballot on industrial action because of the crisis facing schools in trying to finance the pay increases awarded as a result of the performance management system. Are you willing to arrange a debate on this urgent issue in Government time, immediately after the recess, to address this dangerous situation which, according to headteachers, is a serious threat to staff morale within schools, and to our children's futures?

Alun Pugh: A ddaeth arweinydd

Conservatives approached you to request that the Assembly's Plenary business be scheduled around his busy diary? If he is not here on Thursday, will you consider setting up an all-party search committee?

David Melding: Will you allocate Government time so that the issue of publishing Members' allowances can at last be debated on the Plenary floor? Last year, two-thirds of Members chose to publish their allowances, but we should have a system where the public can automatically view these figures in an annual report that, I believe, should be published by the Presiding Office. It is about time that the Assembly made an important decision in Plenary on this matter of great public interest.

The Presiding Officer: Before the Minister replies, although I am sure that he needs no help from me, I remind Members that he has no responsibility for the presence or absence of the leader of the Welsh Conservatives.

Carwyn Jones: Fortunately not, Llywydd.

I ateb pwynt Helen Mary Jones yn gyntaf, os oes galw am ddatl ar y mater a gododd, byddai'n werth ei drafod yn y Pwyllgor Busnes—dylai Plaid Cymru ystyried hynny. Nid oes modd imi ddweud yn union beth fydd yn digwydd yn y Pwyllgor hwnnw, ond os yw pobl am gael datl ar y pwnc hwn, y Pwyllgor fyddai'r fforwm i ofyn am hynny, yn fy marn i. Mae'r un peth yn berthnasol i David Melding. Os oes cais am ddatl ar y pwnc a gododd, dylid ei drafod yn y Pwyllgor Busnes.

On Alun Pugh's point, unfortunately, the search party's budget is a little short of cash. Therefore, Alun, you will have to volunteer to do it yourself.

Ceidwadwyr Cymru atoch i ofyn am gael trefnu busnes Cyfarfod Llawn y Cynulliad o amgylch ei ddyddiadur prysur? Os na fydd ef yma ddydd Iau, a wnewch chi ystyried sefydlu pwyllgor chwilio amlbleidiol?

David Melding: A wnewch chi drefnu amser er mwyn trafod, o'r diwedd, ar lawr y Siambr mewn Cyfarfod Llawn, gwestiwn cyhoeddi lwfansau Aelodau, a hynny yn amser y Llywodraeth? Y llynedd, dewisodd dau draean o Aelodau gyhoeddi'u lwfansau, ond dylem gael system lle gall y cyhoedd weld y ffigurau hyn yn awtomatig mewn adroddiad blynyddol y dylid, gredaf fi, ei gyhoeddi gan Swyddfa'r Llywydd. Mae'n hen bryd i'r Cynulliad wneud penderfyniad pwysig mewn Cyfarfod Llawn ar y mater hwn sydd o gryn ddiddordeb cyhoeddus.

Y Llywydd: Cyn i'r Gweinidog ateb, er fy mod yn siŵr nad oes arno angen dim cymorth oddi wrthyf fi, hoffwn atgoffa'r Aelodau nad oes ganddo ef ddim cyfrifoldeb dros bresenoldeb neu absenoldeb arweinydd Ceidwadwyr Cymru.

Carwyn Jones: Nac oes, yn ffodus, Lywydd.

First, to respond to Helen Mary Jones's point, if there is a call for a debate on the matter she raised, it would be worth discussing it in the Business Committee—that is for Plaid Cymru to consider. I cannot say exactly what will happen in that Committee, but if people wanted to debate that subject, the Committee would be the appropriate forum in which to ask for it, in my opinion. The same applies to David Melding. If there is a request for a debate on the subject he raised, it should be discussed in the Business Committee.

Ar bwynt Alun Pugh, yn anffodus, mae cyllideb y parti chwilio ychydig yn brin o arian. Felly, Alun, bydd yn rhaid i chi wirfoddoli i'w wneud eich hun.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.*

Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif **The Presiding Officer:** Under Standing

22.25, nid yw'r cynnig hwn yn destun dadl.

Order No. 22.25, this motion is not subject to debate.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad (Carwyn Jones):
Cynigiaf fod

The Minister for Rural Affairs and Assembly Business (Carwyn Jones): I propose that

y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 22.25:

the National Assembly, acting under Standing Order No. 22.25:

1. yn cymeradwyo Gorchymyn Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002; ac

1. approves the Warm Homes and Energy Conservation Act 2000 (Commencement) (Wales) Order 2002 laid in the Table Office on 12 February 2002;

2. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2002, a'r arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Mawrth 2002;

2. considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Warm Homes and Energy Conservation Act 2000 (Commencement) (Wales) Order 2002, laid in the Table Office on 27 February 2002, and the regulatory appraisal laid in Table Office on 12 March 2002;

3. yn cymeradwyo Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002; ac

3. approves the Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (Wales) Order 2002 laid in the Table Office on 12 February 2002; and

4. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2002. (NDM996)

4. considers the report of the Legislation Committee which has not identified any matters for concern in the draft Order, the Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (Wales) Order 2002, laid in the Table Office on 27 February 2002. (NDM996)

Cynnig: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 49, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Essex, Sue

Evans, Delyth
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Graham, William
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Halford, Alison
 Hancock, Brian
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Jarman, Pauline
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Ieuan Wyn
 Law, Peter
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Randerson, Jenny
 Richards, Rod
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

**Cymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad
 Gwerth Gorau) (Cymru) 2002**
**Approval of the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales)
 Order 2002**

The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart): I propose that
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Cynigiau fod

the National Assembly:

y Cynulliad Cenedlaethol:

considers the principle of the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2002, laid in the Table Office on 12 February 2002. (NDM992)

yn ystyried egwyddor Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002. (NDM992)

I also propose that

Cynigiau hefyd fod

the National Assembly:

y Cynulliad Cenedlaethol:

1. considers the report of the Legislation

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Committee which does not draw the special attention of the Assembly to any matter under Standing Order No. 11.5, in relation to the draft Order, the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2002, laid in the Table Office on 27 February 2002; and

2. approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 12 February 2002 and the Memorandum of Corrections laid in the Table Office on 11 March 2002. (NDM991)

This motion arises from the relationship that exists in Wales between the Assembly and local government, and demonstrates the way in which they work together to improve public services. Under the Local Government Act 1999, local authorities are required to instil a culture of continuous improvement in the provision of local services. They are required to report past performance and set targets for the future year against statutory performance indicators. Following the stocktake, the Partnership Council endorsed a radical new approach to implementing the Best Value legislation in the form of the Wales programme for improvements. Under this framework, the statutory indicators will continue to play an important role in measuring the improvements in performance across the full range of services provided by local authorities. The performance indicators help us to assess the annual improvement in services provided. They also provide us with a basis for comparison with authorities throughout Wales and, where applicable, with English authorities.

2:50 p.m.

This Order will replace the Best Value Performance Indicator (Wales) Order 2001 passed by the Assembly last March, which set indicators for 2001-02. At that time, the Assembly streamlined the set of indicators from 172 in 2000 to 86 in 2001, significantly reducing the burden on local authorities. This Order specifies 89 indicators, which includes 11 that will be reported to Whitehall departments as well as those to the Assembly. There is a new indicator on biodiversity and,

nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2002; ac

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2002 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2002. (NDM991)

Cyfyd y cynnig hwn o'r berthynas sy'n bodoli yng Nghymru rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol, ac mae'n dangos y modd y maent yn cydweithio i wella gwasanaethau cyhoeddus. Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fagu diwylliant o wella parhaus yn narpariaeth gwasanaethau lleol. Mae'n ofynnol iddynt adrodd ar berfformiad y gorffennol a gosod targedau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn erbyn dangosyddion perfformiad statudol. Wedi'r adroddiad cloriannu, cymeradwyodd y Cyngor Partneriaeth ffordd newydd radical o fynd ati i weithredu'r ddeddfwriaeth Gwerth Gorau ar ffurf y rhaglen welliannau i Gymru. Dan y fframwaith hwn, bydd y dangosyddion statudol yn parhau i chwarae rôl bwysig o ran mesur y gwelliannau mewn perfformiad ar draws yr amrediad cyfan o wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae'r dangosyddion perfformiad yn ein helpu i asesu'r gwelliant blynyddol yn y gwasanaethau a ddarperir. Maent hefyd yn darparu sail inni ar gyfer cymharu ag awdurdodau ledled Cymru ac, lle bo'n berthnasol, ag awdurdodau yn Lloegr.

Bydd y Gorchymyn hwn yn disodli Gorchymyn Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau (Cymru) 2001, a basiwyd gan y Cynulliad fis Mawrth diwethaf, ac a bennodd ddangosyddion ar gyfer 2001-02. Bryd hynny, taclusodd y Cynulliad y set o ddangosyddion o 172 yn 2000 i 86 yn 2001, gan leihau'n sylweddol y baich ar awdurdodau lleol. Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 89 dangosydd, sy'n cynnwys 11 a adroddir i adrannau Whitehall yn ogystal â'r

to reduce the duplication of information by collection, all policy agreements have been incorporated. This provides the consolidation requested by the authorities. It also establishes a consistent set of performance indicators with more focus on outcomes, which is more effective in measuring continuous improvement and less burdensome for all concerned.

However, it will not stop there. The performance improvement group which was formerly known as the Best Value project group will take forward a comprehensive review of the performance management framework within local government. It will of course include consideration of these performance indicators. We want the modernisation agenda to succeed and that means evaluating what we do to ensure that it is working. The review will include the requirements placed on local authorities to establish effective performance management frameworks. This is one of the many commitments contained in my recent policy statement, 'Freedom and Responsibility'. That statement and this Order show how the partnership between the Assembly and its key partner organisations can work to develop policy reflecting Welsh circumstances. I commend the motions.

Janet Ryder: The Government's extensive stocktake of the implementation of the Local Government (Best Value Principles) Act 1999 is welcome. The system needs an overhaul and drastic change. The programme for improvement goes some way to improving the situation. It should be noted that the improvement programme realises that Best Value audits led to bureaucratic processes that undermined the commitment, energy and creativity needed to make real improvements in the provision of services. That bureaucracy was slowly clogging up the systems of many local authorities. The previous Best Value regime was not inclusive. I hope that the improvements will succeed in ensuring that elected members, partner organisations and members of the public are much more engaged in the system.

rhai i'r Cynulliad. Mae dangosydd newydd ar fioamrywiaeth ac, i leihau dyblygu gwybodaeth wrth gasglu, ymgorfforwyd pob cytundeb polisi. Mae hyn yn rhoi'r atgyfnerthiad y gofynnodd yr awdurdodau amdano. Mae hefyd yn sefydlu set gyson o ddangosyddion perfformiad gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau, sy'n fwy effeithiol o ran mesur gwellhad parhaus ac yn llai beichus i bawb.

Fodd bynnag, nid dyna'r pen draw. Bydd y grŵp gwella perfformiad a elwid gynt yn grŵp prosiect Gwerth Gorau yn mynd ymlaen ag adolygiad cynhwysfawr o'r fframwaith rheoli perfformiad o fewn llywodraeth leol. Wrth reswm bydd yn cynnwys ystyriaeth o'r dangosyddion perfformiad hyn. Mae arnom eisiau i'r rhaglen foderneiddio lwyddo, a golyga hynny arfarnu'r hyn yr ydym yn ei wneud i sicrhau ei fod yn gweithio. Bydd yr adolygiad yn cynnwys y gofynion a osodir ar awdurdodau lleol i sefydlu fframweithiau rheoli perfformiad effeithiol. Dyma un o'r nifer o ymrwymadau a gynhwyswyd yn fy natganiad polisi diweddar, 'Rhyddid a Chyfrifoldeb'. Mae'r datganiad hwnnw a'r Gorchymyn hwn yn dangos sut y gall y bartneriaeth rhwng y Cynulliad a'r cyrff allweddol sy'n bartneriaid iddo weithio i ddatblygu polisi sy'n adlewyrchu amgylchiadau Cymru. Cymeradwyaf y cynigion.

Janet Ryder: Mae adroddiad cloriannu helaeth y Llywodraeth ar weithrediad Deddf Llywodraeth Leol (Egwyddorion Gwerth Gorau) 1999 i'w groesawu. Mae angen ailwampio'r system a'i newid yn llwyr. Mae'r rhaglen wella'n mynd ryw gymaint o'r ffordd i wella'r sefyllfa. Dylid nodi bod y rhaglen wella'n sylweddoli bod yr archwiliadau Gwerth Gorau wedi arwain at brosesau biwrocraidd a danseiliodd yr ymroddiad, yr egni a'r creadigrwydd y mae eu hangen i wneud gwelliannau gwirioneddol yn narpariaeth gwasanaethau. Yr oedd y fiwrocraeth honno'n araf dagu systemau sawl awdurdod lleol. Nid oedd y drefn flaenorol ar gyfer Gwerth Gorau yn un gynhwysol. Gobeithiaf y bydd y gwelliannau'n llwyddo i sicrhau y caiff aelodau etholedig, cyrff partner ac aelodau'r cyhoedd lawer mwy o ran yn y system.

Authorities have complained frequently that it has not been possible to have a dialogue with the inspectorate. I hope that the improvement programme addresses this. A dialogue between the authorities and the inspectorate is essential if we are going to see communities benefiting from external audits. Since the inspection and audit regime will be overhauled, we must ensure that the principle of fair and independent external challenge in local authorities' services is upheld. Ultimately, it is the taxpayers who suffer if external checks are muted or disregarded. Rhondda Cynon Taff County Borough Council is a good example of a local authority implementing good practice or Best Value working with the auditors and following a partnership approach. Previously the authority was in a parlous financial state: no accounts were signed off; performance management arrangements were severely underdeveloped; and there were grave concerns about the quality of service provision. There has been a transformation in recent years in Rhondda Cynon Taff, with the authority and the District Audit working together to resolve its difficulties. The transformation would not have happened so quickly without the partnership between the authority and the auditor.

The Presiding Officer: Order. Are you giving way to Christine Chapman?

Janet Ryder: Very quickly.

Christine Chapman: While we are all pleased that Rhondda Cynon Taff is doing well, do you think that it is also being helped by the extra money that this Labour-led Assembly is providing?

Janet Ryder: Certainly, there is extra money, but it is being well spent by a Plaid Cymru council; it is well accounted for and produces good, positive results.

We have all heard concerns over the last two years that Best Value demotivates staff. Addressing these problems is a key challenge in preparing a new audit approach. We must develop an inspection regime that does not shy away from robust and independent

Mae awdurdodau wedi cwyno'n aml na fu'n bosibl cynnal deialog gyda'r arolygaeth. Gobeithiaf fod y rhaglen wella yn gwneud rhywbeth am hyn. Rhaid wrth ddeialog rhwng yr awdurdodau a'r arolygaeth os ydym am weld cymunedau'n elwa ar archwiliadau allanol. Gan y bydd y drefn arolygu ac archwilio'n cael ei hailwampio, rhaid inni sicrhau y cedwir yr egwyddor o her allanol deg ac annibynnol yng ngwasanaethau awdurdodau lleol. Yn y pen draw, y trethdalwyr sy'n dioddef os caiff archwiliadau allanol eu mygu neu eu diystyru. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn enghraifft dda o awdurdod lleol sy'n gweithredu ymarfer da neu Werth Gorau gan weithio gyda'r archwiliwyr a mynd ati mewn partneriaeth. Gynt, yr oedd yr awdurdod mewn cyflwr ariannol bregus: nid oedd unrhyw gyfrifon wedi'u llofnodi; yr oedd trefniadau rheoli perfformiad heb eu datblygu'n ddigonol o bell ffordd; ac yr oedd pryderon mawr ynghylch ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau. Bu gweddnewidiad yn Rhondda Cynon Taf dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r awdurdod a'r Archwiliwr Dosbarth yn cydweithio i ddatrys ei anawsterau. Ni fuasai'r gweddnewidiad wedi digwydd mor gyflym heb y bartneriaeth rhwng yr awdurdod a'r archwiliwr.

Y Llywydd: Trefn. A ydych chi'n ildio i Christine Chapman?

Janet Ryder: Yn gyflym iawn.

Christine Chapman: Er ein bod i gyd yn falch fod Rhondda Cynon Taf yn gwneud yn dda, a dybiwch ei fod yn cael ei helpu hefyd gan yr arian ychwanegol y mae'r Cynulliad hwn, dan arweiniad Llafur, yn ei ddarparu?

Janet Ryder: Yn sicr, ceir arian ychwanegol, ond mae'n cael ei wario'n dda gan gyngor Plaid Cymru; mae cyfrif da amdano ac mae'n cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol, da.

Yr ydym i gyd wedi clywed pryderon yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf fod Gwerth Gorau'n gwanhau cymhelliant staff. Mae ateb y problemau hyn yn her allweddol wrth baratoi dull newydd o archwilio. Rhaid inni ddatblygu trefn arolygu nad yw'n ymgilio

challenges, while also engaging service providers in a partnership approach to improving delivery.

Unfortunately, Best Value—or competitive tendering, which it has replaced—is usually defined in monetary terms. This frequently led to councils accepting the lowest tenders, which has not always provided the real ‘best value’ to the communities that they serve. This Order deals with management structures, but we must always remember that Best Value had a wide-reaching effect, especially when counties used their purchasing powers. Purchasing power must be used for the benefit of communities by utilising local firms and produce.

Will the Minister further clarify the future Best Value programmes for the police and the fire authorities? According to the statutory instrument, the new procedure will only apply to local authorities and national parks. Does that mean that the police and the fire authorities will operate under the previous Best Value procedures? Will having two Best Value regimes existing side by side in Wales cause any confusion, especially when local authorities must work in such close partnership with those other authorities on subjects like community safety? If a Best Value review of community safety programmes were held, which regime would you follow: that being developed in Wales or that still applying in England? If we are to achieve clarity, surely all public bodies undertaking Best Value inspections and complying with Best Value must observe the same procedure?

Brian Gibbons: I am pleased to hear Janet Ryder’s greatest hits. She did the same number in a gig at Swansea’s Grand Theatre, but it was probably worth repeating.

I welcome this motion because it highlights the importance of transparency in the performance of local authorities in Wales, particularly high-spending authorities such as Rhondda Cynon Taff, Merthyr Tydfil and so

oddi wrth her gadarn ac annibynnol, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau hefyd mewn partneriaeth wrth fynd ati i wella’r modd y darperir gwasanaethau.

Yn anffodus, fel arfer diffinnir Gwerth Gorau—neu dendro cystadleuol, a ddisodlwyd ganddo—mewn termau ariannol. Arweiniodd hyn yn aml at sefyllfa lle byddai cynghorau’n derbyn y tendrau isaf, a hynny weithiau heb ddarparu’r ‘gwerth gorau’ mewn gwirionedd i’r cymunedau a wasanaethant. Mae’r Gorchymyn hwn yn delio â strwythurau rheoli, ond rhaid inni gofio bob amser y cafodd Gwerth Gorau effaith bellgyrhaeddol, yn enwedig pan ddefnyddiai siroedd eu pwerau prynu. Rhaid defnyddio pŵer prynu er lles cymunedau drwy ddefnyddio cwmnïau a chynnyrch lleol.

A wnaiff y Gweinidog egluro ymhellach y rhaglenni Gwerth Gorau ar gyfer y dyfodol i’r awdurdodau heddlu a thân? Yn ôl yr offeryn statudol, ni fydd y drefn newydd ond yn berthnasol i awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol. A yw hynny’n golygu y bydd yr heddlu a’r awdurdodau tân yn gweithredu dan y gweithdrefnau Gwerth Gorau blaenorol? A fydd dwy drefn Gwerth Gorau yn bodoli ochr yn ochr yng Nghymru yn achosi dryswch, yn enwedig pan fo raid i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth mor agos gyda’r awdurdodau eraill hynny ar bynciau fel diogelwch cymunedol? Pe cynhelid adolygiad Gwerth Gorau ar raglenni diogelwch cymunedol, pa drefn fydddech chi’n ei dilyn: yr un sy’n cael ei datblygu yng Nghymru ynteu honno sydd yn dal yn weithredol yn Lloegr? Os ydym am gael eglurder, onid oes rhaid i bob corff cyhoeddus sy’n ymgymryd ag archwiliadau Gwerth Gorau ac yn cydymffurfio â Gwerth Gorau ddilyn yr un weithdrefn?

Brian Gibbons: Mae’n dda gennyf glywed goreuon Janet Ryder. Rhoddodd yr un perfformiad mewn sioe yn Theatr y Grand, Abertawe, ond mae’n debyg ei fod yn werth ei ailadrodd.

Croesawaf y cynnig hwn gan ei fod yn tanlinellu pwysigrwydd tryloywder ym mherfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru, yn enwedig awdurdodau sy’n gwario llawer fel Rhondda Cynon Taf,

forth. It is only through such a transparent process that we can see that high-spending authorities in Wales are not inefficient or extravagant, but are performing well. My own local authority in Neath—

David Davies: If it is the case that they are performing so well, why is it that year after year they are spending over and above their standard spending assessments, and failing to come before the Assembly to explain to us why they do so? Is it not the case that Blaenau Gwent is well known throughout Wales as Blaenau Bent and that the Labour councillors of Rhondda Cynon Taff were known as robbing cunning Taffies? I could go on, but the fact remains that in some councils, corruption has been endemic for years, and the people of areas such as Monmouthshire have been forking out to pay for it.

Brian Gibbons: By your own words we will judge you, David.

My local authority, Neath Port Talbot, has been high-performing consistently on all parameters, both those used by the Audit Commission and those outlined in previous performance indicators. The answer to David's question is that these authorities are high-spending because of their social and economic needs.

Janet Ryder *rose*—

Brian Gibbons: They are not properly resourced through the revenue support grant, and until such time as we get—

The Presiding Officer: Order. He is not giving way.

Brian Gibbons: I do not mind giving way.

Janet Ryder: I just want to point out that you have branded Rhondda Cynon Taff a high-spending authority, which is good. It is spending on the services that are needed and yet delivering them on one of the lowest council tax rates in Wales.

Brian Gibbons: I do not think that it has one of the lowest council tax rates in Wales. I do

Merthyr Tudful ac ati. Dim ond drwy broses dryloyw y gallwn weld nad yw awdurdodau sy'n gwario llawer yng Nghymru ddim yn aneffeithlon nac yn afradus, ond eu bod yn perfformio'n dda. Mae fy awdurdod lleol i yng Nghastell Nedd—

David Davies: Os ydyw'n wir eu bod yn perfformio mor dda, pam y maent flwyddyn ar ôl blwyddyn yn gwario mwy na'u hasesiadau gwariant safonol, ac yn methu dod ger bron y Cynulliad i egluro inni pam y gwnânt hynny? Onid yw'n wir fod Blaenau Gwent yn cael ei adnabod drwy Gymru fel Blaenau Bent ac yr adwaenid cynghorwyr Llafur Rhondda Cynon Taf fel '*robbing cunning Taffies*'? Gallwn fynd ymlaen, ond erys y ffaith fod llygredd wedi bod yn rhemp mewn rhai cynghorau ers blynyddoedd, a bod pobl ardaloedd fel Sir Fynwy wedi gorfod talu'r pris.

Brian Gibbons: Yn ôl eich geiriau eich hun y'ch barnwn, David.

Mae f'awdurdod lleol i, Castell-nedd Port Talbot, wedi bod yn perfformio'n gyson dda ar bob paramedr, y rhai a ddefnyddir gan y Comisiwn Archwilio a'r rhai a amlinellwyd mewn dangosyddion perfformiad blaenorol. Yr ateb i gwestiwn David yw bod yr awdurdodau hyn yn gwario llawer oherwydd eu hanghenion cymdeithasol ac economaidd.

Janet Ryder *a gododd*—

Brian Gibbons: Nid ydynt yn cael adnoddau digonol drwy'r grant cynnal refeniw, a hyd nes y cawn ni—

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'n ildio.

Brian Gibbons: Nid oes ots gennyf ildio.

Janet Ryder: Dim ond eisiau nodi yr wyf eich bod wedi galw Rhondda Cynon Taf yn awdurdod sy'n gwario llawer, sydd yn beth da. Mae'n gwario ar y gwasanaethau sydd eu hangen ac eto'n eu darparu ar un o gyfraddau isaf y dreth yngor yng Nghymru.

Brian Gibbons: Ni chredaf fod ganddo un o gyfraddau isaf y dreth yngor yng Nghymru.

not have the figures before me, but of the highest-spending authorities in Wales, Rhondda Cynon Taff is around number 7 or 8. That is neither wrong nor surprising in view of the social and economic needs of these authorities. Until we address the issue of the revenue support grant, efficient and effective local authorities will continue to face these difficulties. By having indicators like these, we can see that our local authorities are performing well while trying to address difficult social and economic problems.

William Graham: I declare an interest as a councillor for the city of Newport. We welcome this reduction in Best Value performance indicators, and hope that the regime will now improve somewhat. Many local authorities and their employees were concerned when it was announced that the Audit Commission was to be responsible for these performance indicators. We hope that it will now provide a much more supportive line for local government and that where failures are identified, greater support and training will be offered.

3:00 p.m.

It is important that the morale of local government officials should be maintained and improved wherever possible. That is how to drive up standards. We are greatly impressed that the Minister has listened to representations made throughout local government in Wales. We agree that the number of performance indicators should be reduced, and not before time.

Eleanor Burnham: The Liberal Democrats welcome these proposals as a good example of how the Liberal Democrat/Labour partnership Government is easing the burden of Best Value on local councils, by reducing the number of performance indicators on which they must report.

Rhodri Glyn Thomas *rose*—

Eleanor Burnham: When linked to the new programme for improvement in Wales, we will lead the way in the UK in seeking to

Nid yw'r ffigurau gennyf o'm blaen, ond o'r awdurdodau sy'n gwario fwyaf yng Nghymru, mae Rhondda Cynon Taf oddeutu rhif 7 neu 8. Nid yw hynny nac yn ddrwg nac yn syndod o gofio anghenion cymdeithasol ac economaidd yr awdurdodau hyn. Hyd nes yr awn i'r afael â chwestiwn y grant cynnal refeniw, bydd awdurdodau lleol effeithlon ac effeithiol yn dal i wynebu'r anawsterau hyn. Drwy gael dangosyddion fel hyn, gallwn weld fod ein hawdurdodau lleol yn perfformio'n dda tra'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ac economaidd dyrys.

William Graham: Datganaf fuddiant fel cynghorydd dros ddinas Casnewydd. Yr ydym yn croesawu'r lleihad hwn mewn dangosyddion perfformiad Gwerth Gorau, ac yn gobeithio y gwnaiff y drefn wella rhywfaint yn awr. Yr oedd sawl awdurdod lleol a'u gweithwyr yn bryderus pan gyhoeddwyd bod y Comisiwn Archwilio i fod yn gyfrifol am y dangosyddion perfformiad hyn. Gobeithiwn y bydd yn awr yn llawer mwy cefnogol i lywodraeth leol, ac y cynigir mwy o gefnogaeth a hyfforddiant lle nodir methiannau.

Mae'n bwysig y dylid cynnal a gwella morâl swyddogion llywodraeth leol lle bynnag y bo modd. Dyna'r ffordd i godi safonau. Yr ydym yn edmygu'n fawr fod y Gweinidog wedi gwrandao ar sylwadau a wnaed gan lywodraeth leol ledled Cymru. Cytunwn y dylid lleihau nifer y dangosyddion perfformiad hyn, ac nid cyn pryd.

Eleanor Burnham: Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu'r cynigion hyn fel enghraifft dda o'r modd y mae Llywodraeth bartneriaeth y Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur yn ysgafnhau baich Gwerth Gorau ar gynghorau lleol, drwy leihau'r nifer o ddangosyddion perfformiad y mae'n rhaid iddynt adrodd arnynt.

Rhodri Glyn Thomas *a gododd*—

Eleanor Burnham: O'u cysylltu â'r rhaglen newydd ar gyfer gwella yng Nghymru, fe arweiniwn y ffordd yn y DU wrth geisio

improve the way that councils perform, and reducing the burden of bureaucracy previously imposed by the—[ASSEMBLY MEMBERS: ‘Give way.’]

The Presiding Officer: Order. If Members do not wish to give way, that is a matter for them.

Eleanor Burnham: These changes show—

Y Llywydd: Trefn. Eisteddwch i lawr, Rhodri.

Eleanor Burnham: These changes show, once again, the value of devolution in finding Welsh solutions to the problems faced by Welsh local government.

The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart): I am glad that there is a general consensus on the Order before us today. I thank William for his comments. We have listened intently to the comments of Welsh local government on all the issues. We did not want the Best Value regime to become a business industry, which is what it was becoming.

I am also mindful of Janet Ryder’s points on the importance of the role of local authority members and their involvement in discussions with the Best Value inspectorate. The inspectorate is there to improve matters, not to implement a regime that does not benefit local council tax payers.

Responsibility for the police and fire authorities is not devolved. However, I have been concerned about bringing the performance indicators together for some time. I will hold further discussions on this.

Finally, I say to David Davies that I will stand up and defend any local authority—irrespective of its politics—if I think that it is doing a good job. That is my job as Minister for Local Government. Local authorities battle against many difficult issues. Poverty is endemic in some authority areas, and they struggle constantly against falling pupil rolls, even falling population, and a formula that sometimes does not reflect their needs. Your

gwella’r ffordd y mae cynghorau’n perfformio, a lleihau’r baich biwrocraidd a osodwyd gynt gan y—[AELODAU’R CYNULLIAD: ‘Ildiwch.’]

Y Llywydd: Trefn. Os nad yw Aelodau’n dymuno ildio, mater iddynt hwy yw hynny.

Eleanor Burnham: Mae’r newidiadau hyn yn dangos—

The Presiding Officer: Order. Sit down, Rhodri.

Eleanor Burnham: Mae’r newidiadau hyn yn dangos, unwaith eto, werth datganoli o ran canfod atebion Cymreig i’r problemau a wynebir gan lywodraeth leol yng Nghymru.

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Yr wyf yn falch fod consensws cyffredinol ar y Gorchymyn sydd ger ein bron heddiw. Diolchaf i William am ei sylwadau. Yr ydym wedi gwrando’n astud ar sylwadau llywodraeth leol yng Nghymru ar yr holl faterion. Nid oedd arnom eisiau i’r drefn Gwerth Gorau fynd yn ddiwydiant busnes, a dyna oedd yn digwydd.

Yr wyf hefyd yn cadw mewn cof bwyntiau Janet Ryder ar bwysigrwydd rôl aelodau awdurdodau lleol a’u hymwneud â thrafodaethau gyda’r arolygaeth Gwerth Gorau. Mae’r arolygaeth yno er mwyn gwella pethau, nid i weithredu trefn nad yw’n rhoi budd i’r rhai sy’n talu’r dreth gyngor.

Nid yw’r cyfrifoldeb dros yr awdurdodau tân a’r heddlu wedi’i ddatganoli. Er hynny, bwm yn ystyried dod â’r dangosyddion perfformiad at ei gilydd ers tro. Fe gynhaliad drafodaethau pellach ar hyn.

Yn olaf, dywedaf wrth David Davies y gwnaf sefyll ac amddiffyn unrhyw awdurdod lleol—beth bynnag fo’i wleidyddiaeth—os tybiaf ei fod yn gwneud gwaith da. Dyna fy ngwaith fel Gweinidog dros Lywodraeth Leol. Mae awdurdodau lleol yn brwydro yn erbyn llawer o faterion anodd. Mae tloidi’n rhemp yn ardaloedd rhai awdurdodau, a cheir un ymdrech barhaus yn erbyn cwmp yn niferoedd disgyblion, hyd yn oed gwmp yn

comments in this Chamber regarding Blaenau Gwent were absolutely outrageous.

David Davies *rose*—

Edwina Hart: You need to recognise—

Alun Cairns and **Jonathan Morgan** *rose*—

The Presiding Officer: Order. The Minister is not giving way.

Edwina Hart: You need to recognise that the majority of councillors across Wales are decent, hardworking human beings, who put themselves out to help their constituents. I will not have you making such comments about authorities when you have no proof. Local authorities work hard for the communities they represent, and for you to tar councillors in that way is a disgrace and an abuse of Assembly procedure.

I commend the motion to Members.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar egyddor y Gorchymyn.

y boblogaeth, a fformiwla nad yw'n adlewyrchu'u hanghenion weithiau. Yr oedd eich sylwadau yn y Siambr hon ynghylch Blaenau Gwent yn gwbl warthus.

David Davies *a gododd*—

Edwina Hart: Mae angen ichi sylweddoli—

Alun Cairns a **Jonathan Morgan** *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'r Gweinidog yn ildio.

Edwina Hart: Mae angen ichi sylweddoli bod y rhan fwyaf o gynghorwyr ar hyd a lled Cymru yn bobl dda, weithgar, sy'n mynd i drafferth i helpu'u hetholwyr. Ni wnaif dderbyn sylwadau o'r fath gennyh am awdurdodau heb fod prawf gennyh. Mae awdurdodau lleol yn gweithio'n galed dros y cymunedau a gynrychiolant, ac mae'r modd y ceisiasoch chi bardduo cynghorwyr fel yna yn gywilydd ac yn gamddefnydd o drefn y Cynulliad.

Cymeradwyaf y cynnig i'r Aelodau.

The Presiding Officer: We will now vote on the principle of the Order.

*Cynnig: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 44, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian

Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Carwyn
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Richards, Rod
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

Derbyniwyd y cynnig.

Motion carried.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar **The Presiding Officer:** We will now vote on
gymeradwyo'r Gorchymyn. the approval of the Order.

Cynnig: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Motion: For 44, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Essex, Sue
Evans, Delyth
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David

Lloyd, Val
 Melding, David
 Middlehurst, Tom
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Randerson, Jenny
 Richards, Rod
 Ryder, Janet
 Sinclair, Karen
 Thomas, Owen John
 Thomas, Rhodri Glyn
 Wigley, Dafydd
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Pwyntiau o Drefn Points of Order

Rod Richards: Point of order. I seek your guidance on the rights of the socially excluded independent Members in this Chamber. During the business statement, you called Alun Pugh and David Melding to speak, but I was unable to participate in that exchange. When a group leader—a re-appointed one—is absent, will you consider, Llywydd, calling somebody who was elected?

The Presiding Officer: All Members are equal, regardless of their group. Under Standing Order No. 5.4:

‘the Presiding Officer may allow the Assembly Business Secretary to propose that the statement be adopted, and one Member from each political group to speak briefly in response’.

Similarly, if there is no objection to the statement, I can:

‘allow one Member from each political group to comment briefly on the Assembly Business Secretary’s statement’.

I am bound by this Standing Order.

Janet Ryder: Point of order. I should have declared an interest as a member of Rhuthin town council before the last vote; other members of the group need to do the same.

Rod Richards: Pwynt o drefn. Hoffwn eich arweiniad ar hawliau'r Aelodau annibynnol sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol yn y Siambr hon. Yn ystod y datganiad busnes, gwnaethoch alw ar Alun Pugh a David Melding i siarad, ond ni chefais i gymryd rhan yn y drafodaeth honno. Pan fydd arweinydd grŵp—un a ailbenodwyd—yn absennol, a wnewch chi ystyried, Lywydd, alw ar rywun a etholwyd?

Y Llywydd: Mae pob Aelod yn gyfartal, i ba grŵp bynnag y perthynant. Dan Reol Sefydlog Rhif 5.4:

‘gall y Llywydd ganiatáu i'r Trefnydd gynnig mabwysiadu'r datganiad, ac i un Aelod o bob grŵp gwleidyddol ymateb yn gryno i hynny’.

Yn yr un modd, os nad oes gwrthwynebiad i'r datganiad, gallaf:

‘[g]aniatáu i un Aelod o bob grŵp gwleidyddol gyflwyno sylwadau cryno ar ddatganiad y Trefnydd’.

Yr wyf wedi fy rhwymo gan y Rheol Sefydlog hon.

Janet Ryder: Pwynt o drefn. Dylaswn fod wedi datgan buddiant fel aelod o gyngor tref Rhuthun cyn y bleidlais ddiwethaf; mae angen i aelodau eraill o'r grŵp wneud yr un

Can you clarify whether we must declare such interests every time there is a vote affecting local government?

The Presiding Officer: Yes, you must.

Owen John Thomas: Pwynt o drefn. Mae hyn yn ymwneud â sylwadau David Davies, a'i gyfeiriad at aelodau'r cyn-gyngor Llafur yn y Rhondda fel '*robbing cunning Taffies*'. Ni chredaf fod hynny'n dderbyniol, Lywydd. Beth yw eich barn chi?

Y Llywydd: Byddaf yn edrych ar Gofnod y Trafodion, ac yn dychwelyd at hyn.

David Davies: Further to that point of order, I used that term because—I believe—the councillors were known colloquially as 'robbing cunning Taffies'. That is a simple matter of fact and something that—

The Presiding Officer: Order. I will examine the Record of Proceedings. There are no further points of order on this matter.

Peter Black: Point of order. I must also declare an interest as a member of the City and County of Swansea Council. However, I understood that the previous ruling on this matter was that we only needed to declare such interests if we contributed to the debate.

The Presiding Officer: There was no previous ruling on this matter; advice was given to Members on the declaration of interests. That advice was that Members should declare such interests in each proceeding of the Assembly when relevant business is before us. If Members would like further advice on this matter, I am sure that we can provide a note.

modd. A allwch egluro a oes raid inni ddatgan y cyfryw fuddiannau bob tro y ceir pleidlais sy'n effeithio ar lywodraeth leol?

Y Llywydd: Oes, mae'n rhaid.

Owen John Thomas: Point of order. This relates to David Davies's comments, and his referring to the members of the former Labour council in the Rhondda as 'robbing cunning Taffies'. I do not believe that that is acceptable, Llywydd. What is your opinion?

The Presiding Officer: I will examine the Record of Proceedings, and revisit this matter.

David Davies: Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, defnyddiais y term hwnnw oherwydd—mi gredaf—yr adwaenid y cynghorwyr ar lafar gwlad fel '*robbing cunning Taffies*'. Mater syml o ffaith yw hynny a rhywbeth y—

Y Llywydd: Trefn. Byddaf yn edrych ar Gofnod y Trafodion. Nid oes pwyntiau o drefn pellach ar y mater hwn.

Peter Black: Pwynt o drefn. Rhaid i minnau ddatgan buddiant fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Fodd bynnag, deallais mai'r dyfarniad blaenorol ar y mater hwn oedd mai dim ond os y cyfrannem at y drafodaeth yr oedd angen inni ddatgan buddiannau o'r fath.

Y Llywydd: Nid oedd unrhyw ddyfarniad blaenorol ar y mater hwn; rhoddwyd cyngor i'r Aelodau ar ddatgan buddiannau. Y cyngor hwnnw oedd y dylai'r Aelodau ddatgan y cyfryw fuddiannau ym mhob cyfarfod o'r Cynulliad pan fydd busnes perthnasol ger ein bron. Os hoffai Aelodau gael cyngor pellach ar y mater hwn, yr wyf yn siŵr y gallwn ddarparu nodyn.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.06 p.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.06 p.m.*

Gwasanaethau Gofal Dydd i Blant Dan Wyth Day-care Services for Children Under Eight

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of Jocelyn Davies.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 and 2 yn enw Jocelyn Davies.

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): I propose that

the National Assembly:

1. welcomes the regulations and national minimum standards for child minders and day-care services for children under eight, which will underpin the work of the Care Standards Inspectorate from April this year; and

2. notes that the regulations are designed to introduce stronger protection for children placed in these day-care services, and an improvement in the quality of their care. (NDM995)

I am pleased that we were able to find time today to debate the regulations on child minding and day care. The Assembly is treading a different path from England in this area. Across the border, the Care Standards Commission will regulate children's homes, while children's day care is the responsibility of Ofsted. I considered it important that the Care Standards Inspectorate should regulate all care settings for children. This will ensure consistency and coherence. That is reflected in the regulations before us, and in the accompanying standards that I have circulated to inform our debate, which have been formally notified to Members in accordance with Standing Order No. 27.

The regulations will govern the provision of child minding and day care for children under eight years old. They will apply to child minders and services such as day nurseries, playgroups and out-of-school care. The regulations create specific statutory duties for registered providers and will cover issues such as staffing, fitness of premises and the fitness of the registered provider. The accompanying national minimum standards complement the specific requirements of the regulations.

The regulations and standards have been developed in close consultation with the key provider groups and other children's organisations, such as the National Childminding Association, Mudiad Ysgolion Meithrin, the Wales Pre-school Playgroups

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn croesawu'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwarchodwyr a gwasanaethau gofal dydd i blant dan 8 oed, a fydd yn sail i waith yr Arolygiaeth Safonau Gofal o fis Ebrill eleni; ac

2. yn nodi bod y rheoliadau wedi'u cynllunio i roi amddiffyn cryfach i'r plant a roddir dan ofal y gwasanaethau gofal dydd hyn, ac i wella safon y gofal a gânt. (NDM995)

Yr wyf yn falch inni allu canfod amser heddiw i drafod y rheoliadau ar warchod plant a gofal dydd. Mae'r Cynulliad yn troedio llwybr gwahanol i Loegr yn y maes hwn. Dros y ffin, bydd y Comisiwn Safonau Gofal yn rheoleiddio cartrefi plant, tra bod gofal dydd i blant yn gyfrifoldeb Ofsted. Bernais i ei bod yn bwysig y dylai'r Arolygiaeth Safonau Gofal reoleiddio pob lleoliad gofal i blant. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a chydlynid. Adlewyrchir hynny yn y rheoliadau sydd ger ein bron, ac yn y safonau cyfatebol yr wyf wedi'u hanfon at bawb i roi gwybodaeth gefndirol i'n dadl, safonau yr hysbyswyd Aelodau yn ffurfiol amdanynt, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 27.

Bydd y rheoliadau'n ymdrin â darpariaeth gwarchod a gofal dydd i blant dan wyth mlwydd oed. Byddant yn berthnasol i warchodwyr plant a gwasanaethau fel meithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae a gofal y tu allan i'r ysgol. Mae'r rheoliadau'n creu dyletswyddau statudol penodol i ddarparwyr cofrestredig a byddant yn ymdrin â materion fel staffio, addasrwydd adeiladau ac addasrwydd y darparwr cofrestredig. Mae'r safonau gofynnol cenedlaethol a geir gyda hwy'n ategu gofynion penodol y rheoliadau.

Datblygwyd y rheoliadau a'r safonau mewn ymgynghoriad agos â'r grwpiau darparu allweddol a sefydliadau plant eraill, megis y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant, Mudiad Ysgolion Meithrin, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru, Plant

Association, Children in Wales and Play Wales. yng Nghymru a Chwarae Cymru.

The consultation responses and the subsequent meetings illustrated the commitment of the sector to high standards in childcare and a good degree of consensus on the content. All the representative groups were concerned that staff in the sector should be properly qualified, and the Assembly Government will work with early years development and childcare partnerships and others to ensure an increase in the proportion of staff with appropriate qualifications.

I accept that there is a challenge in training care staff up to level 3 qualifications for leaders, and level 2 for other staff. While this standard is widely reached in many places, it is not expected that it will be reached immediately everywhere. Inspectors will use discretion in recognising predecessor qualifications and in discussing an action plan with each provider, where necessary. This is an issue that will be kept under review as the childcare strategy, budget decisions and practice in the sector all develop.

I announced last year that newly registered child minders will receive a start-up grant from April this year. I can confirm today that the level will be a minimum of £300 per childminder across Wales. There will be local discretion to award higher grants in particular cases. I want to see the decline in the number of child minders reversed, and these grants will assist with that.

3:10 p.m

I have also decided not to set inspection fees for child minders or for sessional care such as playgroups and out-of-school clubs. Full day-care services will experience only modest increases in their fees. This initiative allied to the new start-up grant for child minders is warmly supported by the sector. Families must be assured that the quality of care that they can expect will meet national minimum standards enforced across Wales. This will become a reality from 1 April 2002, when the Care Standards Inspectorate for Wales starts its work. I emphasise that child protection will be at the centre of these standards and that smacking will not be allowed by any

Yr oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r cyfarfodydd wedi hynny'n dangos ymrwymiad y sector i safonau uchel mewn gofal plant a chryn radd o gonsensws ar y cynnwys. Yr oedd pob grŵp cynrychioli'n awyddus i staff yn y sector fod â'r cymwysterau priodol, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda phartneriaethau datblygiad blynyddoedd cynnar a gofal plant ac eraill i sicrhau cynnydd yn y ganran o staff sydd â'r cymwysterau priodol.

Derbyniaf fod her ynghlwm wrth hyfforddi staff gofal hyd at gymwysterau lefel 3 i arweinwyr, a lefel 2 i staff eraill. Tra chyrhaeddir y safon hon yn gyffredin mewn sawl lle, ni ddisgwylir y cyrhaeddir hi yn syth ym mhobman. Bydd arolygwyr yn defnyddio doethineb wrth gydnabod cymwysterau rhagflaenorol ac wrth drafod cynllun gweithredu gyda phob darparwr, lle bo angen. Dyma fater a gedwir dan sylw wrth i'r strategaeth gofal plant, penderfyniadau cyllideb ac arferion y sector ddatblygu.

Cyhoeddais y llynedd y bydd gwarchodwyr plant sydd newydd gofrestru'n cael grant cychwyn o fis Ebrill eleni. Gallaf gadarnhau heddiw y bydd lefel y grant o leiaf £300 y gwarchodwr ledled Cymru. Bydd disgresiwn lleol i roi grantiau uwch mewn achosion penodol. Mae arnaf eisiau gweld gwrthdroi'r cwmp yn y nifer o warchodwyr, a bydd y grantiau hyn yn helpu gyda hynny.

Yr wyf hefyd wedi penderfynu peidio â gosod ffioedd arolygu i warchodwyr plant nac am ofal sesiynol fel grwpiau chwarae a chlybiau y tu allan i'r ysgol. Bydd gwasanaethau gofal dydd llawn yn profi cynnydd bach yn unig yn eu ffioedd. Mae cefnogaeth wresog i'r fenter hon, ochr yn ochr â'r grant cychwyn newydd i warchodwyr plant, gan y sector. Rhaid rhoi sicrwydd i deuluoedd y bydd yr ansawdd gofal y gallant ei ddisgwyl yn cyrraedd safonau gofynnol cenedlaethol a bennir ar draws Cymru. Gwireddir hyn o 1 Ebrill 2002, pryd y dechreu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ei gwaith. Pwysleisiaf y bydd diogelu

registered childminder or in any other day-care setting. All of our attention should be devoted to ensuring that children's experiences in day care are safe, enriching and rewarding.

I now turn to the amendments. Although I sympathise with the thinking behind them, they are not appropriate in this context. Amendment 1, which calls for improved training and support for providers, covers action that is already in hand with our childcare action plan, which will be published shortly. The Assembly Government has increased funding to early years development and childcare partnerships. They were allocated £2.4 million this year and they will receive £3.8 million next year. We will consult shortly on proposed regulations to place a duty on local authorities to provide training for childcare providers. This consultation will include the cost implications for such a duty. The Assembly Government is also discussing the training needs of the whole care workforce with Education and Learning Wales.

The appropriate time to discuss priorities for long-term funding, to which amendment 2 refers, is when we debate the Assembly budget, not when considering these regulations. To conclude, this is the first time that such a consistent approach to regulation has been possible in Wales. It will clearly signal to families and childcare providers what we, as an Assembly, mean by minimum standards and what will, in turn, drive up the quality of how our children are looked after.

Helen Mary Jones: I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. Amendment 1: add a new point at the end of the motion:

notes that these regulations and national minimum standards must be underpinned by improved support and training for child minders and day-care service providers.

I propose amendment 2. Add a new point at the end of the motion:

plant wrth galon y safonau hyn ac na chaniateir smacio gan unrhyw warchodwr plant cofrestredig nac mewn unrhyw leoliad gofal dydd arall. Dylid rhoi ein sylw i gyd i sicrhau bod profiadau plant mewn gofal dydd yn ddiogel, llesol a buddiol.

Trof yn awr at y gwelliannau. Er fy mod yn cydymdeimlo â'r meddwl y tu ôl iddynt, nid ydynt yn briodol yn y cyd-destun hwn. Mae gwelliant 1, sy'n galw am well hyfforddiant a chefnogaeth i ddarparwyr, yn ymwneud â gweithredu sydd eisoes mewn llaw gyda'n cynllun gweithredu ar ofal plant, a gyhoeddir yn fuan. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu'r cyllid i bartneriaethau datblygiad blynyddoedd cynnar a gofal plant. Dyranwyd £2.4 miliwn iddynt eleni a chânt £3.8 miliwn y flwyddyn nesaf. Byddwn yn ymgynghori cyn hir ar reoliadau arfaethedig i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant i ddarparwyr gofal plant. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys goblygiadau cost dyletswydd o'r fath. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn trafod anghenion hyfforddiant y gweithlu gofal cyfan gyda Dysgu ac Addysgu Cymru.

Yr amser priodol i drafod blaenoriaethau ar gyfer ariannu tymor hir, y mae gwelliant 2 yn cyfeirio atynt, yw pan drafodwn gyllideb y Cynulliad, nid pan fyddwn yn ystyried y rheoliadau hyn. I gloi, dyma'r tro cyntaf i agwedd mor gyson at reoleiddio fod yn bosibl yng Nghymru. Bydd yn rhoi arwydd clir i deuluoedd a darparwyr gofal plant beth a olygwn ni, fel Cynulliad, wrth safonau gofynnol a beth fydd, yn ei dro, yn gwella ansawdd y gofal a roddir i'n plant.

Helen Mary Jones: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Gwelliant 1: ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi bod yn rhaid ategu'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol hyn drwy roi gwell hyfforddiant a chefnogaeth i warchodwyr plant a darparwyr gwasanaethau gofal dydd.

Cynigiau welliant 2. Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

notes that substantial additional public funding will be required in the long term to ensure both the implementation of best practise in childcare and access to good quality childcare for economically disadvantaged families.

Plaid Cymru—The Party of Wales welcomes these regulations. They have, of course, been discussed on several occasions during their preparation in the Health and Social Services Committee. The Minister for Health and Social Services's willingness to take a different and, I believe, more progressive path than that chosen by colleagues in Westminster is welcome. Personally, I particularly welcome the regulation prohibiting physical punishment in childcare settings, to which I will return in a moment. The grant, which the Minister has announced today, to enable child minders to set up, is also welcome as is the sensible approach to charging for inspection, which was a matter of concern to people within the sector.

I will turn briefly to the amendments. We are disappointed that the Minister will not support them, although, knowing her approach to this matter over many years, I accept what she said about the spirit of the amendments. We believe that training and support are vital issues; they should be highlighted in a full Plenary debate. I, and many parents here, have reason to be extremely grateful to the excellent childcare workers in Wales, but they are also among the most undervalued and underpaid staff in society. We will often pay a much lower rate for childcare than for the services of those who mend our cars. What does that say about our priorities as a society? We contend that we cannot expect childcare staff to meet the higher standards, rightly required of them, without support and training. Although we recognise that there is intention to provide it, we would like for that intention to be backed by full Plenary support.

On amendment 2, I accept what the Minister said about increased funding. However, it is important to have a focused debate on childcare and on the long-term future of this

yn nodi y bydd angen mwy o lawer o arian cyhoeddus yn y tymor hir er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau ym maes gofal plant yn cael eu rhoi ar waith ac er mwyn sicrhau bod gofal plant o ansawdd da ar gael i deuluoedd sydd o dan anfantais economaidd.

Mae Plaid Cymru—The Party of Wales yn croesawu'r rheoliadau hyn. Fe'u trafodwyd, wrth gwrs, ar sawl achlysur wrth eu paratoi yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae parodrwydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gymryd llwybr gwahanol ac, yn fy marn i, fwy blaengar na hwnnw a ddewiswyd gan gyd-aelodau yn San Steffan i'w groesawu. Yn bersonol, croesawaf yn arbennig y rheoliad sydd yn gwahardd cosbi corfforol mewn lleoliadau gofal plant, a dychwelaf at hynny mewn munud. Mae'r grant a gyhoeddodd y Gweinidog heddiw, i alluogi gwarchodwyr plant i ymsefydlu, i'w groesawu hefyd, a hefyd yr agwedd gall tuag at godi ffioedd am arolygu, a oedd yn destun pryder i bobl yn y sector.

Trof yn fyr at y gwelliannau. Yr ydym yn siomedig na wnaiff y Gweinidog eu cefnogi, er, o wybod am ei hagwedd hi at y mater hwn dros flynyddoedd lawer, derbynias yr hyn a ddywedodd ynghylch ysbryd y gwelliannau. Credwn fod hyfforddiant a chefnogaeth yn faterion hanfodol; dylid eu tanlinellu mewn dadl yn y Cynulliad llawn. Mae gennyf fi, a llawer o rieni yma, reswm i fod yn eithriadol o ddiolchgar i'r gweithwyr gofal plant ardderchog yng Nghymru, ond y maent hefyd ymhlith y staff a werthfawrogir leiaf ac y telir leiaf iddynt yn ein cymdeithas. Byddwn yn aml yn talu cyfradd lawer is am ofal plant nag a wnawn am wasanaethau'r sawl sy'n trwsio ein ceir. Beth mae hynny'n ei ddweud am ein blaenoriaethau fel cymdeithas? Dadlewn na allwn ddisgwyl i staff gofal plant gyrraedd y safonau uwch a fynnir ganddynt, yn ddigon teg, heb gefnogaeth a hyfforddiant. Er ein bod yn sylweddoli bod bwriad i'w darparu, hoffem i'r bwriad hwnnw gael ei gefnogi gan benderfyniad y Cynulliad Llawn.

Ar welliant 2, derbynias yr hyn a ddywedodd y Gweinidog am gynnydd yn y cyllid. Serch hynny, mae'n bwysig cael dadl ganolbwyntiol ar ofal plant ac ar ddyfodol y

issue in the context of these regulations, as well as pursuing it when we discuss the budget. The Government of Wales has indeed made extensive additional investment, and that is welcome. However, most of that money is initiative funding to kick-start new provision, and some of it is for under privileged communities. That is welcome. However, it is not the answer in the long term. As the Minister will know, good childcare facilities have been established in some of our more deprived communities, only to fail after the three-year support funding was withdrawn, because parents using that childcare simply were not, and never will be, able to meet the full commercial cost of childcare in the near future. If we are to ensure the highest quality childcare in poorer communities that need it most, and if we are to ensure that families who most need childcare are able to access it, then we will have to bite the bullet and consider the European model of funding childcare provision across the board. I realise that that is controversial and that the cost could be enormous but, if the Minister is not prepared to support the amendment today, I urge her to consider the need, in some cases, for long-term state funding of childcare provision.

I welcome the Government of Wales's progressive attitude to physical punishment. It must be good news that parents in Wales cannot tell child minders to hit their children, although parents in England will be allowed to continue to do so. I use the word 'hit' advisedly. Does the Minister share my hope that Westminster will follow her progressive example on this? I congratulate her for implementing it. However, while parents in Wales cannot instruct child minders to hit their children, they are still allowed to do so themselves. Does the Minister believe, as I do—and I only expect her to give a personal view given that it is not a devolved matter—that physical punishment could be made unlawful in a manner that does not unnecessarily demonise parents? Does she regret, as I do, that the Assembly lacks the power to make that decision, given the decision that, I hope, we will make in a few minutes? We would hopefully be prepared to

mater hwn yn y tymor hir yng nghyd-destun y rheoliadau hyn, yn ogystal â mynd ar ei ôl pan drafodwn y gyllideb. Mae Llywodraeth Cymru yn wir wedi gwneud buddsoddiad ychwanegol helaeth, a chroesewir hynny. Ond arian cychwyn yw'r rhan fwyaf o'r arian hynny i roi hwb cychwynol i ddarpariaeth newydd, ac mae rhywfaint ohono ar gyfer cymunedau difreintiedig. Croesewir hynny. Fodd bynnag, nid dyna'r ateb yn y tymor hir. Fel y gŵyr y Gweinidog, sefydlwyd cyfleusterau gofal plant yn rhai o'n cymunedau mwy difreintiedig o'r blaen, dim ond iddynt fethu wedi i'r cyllid cefnogi tair blynedd gael ei dynnu'n ôl, oherwydd yn syml nad oedd y rhieni a ddefnyddiai'r gofal plant hwnnw, ac na fyddant byth, yn abl i dalu cost fasnachol lawn gofal plant yn y dyfodol agos. Os ydym am sicrhau gofal plant o'r ansawdd gorau yn y cymunedau tlotaf sydd ei angen fwyaf, ac os ydym am sicrhau bod teuluoedd sydd â'r angen mwyaf am ofal plant yn gallu ei gael, bydd yn rhaid inni fynd amdani ac ystyried y model Ewropeaidd o dalu am ddarpariaeth gofal plant ar draws y bwrdd. Sylweddolaf fod hynny'n ddadleuol ac y gallai'r gost fod yn enfawr ond, os nad yw'r Gweinidog yn barod i gefnogi'r gwelliant heddiw, fe'i hanogaf i ystyried yr angen, mewn rhai achosion, am ariannu darpariaeth gofal plant dros dymor hir gan y wladwriaeth.

Yr wyf yn croesawu agwedd flaengar Llywodraeth Cymru tuag at gosb gorfforol. Rhaid mai newyddion da yw na all rhieni yng Nghymru ddweud wrth warchodwyr am daro'u plant, er y bydd rhieni yn Lloegr yn parhau i allu gwneud hynny. Defnyddiaf y gair 'taro' yn fwriadol. A ydyw'r Gweinidog yn rhannu fy ngobaith y bydd San Steffan yn dilyn ei hesiampl flaengar yn hyn o beth? Yr wyf yn ei llongyfarch am weithredu hyn. Fodd bynnag, er na all rhieni yng Nghymru ddweud wrth warchodwyr am daro'u plant, maent yn gallu gwneud hynny eu hunain. A ydyw'r Gweinidog yn credu, fel y credaf fi—ac nid wyf ond yn disgwyl iddi roi barn bersonol gan nad yw hyn yn fater a ddatganolwyd—y gellid anghyfreithloni cosbi corfforol mewn modd nad yw'n demoneiddio rhieni'n ddiangen? A ydyw hi'n gresynu, fel y gwnaf fi, nad oes gan y Cynulliad y grym i wneud y penderfyniad hwnnw, yn wyneb y penderfyniad a wnawn,

take a progressive line on the abuse of children, as we take a progressive line on the domestic abuse of women. Will she support me in calling on the Government of Wales to reconsider the issue? I urge the Assembly to support the amendments and the motion.

The Deputy Presiding Officer: I remind Members that the next item, which is legislation associated with this debate, will be addressed under Standing Order No. 22.25, and therefore will not be subject to a debate. If Members wish to debate anything pertaining to that, they may so do in this debate.

Christine Chapman: I welcome these new regulations that explicitly ban the use or threat of physical punishment against children cared for by child minders in Wales. We know that many organisations are watching this debate closely. They support these regulations and see them as a positive step towards giving babies and toddlers the same protection from physical punishment as they enjoy in the school setting. We are one step ahead of England on this and I look forward to it following suit.

However, there is a need to go further, as outlined in my recent short debate, entitled 'Hitting People is Wrong and Children are People Too'. I know that some Members attended that debate, and I was pleased to see cross-party support for it. We should seek to remove the legal defence of reasonable chastisement to give children full protection from physical punishment in any circumstances, including the home. However, we should also ensure that legislation encompasses public awareness and support for parents to find and accept alternative non-violent methods. There are already many good working examples of this in Wales, for which there is a need. Recently, I was extremely distressed and shocked to see a photograph of a six-week-old baby who had been slapped by her mother because she thought that the baby needed to learn how to behave properly, even at that age. Parents need support and a clear lead from the Assembly and elsewhere. I agree with Helen Mary; this is not about demonising parents

gobeithio, ymhen munud neu ddau? Byddem, gobeithio, yn barod i fod yn flaengar ar fater cam-drin plant, fel yr ydym yn flaengar ar gam-drin menywod yn y cartref. A wnaiff hi gefnogi fy ngalwad ar i Lywodraeth Cymru ailystyried y mater? Anogaf y Cynulliad i gefnogi'r gwelliannau a'r cynnig.

Y Dirprwy Lywydd: Atgoffaf yr Aelodau yr ymdrinnir â'r eitem nesaf, sef deddfwriaeth gysylltiedig â'r ddadl hon, dan Reol Sefydlog Rhif 22.25, ac felly na fydd yn destun dadl. Os dymuna Aelodau drafod unrhyw beth perthnasol i hynny, cânt wneud hynny yn ystod y ddadl hon.

Christine Chapman: Croesawaf y rheoliadau newydd hyn sy'n gwahardd yn benodol ddefnyddio neu fygwth cosb gorfforol yn erbyn plant y gofelir amdanynt gan warchodwyr yng Nghymru. Gwyddom fod llawer o gyrff yn gwyllo'r ddadl hon yn fanwl. Maent yn cefnogi'r rheoliadau hyn ac yn eu gweld fel cam cadarnhaol tuag at roi i fabanod a phlant bach yr un warchodaeth rhag cosb gorfforol ag a gânt yn yr ysgol. Yr ydym un cam ar y blaen i Loegr ar hyn ac edrychaf ymlaen at weld y wlad honno'n dilyn ein hesiampl.

Fodd bynnag, mae angen mynd ymhellach, fel yr amlinellais yn fy nadl fer ddiweddar, dan y pennawd 'Nid yw Curo Pobl yn Iawn ac mae Plant yn Bobl Hefyd'. Gwn i rai Aelodau fynychu'r ddadl honno, ac yr oeddwn yn falch o weld cefnogaeth ar draws y pleidiau iddi. Dylem geisio dileu amddiffyniad cyfreithiol cystwyo rhesymol i roi gwarchodaeth lawn i blant rhag cosb gorfforol ym mhob sefyllfa, gan gynnwys gartref. Ond dylem sicrhau hefyd y bydd unrhyw ddeddfwriaeth yn cynnwys codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a chefnogi rhieni i ganfod a derbyn dulliau eraill di-drais. Mae sawl enghraifft weithiol dda o hyn eisoes yng Nghymru, ac mae eu hangen. Yn ddiweddar, cefais ysgytwad a braw mawr o weld llun o faban chwe wythnos oed a gawsai glusten gan ei mam am fod honno'n meddwl bod angen i'r baban ddysgu sut i ymddwyn yn iawn, hyd yn oed mor ifanc â hynny. Mae ar rieni angen cefnogaeth ac arweiniad clir gan y Cynulliad ac eraill. Cytunaf â Helen Mary; nid mater o ddemoneiddio rhieni yw hyn, ond

but about giving them support.

It is also about human rights—the child’s rights. The UK Government has signed the UN convention on the rights of the child, which clearly states that children have a right not to be hit. I also remind Members that the UK is now out of step with many other countries. Eleven countries have banned hitting children. Sweden is a good example. It abolished corporal punishment over 20 years ago, and contrary to concerns about a rise in the prosecution of parents who hit children, that was not the case. Public attitudes are now shifting.

UK opinion polls conducted a few weeks ago showed that the majority of parents would favour a ban if they felt that they would not be prosecuted for so-called trivial offences. Again recent polls have shown that almost all children disagree with the physical punishment of children. Hitting is not an effective punishment—it does not work. A great deal of research bears that fact out. It can be physically and emotionally damaging. It sends a message to children that violence is acceptable. Is it acceptable in twenty-first century Wales?

3:20 p.m.

There is a growing campaign to ban the physical punishment of children. I recently visited Westminster with the Children are Unbeatable Alliance, and I was pleased that six Welsh Members of Parliament have already joined the campaign. Although I welcome today’s regulations, I hope that they will provide a building block for further development.

David Melding: The Welsh Conservative Party welcomes the regulations before us. They relate to care settings and the care workforce. I realise that the previous speaker feels deeply about these issues, but I am not sure that it is terribly helpful to confuse the rights of parents and the use of parental discipline with this subject. I agree with her comments in principle, but this debate is about the social care workforce, particularly the section that delivers care to children

rhoi cefnogaeth iddynt.

Mae a wnelo hyn hefyd â hawliau dynol—hawliau’r plentyn. Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar hawliau’r plentyn, sy’n datgan yn glir fod gan blant hawl i beidio â chael eu taro. Atgoffaf yr Aelodau hefyd fod y DU bellach yn wahanol i lawer o wledydd eraill. Mae 11 o wledydd wedi gwahardd taro plant. Mae Sweden yn enghraifft dda. Gwaharddwyd cosbi corfforol yn y wlad honno dros 20 mlynedd yn ôl, ac yn groes i bryderon y byddai mwy o erlyn rhieni am daro’u plant, nid felly y bu. Mae agweddau’r cyhoedd yn symud yn awr.

Dangosodd polau piniwn a gynhaliwyd yn y DU ychydig o wythnosau’n ôl y byddai’r rhan fwyaf o rieni o blaid gwaharddiad pe teimlent na chaent eu herlyn am yr hyn a elwid yn droseddau dibwys. Eto, dangosodd polau diweddar fod plant bron i gyd yn anghytuno â chosbi plant yn gorfforol. Nid yw taro’n gosb effeithiol—nid yw’n gweithio. Mae llawer iawn o ymchwil yn cadarnhau’r ffaith honno. Gall fod yn gorfforol ac emosiynol niweidiol. Mae’n anfon neges i blant fod trais yn dderbyniol. A ydyw’n dderbyniol yng Nghymru’r unfed ganrif ar hugain?

Mae ymgyrch cynyddol i wahardd cosbi plant yn gorfforol. Yn ddiweddar euthum i San Steffan gyda’r Gynghrair ‘Sdim Curo ar Blant, ac yr oeddwn yn falch bod chwe Aelod Seneddol Cymreig eisoes wedi ymuno â’r ymgyrch. Er fy mod yn croesawu rheoliadau heddiw, gobeithiaf y byddant yn sylfaen i ddatblygiad pellach.

David Melding: Mae Plaid Geidwadol Cymru yn croesawu’r rheoliadau ger ein bron. Maent yn ymwneud â lleoliadau gofal a’r gweithlu gofal. Sylweddolaf fod y siaradwr diwethaf yn teimlo’n ddwys am y materion hyn, ond nid wyf yn siŵr ei bod yn ofnadwy o ddefnyddiol cymysgu’r pwnc hwn â hawliau rhieni a’u defnydd o ddisgyblaeth. Cytunaf â’i sylwadau mewn egwyddor, ond dadl yw hon am y gweithlu gofal cymdeithasol, yn enwedig yr adran sy’n

under eight. We should focus on that.

We need minimum national standards. It is important that we have a different way of regulating these in Wales, which will be more integrated and coherent and easier to monitor and inspect. I congratulate the Minister on proposing a slightly different route to the one that will be used in England. It is vital to have a well-trained and professional workforce. It is appropriate to list in the regulations what care workers and those who are looking after children cannot do. We should remember that we want a highly trained workforce that is so professional it will automatically behave in the child's best interest and to the highest possible standards.

This sector has been under-regulated and ignored in the past, yet all the evidence suggests that more parents will be reliant on care services for younger children. That is part of what happens in the workforce, encouraging people to work as much as possible and have a source of income. It is important that parents who want to return to work and contribute towards the economy can be sure that they will have appropriate care for their children. In all of this, the guiding light for us is putting child protection first. What happens to children in the early years of their development is profoundly important. It has a magnifying effect throughout later life and into adult life. Happy and wholesome experiences at a young age will give that child confidence and encourage its development.

I turn to physical punishment specifically in terms of care or school settings. It would be perverse for us to say this afternoon that physical punishment is rightly banned from all schools and that children over five in the state sector cannot be physically punished, even though young children in playgroups, or whatever care setting, can. Clearly, that is not coherent and we must end the use of corporal punishment in all care and educational settings. I strongly support that principle.

Kirsty Williams: I welcome these standards

darparu gofal i blant dan wyth. Dylem ganolbwyntio ar hynny.

Mae angen safonau cenedlaethol gofynnol arnom. Mae'n bwysig bod gennym ffordd wahanol o reoleiddio'r rhain yng Nghymru, a fydd yn fwy integredig a chydlynol ac yn haws ei monitro a'i harolygu. Yr wyf yn llongyfarch y Gweinidog am gynnig ffordd ychydig yn wahanol i'r un a ddefnyddir yn Lloegr. Mae'n hollbwysig bod y gweithlu'n broffesiynol ac wedi'i hyfforddi'n dda. Mae'n briodol rhestru yn y rheoliadau beth na all gweithwyr gofal a'r rhai sy'n gofalu am blant ei wneud. Dylem gofio bod arnom eisiau gweithlu wedi'i hyfforddi'n dda, sydd mor broffesiynol fel y bydd yn otomatig yn ymddwyn er budd gorau'r plentyn ac i'r safonau uchaf posibl.

Cafodd y sector hwn ei dan-reoleiddio a'i anwybyddu yn y gorffennol, eto mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu y bydd mwy o rieni'n dibynnu ar wasanaethau gofal i blant iau. Mae hynny'n rhan o'r hyn sy'n digwydd yn y gweithlu, sef annog pobl i weithio cymaint ag sy'n bosibl a bod â ffynhonnell incwm. Mae'n bwysig i rieni sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith a chyfrannu tuag at yr economi allu bod yn siŵr y bydd ganddynt ofal priodol i'w plant. Yn hyn i gyd, y golau sy'n ein harwain yw ein bod yn rhoi diogelwch plant yn gyntaf. Mae'r hyn sy'n digwydd i blant ym mlynnyddoedd cynnar eu datblygiad yn aruthrol o bwysig. Caiff effaith chwyddhaol drwy gydol bywyd wedyn ac i fywyd fel oedolyn. Bydd profiadau hapus ac iach yn blentyn ifanc yn rhoi hyder i'r plentyn hwnnw ac yn hybu ei ddatblygiad.

Trof at gosb gorfforol yn benodol mewn lleoliadau gofal neu mewn ysgolion. Gwrthuni ar ein rhan fyddai dweud y prynhawn yma fod cosbi corfforol wedi'i wahardd yn gyfiawn o bob ysgol ac na cheir cosbi plant dros bump yn sector y wladwriaeth yn gorfforol, er y gellir cosbi plant ifanc mewn grwpiau chwarae, neu ba lleoliad gofal bynnag. Yn amlwg, nid yw hynny'n gydlynol a rhaid inni roi terfyn ar ddefnyddio cosb gorfforol ym mhob lleoliad gofal ac addysgol. Cefnogaf yr egwyddor honno'n gryf.

Kirsty Williams: Croesawaf y safonau hyn

on behalf of the Liberal Democrats. We have consistently supported the implementation of the Care Standards Act 2000. Childcare can be a complex and fraught issue, as I know personally. Knowing that your child is being cared for in a safe environment is crucial for parents and carers. I welcome the implementation of all-Wales standards and the administration's realisation that the new regulatory framework needs to be devised in a way that is similar to current regimes to avoid unnecessary confusion for providers who are already in the sector. Emphasis on staff development and training is also welcome as is the common-sense approach that will be applied to the implementation of challenging targets for qualification.

Start-up grants for child minders are welcome. I congratulate you, Minister. I wrote to you a year ago on this matter, and am delighted that you have taken this forward. However, I am concerned that there is still much to be done to encourage people to enter this sector to provide the numerous childcare places that society needs. It is of great concern to me, as chairman of the Objective 3 programme monitoring committee, that priority 5, which is designed to break down the barriers that prevent people from entering the workforce, is one of the priorities and measures for which there is severe under-bidding under Objective 3 proposals. I welcome the move on behalf of the commission to broaden the parameters of this priority to allow the providers of childcare to establish child minding schemes. However, we still have a long way to go to ensure that the necessary number of childcare places are available throughout Wales.

I concur with Helen Mary Jones and Christine Chapman's remarks on corporal punishment. Part 3, paragraph 9 of the regulations is particularly welcome, as are the regulations that spell out what is expected on behalf of a childcare establishment with regard to reporting complaints. Those of you who follow events in mid Wales will be all too aware of the disturbing recent case regarding the closing down of a childcare establishment and the subsequent trial. What emerged from that was the need for clear standards of what is expected of childcare providers, and rules to follow in case of a

ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol. Yr ydym yn gyson wedi cefnogi gweithrediad Deddf Safonau Gofal 2000. Gall gofal plant fod yn bwnc cymhleth a dyrys, fel y gwn i'n bersonol. Mae gwybod bod eich plentyn yn cael gofal mewn sefyllfa diogel yn hollbwysig i rieni a gofalwyr. Croesawaf y ffaith bod safonau i Gymru gyfan yn cael eu gweithredu a bod y weinyddiaeth yn sylweddoli bod angen dyfeisio'r fframwaith rheoleiddiol newydd mewn modd sy'n debyg i systemau cyfredol er mwyn osgoi dryswch diangen i ddarparwyr sydd eisoes yn y sector. Mae'r pwyslais ar ddatblygu a hyfforddi staff i'w groesawu hefyd, a hefyd yr agwedd synnwyr-cyffredin a gymerir wrth bennu targedau heriol o ran cymwysterau.

Croesewir grantiau cychwyn i warchodwyr plant. Yr wyf yn eich llongyfarch, Weinidog. Ysgrifennais atoch flwyddyn yn ôl ar y mater hwn, ac yr wyf wrth fy modd eich bod wedi mynd â hyn ymlaen. Er hynny, yr wyf yn bryderus bod llawer i'w wneud o hyd i annog pobl i ddod i mewn i'r sector hwn i ddarparu'r lleoedd gofal plant niferus y mae eu hangen ar gymdeithas. Mae'n destun pryder mawr i mi, fel cadeirydd pwyllgor monitro rhaglen Amcan 3, fod blaenoriaeth 5, a'i bwriad yw cael gwared â'r anawsterau sy'n rhwystro pobl rhag ymuno â'r gweithlu, ymhlith y blaenoriaethau y bu diffyg dybryd o geisiadau amdanynt dan gynigion Amcan 3. Croesawaf y symudiad ar ran y comisiwn i ehangu paramedrau'r flaenoriaeth hon i ganiatáu i ddarparwyr gofal plant sefydlu cynlluniau gwarchod plant. Fodd bynnag, mae gennym ffordd bell i fynd o hyd i sicrhau bod y nifer angenrheidiol o lefydd gofal plant ar gael ledled Cymru.

Yr wyf yn cytuno â sylwadau Helen Mary Jones a Christine Chapman ynghylch cosbi corfforol. Mae Rhan 3, paragraff 9 y rheoliadau i'w groesawu'n arbennig, a hefyd y rheoliadau sy'n egluro'r hyn a ddisgwylir ar ran sefydliad gofal plant o ran adrodd am gwynion. Bydd y rhai ohonoch sy'n dilyn digwyddiadau yn y Canolbarth yn gwybod yn rhy dda am yr achos annymunol diweddar ynghylch cau sefydliad gofal plant a'r achos llys wedyn. Amlygodd hynny yr angen am safonau clir ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan ddarparwyr gofal plant, a rheolau i'w dilyn os ceir cwyn.

complaint.

I turn to part 4, paragraph 12 of these regulations, which deals with police checks. It is right that persons employed in this field should be subject to police checks. However, I have grave concerns regarding the administration of these checks. The Criminal Records Bureau is already behind schedule in taking up its responsibilities in this area, and there are real concerns that the delays already experienced in getting police checks will become worse when the bureau takes over these responsibilities. Delays in obtaining police checks can pose real problems for employees. There are examples of people who have offered an individual a job and have had to wait up to 6 months before they have clearance from the police that that person is suitable to work with children. We cannot expect people to wait for six months before they can take up employment. This affects not only childcare providers but also people who care for children in residential, respite and educational settings. The Amy Gehring case threw up the issue of ensuring that appropriate checks are made. I would be grateful to hear your views, Minister, on how, in ensuring that we comply with part 4, paragraph 12 of the regulations, police checks are carried out speedily.

Pauline Jarman: I declare an interest as a member of Rhondda Cynon Taff County Borough Council. I welcome the regulations covering the suitability of registered persons for the purpose of childcare, together with those relating to the promotion of welfare and other arrangements for the protection of children. Like other Members, I welcome the fact that the regulations will mean that corporal punishment can neither be used nor threatened against children while in the care of a registered person.

I will further develop the arguments in favour of amendments 1 and 2, and their relevance insofar as the application of these regulations is concerned. As far as the social economy of Wales is concerned, and the funding and availability of quality childcare throughout the nation, this should be addressed as a matter of urgency if we are to maximise

Trof at ran 4, paragraff 12 y rheoliadau hyn, sy'n ymdrin ag archwiliadau gan yr heddlu. Mae'n briodol y dylai pobl a gyflogir yn y maes hwn gael eu harchwilio gan yr heddlu. Fodd bynnag, mae gennyf bryderon difrifol ynghylch sut y gweinyddir yr archwiliadau hyn. Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol eisoes ar ei hôl hi yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn hyn o beth, ac mae gwir bryderon y bydd yr oedi a gafwyd eisoes wrth gael archwiliadau heddlu yn mynd yn waeth pan ymgymera'r swyddfa â'r cyfrifoldebau hyn. Gall oedi cyn cael archwiliad heddlu fod yn broblem wirioneddol i weithwyr. Ceir enghreifftiau o bobl a gynigiodd swydd i unigolyn ac wedyn bu'n rhaid aros hyd at chwe mis cyn cael gair gan yr heddlu'n clirio'r person hwnnw i weithio gyda phlant. Ni allwn ddisgwyl i bobl aros am chwe mis cyn y gallant ddechrau gweithio mewn swydd. Mae hyn yn effeithio nid yn unig ar ddarparwyr gofal plant ond hefyd ar bobl sydd yn gofalu am blant mewn lleoliadau preswyl, seibiant ac addysgol. Amlygodd achos Amy Gehring yr angen i sicrhau y gwneir yr archwiliadau priodol. Byddwn yn ddiolchgar cael clywed eich barn, Weinidog, ynghylch sut, wrth sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rhan 4, paragraff 12 y rheoliadau, y gwneir archwiliadau heddlu yn gyflym.

Pauline Jarman: Yr wyf yn datgan buddiant fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Croesawaf y rheoliadau ynglŷn ag addasrwydd pobl gofrestredig i bwrpas gofal plant, ynghyd â'r rhai sy'n ymwneud â hyrwyddo lles a threfniadau eraill ar gyfer diogelu plant. Fel Aelodau eraill, croesawaf y ffaith y bydd y rheoliadau'n golygu na ellir defnyddio na bygwth cosb gorfforol yn erbyn plant tra bônt yng ngofal person cofrestredig.

Yr wyf am ddatblygu ymhellach y dadleuon o blaid gwelliannau 1 a 2, a'u perthnasedd o ran defnyddio'r rheoliadau hyn. O safbwynt economi cymdeithasol Cymru, a'r angen i sicrhau a thalu am ofal plant o ansawdd da drwy'r wlad i gyd, dylid mynd i'r afael â hyn ar fyrder os ydym am wneud y gorau o'n buddsoddiad mewn addysg, hyfforddiant a

investment in education, training and economic development, especially in areas of deprivation and isolation. We all accept that childcare provision is not only underdeveloped in most parts of Wales, but also that where it is available, it is generally expensive. Subsidised childcare places enabling access to employment or learning are almost non-existent in some parts of Wales. Socially excluded groups, such as teenage parents and women in disadvantaged communities, need to be targeted. More affordable or free childcare will encourage more women into learning and employment.

3:30 p.m.

Taking childcare into vulnerable communities, simultaneously with learning opportunities, will remove many of the social and geographical barriers to learning opportunities for the parent and the child. Young children of adult learners, and those who return to education, need to be provided with high quality provision that will enhance their life changes. Many children of disadvantaged parents should be given equal access to early years' settings, and therefore contributing to the eradication of child poverty and cycles of disadvantage. The cost of childcare stops many women in Wales from attaining qualifications, skills and employment. Some barriers to provision of childcare need to be addressed. In many cases, the provision needs to be on a small scale, and based on local, community-run initiatives linked with informal and formal outreach learning initiatives. Childcare training opportunities need to be delivered in disadvantaged local communities. We need to sponsor or assist childcare places for women accessing adult learning opportunities and we also need to increase the availability of affordable, good-quality childcare for working parents. These services need to be available through the medium of Welsh and English. The nation needs an ambitious, innovative neighbourhood childcare strategy. I am aware of such a project in my local authority area. It is a £2.5 million, three-year programme developed by the early years partnership to deliver many initiatives that are desperately needed to deliver quality childcare. However, that is unique in Wales. I

datblygu economaidd, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig ac anghysbell. Derbyniwn i gyd nid yn unig fod darpariaeth gofal plant heb ei datblygu'n llawn yn y rhan fwyaf o Gymru, ond hefyd, lle mae ar gael, ei bod ar y cyfan yn ddrud. Mae lleoedd gofal plant wedi'u sybsideiddio, sydd yn galluogi mynediad at gyflogaeth neu addysg, bron yn gwbl absennol mewn rhai rhannau o Gymru. Mae angen targedu grwpiau sydd wedi'u dieithrio'n gymdeithasol, fel rhieni yn eu harddegau a menywod mewn cymunedau difreintiedig. Bydd gofal plant rhatach neu am ddim yn annog mwy o fenywod i fyd dysgu a gwaith.

Wrth fynd â gofal plant i mewn i gymunedau bregus, ochr yn ochr â chyfleoedd dysgu, chwelir llawer o'r rhwystrau cymdeithasol a daearyddol rhag i'r rhiant a'r plentyn gael cyfleoedd dysgu. Mae angen i blant ifanc oedolion sy'n dysgu neu sy'n dychwelyd i fyd addysg, gael darpariaeth o ansawdd da a fydd yn gwella'u cyfleoedd mewn bywyd. Dylai llawer o blant i rieni difreintiedig gael mynediad cyfartal i leoliadau blynyddoedd cynnar, gan gyfrannu drwy hynny at ddileu tloedi plant a chylchoedd anfantais. Mae cost gofal plant yn rhwystro llawer o fenywod yng Nghymru rhag ennill cymwysterau, sgiliau a gwaith. Mae angen mynd i'r afael â rhai rhwystrau i ddarparu gofal plant. Mewn amryw o achosion, mae angen i'r ddarpariaeth fod ar raddfa fach, ac ar sail mentrau lleol, wedi'u rhedeg gan y gymuned, ynghlwm wrth fentrau dysgu anffurfiol a ffurfiol yn y gymuned. Mae angen sicrhau cyfleoedd hyfforddiant gofal plant mewn cymunedau lleol difreintiedig. Mae angen inni noddi neu gynorthwyo lleoedd gofal plant i fenywod sy'n manteisio ar gyfleoedd addysg oedolion ac mae angen hefyd inni sicrhau bod mwy o ofal plant o ansawdd da, y gellir ei fforddio, ar gael i rieni sy'n gweithio. Mae angen i'r gwasanaethau hyn fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ar y genedl angen strategaeth gofal plant cymdogol uchelgeisiol, arloesol. Gwn am brosiect o'r fath yn ardal fy awdurdod lleol i. Mae'n rhaglen £2.5 miliwn, tair blynedd a ddatblygwyd gan y bartneriaeth blynyddoedd cynnar i weithredu sawl cynllun y mae dirfawr angen amdanynt i sicrhau gofal plant

wholeheartedly support the regulations that the Minister has placed before us today.

Karen Sinclair: I welcome the regulations for childcare minimum standards. However, I am concerned about the rigid format of the regulations for child minders in their own homes. So that we do not intimidate or frighten child minders with paper work, could we ensure that registration staff help child minders meet the criteria in a supportive and sympathetic manner? Otherwise, I fear that we could lose child minders for bureaucratic reasons. In rural parts of my constituency, child minders are the main providers of childcare.

The Minister for Health and Social Services (Jane Hutt): Thank you for that positive debate. I, like you, consider childcare—which includes child minders, out-of-school clubs, day nurseries, playgroups, cylchoedd meithrin and open access play areas—to be a key part of the Assembly Government's programme to support children. That includes all the children in Wales, as Helen Mary, Pauline, Christine and Karen have said, and particularly those who are most disadvantaged. That is why we have announced that our financial support to childcare is delivered within that unified grant. I am sure that local authorities will make full use of it because they back the unified grant, which includes Childcare, Sure Start and the children and youth partnership fund. We are dramatically increasing the resources for childcare this year and the next—

Brian Hancock: Have you had discussions with your colleague, the Minister for Education and Lifelong Learning, because there is concern that single parents, in particular, cannot work full time, cannot get full benefits, and child minding services are not available to them. If they look after their children full time, they cannot receive education? If they attend evening classes, they need childcare. If they earn too much money, they lose their education and then they miss out on lifelong learning. Have you

o safon. Fodd bynnag, mae hynny'n unigryw yng Nghymru. Cefnogaf yn llwyr y rheoliadau y mae'r Gweinidog wedi'u gosod ger ein bron heddiw.

Karen Sinclair: Croesawaf y rheoliadau ar gyfer safonau gofynnol o ran gofal plant. Er hynny, yr wyf yn bryderus ynghylch ffurf anhyblyg y rheoliadau ar gyfer gwarchodwyr plant yn eu cartrefi eu hunain. Er mwyn peidio â gorlethu na dychryn gwarchodwyr gyda gwaith papur, a allem ni sicrhau bod staff cofrestru'n helpu'r gwarchodwyr i fodloni'r meini prawf mewn modd cefnogol a chydymdeimladol? Fel arall, ofnaf y gallem golli gwarchodwyr am resymau biwrocraidd. Yn y rhannau gwledig o'm hetholaeth i, gwarchodwyr yw prif ddarparwyr gofal plant.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Diolch ichi am y ddadl gadarnhaol honno. Yr wyf fi, fel chi, o'r farn bod gofal plant—a hynny'n cynnwys gwarchodwyr, clybiau allan-o'r-ysgol, meithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae, cylchoedd meithrin a mannau chwarae mynediad agored—yn rhan allweddol o raglen Llywodraeth y Cynulliad i gynnal plant. Mae hynny'n cynnwys holl blant Cymru, fel y dywedodd Helen Mary, Pauline, Christine a Karen, ac yn enwedig y rhai sy'n fwyaf difreintiedig. Dyna pam yr ydym wedi cyhoeddi y rhoddir ein cymorth ariannol i ofal plant o fewn y grant unedig hwnnw. Yr wyf yn siŵr y gwnaiff awdurdodau lleol ddefnydd llawn ohono, oherwydd eu bod yn cefnogi'r grant unedig, sy'n cynnwys Gofal Plant, Cychwyn Cadarn a chronfa'r bartneriaeth plant ac ieuentid. Yr ydym yn cynyddu'n ddramatig yr adnoddau ar gyfer gofal plant eleni a'r flwyddyn—

Brian Hancock: A ydych wedi trafod â'ch cyd-aelod, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, oherwydd bod pryder fod rhieni senl, yn enwedig, yn methu gweithio'n llawn-amser, yn methu cael buddaliadau llawn, ac nad yw gwasanaethau gwarchod plant ar gael iddynt? Os edrychant ar ôl eu plant yn llawn-amser, ni allant gael addysg. Os mynychant ddosbarthiadau nos, bydd arnynt angen gofal plant. Os enilliant ormod o arian, fe gollant eu haddysg a cholli allan wedyn ar addysg gydol oes. A gawsoch

had any discussions to consider this in more detail?

Jane Hutt: That is part of the childcare action plan, which we debated before Christmas and which we will debate again in May. The childcare action plan takes on board the social, educational and lifelong learning opportunities and considers them from the child's perspective. It also considers the abilities and opportunities of communities and parents. We must recognise that this issue is about childcare. We are talking about regulations today, Brian.

I want to return to comment on points that Assembly Members have made. As David said, child protection and quality of care are of prime importance. If we fund new childcare provision, we must ensure that children are being cared for in a protective environment that meets national minimum standards. That is why the Care Standards Inspectorate for Wales, which is coming into force in the next week or so, will be so important in ensuring that we have that consistency.

Helen Mary, I welcome your positive comments on the regulations and the important role that they will play. I have already responded to your amendments in terms of our developments on training and improving the funding for the early years and childcare partnerships. They are taking issues forward across Wales. Kirsty's point about using the European funding stream is also being addressed in our childcare action plan. We have time to drive that forward, and I look forward to Members' support when it is debated.

Through the new opportunities fund we have created over 11,000 new out-of-school childcare places in Wales, and we have amended the guidance in relation to that fund to ensure that it can support those communities that need longer-term sustainability. David made the point that it is also vital that we have a professional and well-trained workforce.

Many Members have addressed my decision to outlaw smacking in day-care settings. It is important that the Assembly returns to that

unrhyw drafodaethau i ystyried hyn yn fanylach?

Jane Hutt: Mae hynny'n rhan o'r cynllun gweithredu ar ofal plant, y cawsom ddadl arno cyn y Nadolig ac a fydd yn destun dadl eto ym mis Mai. Mae'r cynllun gweithredu gofal plant yn cwmpasu'r cyfleoedd cymdeithasol, addysgol a dysgu gydol oes ac yn eu hystyried o safbwynt y plentyn. Mae'n ystyried hefyd galluoedd a chyfleoedd cymunedau a rhieni. Rhaid inni gydnabod mai mater yn ymwneud â gofal plant yw hyn. Yr ydym yn sôn am reoliadau heddiw, Brian.

Hoffwn ddod yn ôl i roi sylwadau ar bwyntiau a wnaeth Aelodau'r Cynulliad. Fel y dywedodd David, mae diogelu plant ac ansawdd gofal o'r pwysigrwydd mwyaf. Os am dalu am ddarpariaeth gofal plant newydd, rhaid inni sicrhau y gofelir am blant mewn amgylchedd gwarchodol sy'n cyrraedd safonau gofynnol cenedlaethol. Dyna pam y bydd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, a ddaw i rym o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf, mor bwysig er mwyn sicrhau'r cysondeb hwnnw.

Helen Mary, croesawaf eich sylwadau cadarnhaol am y rheoliadau a'r rôl bwysig a chwaraeant. Yr wyf eisoes wedi ymateb i'ch gwelliannau o ran ein datblygiadau ar hyfforddiant a gwella'r cyllid i'r partneriaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant. Maent yn symud pethau ymlaen ledled Cymru. Mae pwynt Kirsty ynghylch defnyddio'r ffrwd nawdd Ewropeaidd hefyd yn cael sylw yn ein cynllun gweithredu gofal plant. Mae gennym amser i yrru hynny yn ei flaen, ac edrychaf ymlaen at gael cefnogaeth yr Aelodau pan gawn ddadl arno.

Drwy'r gronfa cyfleoedd newydd yr ydym wedi creu dros 11,000 o leoedd gofal plant newydd y tu allan i'r ysgol yng Nghymru, ac yr ydym wedi newid canllawiau'r gronfa honno i sicrhau y gall gefnogi'r cymunedau hynny sydd angen cynaliadwyedd dros dymor hwy. Gwnaeth David y pwynt ei bod yn hanfodol hefyd inni fod â gweithlu proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n dda.

Mae llawer o Aelodau wedi cyfeirio at fy mhenderfyniad i anghyfreithloni taro plant mewn lleoliadau gofal dydd. Mae'n bwysig

issue because concerns have deepened following Christine Chapman's short debate on protecting children from physical punishment. I have met with representatives of the Children are Unbeatable campaign and I think that Assembly Members need to be briefed further on this. I made my personal views clear in that short debate that we must move forward with positive parenting, to enable parents in Wales to see the alternatives to physical punishment. We are now investing, through Children in Wales, in a positive parenting plan, working with the national parenting and family foundation in England. Therefore, we are taking this forward because of the concerns expressed. Members will recall that we probably did not make the most of the opportunity when we were consulted on this issue some two or three years ago. We need to take it forward. You are right to say, David, that we need to consider more carefully all contexts and settings where care is offered outside of parental care and care in the home.

Kirsty made an important point about police checks and the fact that the Criminal Records Bureau is being established and will implement those checks more quickly. However, the regulations make provision for staff to start work in advance of the completion of checks, provided that they are not left in unsupervised contact with children. That is key until the Criminal Records Bureau is running as it should do.

Karen, you talked about the importance of encouraging child minders and asked whether they would see the regulations as being a burden on them. That is why I have removed regulatory fees and why we have a £300 start-up grant for child minders. We need to turn that around. Child minding is a source of employment, particularly for women, and we must ensure that they are supported through our early years and childcare partnerships and that they are not isolated but rather supported through the National Childminding Association. The Assembly has given its backing to the association, as the national body taking forward childminding. It has struggled for development support for many years in all our communities, particularly in

i'r Cynulliad ddod yn ôl at hyn oherwydd mae pryderon wedi dwysáu ers dadl fer Christine Chapman ar ddiogelu plant rhag cosb gorfforol. Yr wyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr yr ymgyrch 'Sdim Curo ar Blant a chredaf fod angen rhoi gwybodaeth bellach i Aelodau'r Cynulliad ar hyn. Datganais fy marn bersonol yn glir yn y ddadl fer honno fod yn rhaid inni symud ymlaen gyda magu cadarnhaol, i alluogi rhieni yng Nghymru i weld y dewisiadau eraill yn lle cosb gorfforol. Yr ydym yn buddsoddi yn awr, drwy Blant yng Nghymru, mewn cynllun rhieni cadarnhaol, gan gydweithio â sefydliad cenedlaethol rhieni a theuluoedd yn Lloegr. Felly, yr ydym yn mynd ymlaen â hyn oherwydd y pryderon a fynegwyd. Bydd yr Aelodau'n cofio inni efallai fethu gwneud y gorau o'r cyfle pan ymgynghorwyd â ni ar y mater hwn ryw ddwy neu dair blynedd yn ôl. Mae angen inni fynd ag ef ymlaen. Yr ydych yn iawn, David, pan ddywedwch fod angen inni ystyried yn fwy gofalus bob cyd-destun a sefyllfa lle cynigir gofal y tu allan i ofal y rhieni a gofal yn y cartref.

Gwnaeth Kirsty bwynt pwysig ynghylch archwiliadau heddlu a'r ffaith bod Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cael ei sefydlu a fydd yn gwneud yr archwiliadau hynny'n gynt. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau'n darparu i staff gael dechrau gweithio cyn i'r archwiliadau gael eu cwblhau, ar yr amod na adewir hwy gyda phlant heb oruchwyliath. Dyna'r allwedd hyd nes bydd y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn gweithio fel y dylai.

Karen, gwnaethoch chi sôn am bwysigrwydd annog gwarchodwyr plant a gofyn a fyddent hwy'n gweld y rheoliadau fel baich arnynt. Dyna pam yr wyf wedi dileu ffioedd rheoleiddio a pham y mae gennym grant cychwyn o £300 i warchodwyr. Mae angen inni droi hynny o gwmpas. Mae gwarchod plant yn ffynhonnell gwaith, yn enwedig i fenywod, a rhaid inni sicrhau y cânt eu cefnogi drwy'n partneriaethau blynyddoedd cynnar a gofal plant ac na chânt eu hynysu ond yn hytrach eu cefnogi drwy'r Gymdeithas Warchod Plant Genedlaethol. Mae'r Cynulliad wedi rhoi ei gefnogaeth i'r gymdeithas, fel y corff cenedlaethol sy'n mynd â gwarchod plant yn ei flaen. Mae wedi ymdrechu dros gefnogaeth am ddatblygu ers

rural areas such as yours, Karen.

blynyddoedd lawer yn ein cymunedau i gyd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel eich un chi, Karen.

Through this debate we have acknowledged the importance of the care standards inspectorate and the role it will play in protecting children in Wales. These regulations will take us forward. They will also take us forward in terms of the Welsh way of supporting and protecting our children. Out of that, and out of the issues that you raised, we will have a robust debate when we discuss the childcare action plan in May. That will cover many of the broader issues that you have brought forward in today's debate.

Drwy gydol y ddadl hon yr ydym wedi cydnabod pwysigrwydd yr Arolygiaeth Safonau Gofal a'r rôl y bydd yn chwarae o ran diogelu plant yng Nghymru. Bydd y rheoliadau hyn yn mynd â ni ymlaen. Byddant hefyd yn mynd â ni ymlaen o ran y ffordd Gymreig o gynnal a diogelu'n plant. Ar sail hynny, ac ar sail y materion a godwyd gennych chi, cawn ddadl fywiog pan drafodwn y cynllun gweithredu gofal plant ym Mai. Bydd honno'n ymdrin â llawer o'r materion ehangach a gyflwynwyd gennych yn y ddadl heddiw.

*Gwelliant 1: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 31.
Amendment 1: For 19, Abstain 0, Against 31.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Cairns, Alun
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Graham, William
Hancock, Brian
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
We have seen that public sector workers in Wales feel angry at the refusal of the Labour Governments at Westminster and Cardiff bay to help them. Benefits Agency workers came to the Assembly with their grievances and Labour turned a deaf ear to their pleas. Postal workers came to see us at the Assembly

intention to legislate to change the voting system. When you ask the First Minister for his viewpoint on that issue, you will not get an answer. By the same token, we do not know his view on other matters raised this afternoon. What is his opinion on having a legislative parliament? We do not know. Therefore, when the Liberal Democrats agree with the First Minister on establishing an independent investigation or an independent commission, the danger is that any recommendations made will be ignored.

Un mater pwysig a wynebwn i gyd y dyddiau hyn yw'r bygythiad i'n gwasanaethau cyhoeddus. Dylai'r Prif Weinidog sylweddoli nad oddi wrth Blaid Cymru—The Party of Wales y tarddodd y galw am ddeddfwriaeth i warchod y rhai sy'n gweithio ar hyn o bryd yn y gwasanaethau cyhoeddus, ond oddi wrth y mudiad undebau llafur. Soniwyd am y bygythiad i'r gweithwyr hynny gan John Monks, ysgrifennydd cyffredinol Cyngres Undebau Llafur y DU. Mae'r rheini ohonom sy'n credu yn ethos gwasanaeth cyhoeddus yn gwerthfawrogi'r rhai sy'n gweithio yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Ond mae eu hawliau, fel y gŵyr y Prif Weinidog, mae'n rhaid, yn cael eu herydu'n gyson. Ceisiodd Tony Blair, Prif Weinidog y DU, eu herydu ymhellach fyth yr wythnos ddiwethaf ar y llwyfan Ewropeaidd. Disgrifiwyd ei ymgreinio gwarthus i Silvio Berlusconi gan John Monks mewn geiriau y byddai'r Dirprwy Lywydd yn fy ngheryddu amdanynt pe bawn yn eu hailadrodd. Cyflwynodd Tony Blair gynlluniau i leihau hawliau gweithwyr i'r lefel waethaf yn Ewrop, yn hytrach nag anelu at fod y gorau. Disgrifiodd John Monks ef fel un o'r arweinwyr mwyaf adain-dde yn Ewrop. Er enghraifft, nid oes ar Lywodraeth y DU eisiau i weithwyr dur Cymru gael yr un hawliau â'r Iseldirwyr; mae eisiau i'r Iseldirwyr ddod i lawr i'r un lefel â'r Deyrnas Unedig—hynny yw, yr un agwedd ag a gymerwyd gan lywodraethau Ceidwadol yn y gorffennol.

Yr ydym wedi gweld bod gweithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru'n teimlo'n flin am wrthodiad y Llywodraethau Llafur yn San Steffan a bae Caerdydd i'w helpu. Daeth gweithwyr yr Asiantaeth Fudd-daliadau i'r Cynulliad gyda'u cwynion a throdd Llafur glust fyddar i'w ple. Daeth gweithwyr post

because they had been bitterly disappointed by the response they had received from Labour. Again—in case the First Minister missed it—John Monks has called for the UK Government to protect the rights of public sector workers who have been transferred to the private sector. Their working conditions and pension rights are particularly vulnerable because the current Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981 does not offer sufficient protection.

The Deputy Presiding Officer: Order. You cannot see him, Ieuan, but are you giving way to Huw Lewis?

Huw Lewis: Thank you for giving way, Ieuan. While you are expressing your concern for trade unionism, can you tell us how many of your party's Assembly Members have bothered to join a trade union? Also, would a Plaid Cymru Government, if such a thing comes to pass, have any plans to introduce legislation to separate Wales from the rest of the UK?

The Deputy Presiding Officer: Order. You need to wind up, Ieuan.

Ieuan Wyn Jones: I have an intervention to reply to.

The Deputy Presiding Officer: You have some injury time.

Ieuan Wyn Jones: That was an interesting intervention from Huw on the day he has criticised, not Plaid Cymru, but his own First Minister for his failure to defend the public sector. I suggest that he reads again the second page of today's *Welsh Mirror*, where he makes that attack more forcefully than I ever could.

Although the First Minister often tells us that he has some sympathy with our amendments, he always finds the odd dot or comma that he can disagree with and therefore say that he cannot support the amendment. All we are asking the National Assembly Government to do today is back the spirit of this amendment that would give a clear signal to those working in the public sector that the Government of Wales is behind them. John

i'n gweld ni yn y Cynulliad oherwydd yr oeddent wedi'u siomi'n aruthrol gan yr ymateb a gawsant gan Lafur. Eto—rhag ofn i'r Prif Weinidog ei golli—mae John Monks wedi galw am i Lywodraeth y DU warchod hawliau gweithwyr sector cyhoeddus a drosglwyddwyd i'r sector preifat. Mae eu hamodau gwaith a'u hawliau pensiwn yn arbennig o fregus gan nad yw'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Gwarchod Cyflogaeth) 1981 yn cynnig gwarchodaeth ddigonol.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ni allwch ei weld, Ieuan, ond a wnewch chi ildio i Huw Lewis?

Huw Lewis: Diolch am ildio, Ieuan. Tra'ch bod chi'n mynegi'ch pryder dros undebaeth lafur, a allwch ddweud wrthym sawl un o Aelodau Cynulliad eich plaid sydd wedi trafferthu ymuno ag undeb llafur? Hefyd, a fyddai gan Lywodraeth Plaid Cymru, os digwydd y fath beth, unrhyw gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth i wahanu Cymru oddi wrth weddill y DU?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae angen ichi ddirwyn i ben, Ieuan.

Ieuan Wyn Jones: Mae gennyf ymyriad i ymateb iddo.

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennych ychydig o amser ychwanegol.

Ieuan Wyn Jones: Yr oedd hwnnw'n ymyriad diddorol gan Huw ar y diwrnod y mae wedi beirniadu, nid Plaid Cymru, ond ei Brif Weinidog ei hun am fethu ag amddiffyn y sector cyhoeddus. Awgrymaf ei fod yn ailddarllen tudalen dau *Welsh Mirror* heddiw, lle gwna ef yr ymosodiad hwnnw'n llawer mwy grymus nag a allwn i fyth.

Er bod y Prif Weinidog yn dweud wrthym yn aml fod ganddo beth cydymdeimlad â'n gwelliannau, mae bob amser yn dod o hyd i ambell ddot neu goma y gall anghytuno ag ef a dweud felly na all gefnogi'r gwelliant. Y cyfan yr ydym yn gofyn i Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ei wneud heddiw yw cefnogi ysbryd y gwelliant hwn a fyddai'n rhoi arwydd clir i weithwyr yn y sector cyhoeddus fod Llywodraeth Cymru y tu cefn

Monks has told the UK Government that it will see the support of public sector workers haemorrhage away at the next general election; unless Labour Assembly Members support public sector workers, they will also see their votes haemorrhage away in 2003.

John Griffiths: I welcome these suggested inclusions in Westminster's future primary legislation. I agree with the First Minister that this is a step forward in several specific Welsh Bills, because it is a recognition of devolution and enables us to take forward our aims and objectives in Wales. It is a big step forward, but it is fair to say that we need further improvement and we will continue to build on it as we develop further.

On the specific Bills, the suggestion that we include a Bill to make St David's Day a bank holiday in Wales, as we have discussed many times here, is welcome. It should be an additional bank holiday, and in making it so, we would be showing how we are able to achieve practical benefits for Wales as a result of devolution. We could link that into—

Janet Ryder *rose*—

John Griffiths: In a moment, Janet.

We could link that into a greater celebration of Welsh culture, which the Assembly could effect by ensuring that schools, for example, step up their St David's Day celebrations. There are fears that it might, in fact, have the opposite effect, but the Assembly could ensure that that was not the case and it would be valuable for Wales in improving morale and allowing that greater celebration of culture.

Janet Ryder: We have seen how the Irish celebrate St Patrick's Day, in Ireland and beyond. Do you agree that if we could replicate that for St David's Day, it would be a valuable way of increasing knowledge of Wales and of selling Wales? We should be using this as a platform on which to sell Wales to the rest of the world.

iddynt. Mae John Monks wedi dweud wrth Lywodraeth y DU y gwêl gefnogaeth gweithwyr y sector cyhoeddus yn llifo i ffwrdd yn yr etholiad cyffredinol nesaf; os na fydd Aelodau Llafur y Cynulliad yn cefnogi gweithwyr y sector cyhoeddus, fe welant hwythau eu pleidleisiau ar drai yn 2003.

John Griffiths: Croesawaf yr awgrymiadau hyn i'w cynnwys yn neddfwriaeth sylfaenol San Steffan yn y dyfodol. Cytunaf â'r Prif Weinidog fod hwn yn gam ymlaen mewn sawl Mesur Cymreig penodol, oherwydd mae'n cydnabod datganoli ac yn ein galluogi i fynd ymlaen â'n nod a'n hamcanion yng Nghymru. Mae'n gam mawr ymlaen, ond mae'n deg dweud fod angen gwella ymhellach ac fe wnawn barhau i adeiladu arno wrth inni ddatblygu ymhellach.

Ar y Mesurau penodol, mae'r awgrym ein bod yn cynnwys Mesur i wneud Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl banc yng Nghymru, fel a drafodwyd gennym yma sawl gwaith, yn un i'w groesawu. Dylai fod yn ŵyl banc ychwanegol, ac wrth sicrhau hynny, byddem yn dangos sut yr ydym yn gallu sicrhau manteision ymarferol i Gymru o ganlyniad i ddatganoli. Gallem gysylltu hynny â—

Janet Ryder *a gododd*—

John Griffiths: Mewn munud, Janet.

Gallem gysylltu hynny â dathliad mwy o ddiwylliant Cymru, y gallai'r Cynulliad ei drefnu drwy sicrhau bod ysgolion, er enghraifft, yn gwneud mwy o'u dathliadau Gŵyl Ddewi. Y mae ofnau y gallai, mewn gwirionedd, gael yr effaith hollol groes, ond gallai'r Cynulliad sicrhau na ddigwyddai hynny a byddai'n werthfawr i Gymru o ran gwella morâl a chaniatáu'r dathliad mwy hwnnw o ddiwylliant.

Janet Ryder: Yr ydym wedi gweld sut y mae'r Gwyddelod yn dathlu Gŵyl Sant Padrig, yn Iwerddon a thu hwnt. A ydych yn cytuno pe gallem ddyblygu hynny ar gyfer Gŵyl Ddewi, y byddai'n ffordd werthfawr o gynyddu gwybodaeth am Gymru ac o werthu Cymru? Dylem fod yn defnyddio hyn fel llwyfan ar gyfer gwerthu Cymru i weddill y byd.

John Griffiths: I agree, Janet. Ireland has had great success in marketing itself. An example of that is how it uses St Patrick's Day celebrations to effectively sell Ireland across the world. We could learn a lot from that. We would have greater opportunities to do so if we went down this road.

Turning to the Education Bill and Assembly learning grants, these are vital for Wales. They make a political statement about the Government of Wales and its ambitions for ensuring that we address the need to widen access to higher education in Wales. We know that there is much to do because, unfortunately, Wales suffers considerable socio-economic disadvantage, and we must attract students, including mature students, from relatively deprived backgrounds and communities. Assembly learning grants would be an effective mechanism in going some way towards ensuring that that happens.

Finally, the Passenger Transport Bill is necessary. We need the organisational structures for the Assembly to be able to take forward public transport in Wales. We must have powers of direction over the Strategic Rail Authority. This has come home to me locally in trying to extend the Ebbw Vale passenger rail link from Cardiff to incorporate Newport. The Strategic Rail Authority is crucial—it gives strategic direction and proposals on which Railtrack must act. We have been confronted by many alleged difficulties in extending this passenger rail link to Newport, and if the Assembly had greater powers of direction over the SRA, it would help to ensure that the rightful ambitions of Ebbw Vale and Newport to establish this passenger rail link were realised. It would be extremely important for the Assembly's ambitions to have a properly integrated transport system in Wales, and I welcome the ambition to take the Bill forward on that basis.

David Melding: Listening to the First Minister, you would think that we have just been through some magnificent new-deal

John Griffiths: Yr wyf yn cytuno, Janet. Mae Iwerddon wedi cael llwyddiant mawr yn marchnata'i hun. Enghraifft o hynny yw'r modd y defnyddia ddathliadau Gŵyl Sant Padrig i werthu Iwerddon dros y byd. Gallem ddysgu llawer oddi wrth hynny. Byddai gennym well cyfleoedd i wneud hynny o fynd i lawr y ffordd hon.

A throi at y Mesur Addysg a grantiau dysgu'r Cynulliad, mae'r rhain yn hanfodol i Gymru. Gwnânt ddatganiad gwleidyddol am Lywodraeth Cymru a'i huchelgeisiau i sicrhau ein bod yn edrych ar yr angen i ehangu mynediad i addysg uwch yng Nghymru. Gwyddom fod llawer i'w wneud oherwydd, yn anffodus, mae Cymru'n dioddef cryn anfantais economaidd-gymdeithasol, a rhaid inni ddenu myfyrwyr, gan gynnwys myfyrwyr aeddfed, o gefndiroedd a chymunedau cymharol ddifreintiedig. Byddai grantiau dysgu'r Cynulliad yn fecanwaith effeithiol i fynd rywfaint o'r ffordd tuag at sicrhau bod hynny'n digwydd.

Yn olaf, mae'r Mesur Cludiant i Deithwyr yn angenrheidiol. Mae arnom angen y strwythurau trefniadol i'r Cynulliad allu symud ymlaen â chludiant cyhoeddus yng Nghymru. Rhaid inni gael pwerau cyfarwyddo dros yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. Yr wyf wedi gweld hyn yn lleol wrth geisio estyn y gwasanaeth rheilffordd i deithwyr i Lyn Ebwy o Gaerdydd i gynnwys Casnewydd. Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn hollbwysig—mae'n rhoi cyfarwyddyd a chynigion strategol y mae'n rhaid i Railtrack weithredu arnynt. Yr ydym wedi wynebu llawer o anawsterau honedig wrth geisio estyn y gwasanaeth trên hwn i Gasnewydd, a phe bai gan y Cynulliad fwy o bwerau cyfarwyddo dros yr awdurdod, byddai'n helpu i sicrhau y gwiredid dyheadau cyfiawn Glyn Ebwy a Chasnewydd am sefydlu'r cysylltiad rheilffordd hwn. Byddai'n eithriadol o bwysig i uchelgais y Cynulliad gael system drafnidiaeth integredig go iawn yng Nghymru, a chroesawaf yr uchelgais i fynd â'r Mesur yn ei flaen ar y sail honno.

David Melding: O wrando ar y Prif Weinidog, gallech feddwl ein bod newydd fod drwy ryw sefyllfa bargaen-newydd wych,

scenario where we have been showered by Wales-only Bills, transforming Wales's legislative system. The Justinian of our age sits there boasting about this massive increase in the amount of specific Welsh legislation during the last three years compared with the previous 600 years. I gently asked him to tell us what the Bills and Acts were. He came up with the Children's Commissioner Act—a truly worthy measure, which I fully supported—and the NHS (Wales) Bill. That is a draft bill that has still not been published. We will probably have gone through the first four-year term of the Assembly with just one Welsh-specific Act on the statute book. I do not know if that is a massive shift in how our constitutional arrangements are undertaken—I am yet to be persuaded. Members of the Cabinet are muttering among themselves—they should listen to how they have conducted the legislative programme.

4:40 p.m.

Let us consider the NHS (Wales) Bill. When it was announced by the First Minister, he boasted that he had secured it and that it was a vital part of the Queen's Speech that preserved our right to be able to legislate specifically for Welsh health reform. The Minister for Health and Social Services told us in June that the NHS (Wales) Bill would be used to deliver the radical changes proposed for the NHS—the most radical since the early 1970s. Within six weeks, the Minister for Health and Social Services had been humiliated and was forced to write to members of the Health and Social Services Committee stating that the Cabinet had been told that those reforms would have to be passed on an England and Wales Bill, and that the original NHS (Wales) Bill would be truncated and delayed, and would now only deal with community health councils. Community health councils are important, but when you talk about establishing a new structure for the commissioning of health services in Wales, this is pretty small beer compared with massive organisational changes. The First Minister has the cheek to stand at that podium and tell us that there has been an historical shift in how this country is governed. That is absolute nonsense and he

lle mae Mesurau i Gymru-yn-unig wedi'u pentyrru arnom, gan drawsnewid system ddeddfwriaethol Cymru. Mae Iwstinian ein hoes ni'n eistedd yn y fan honno'n brolio am y cynnydd enfawr hwn yn y ddeddfwriaeth benodol i Gymru yn ystod y tair blynedd diwethaf o gymharu â'r 600 mlynedd cyn hynny. Gofynnais yn fwyn iddo ddweud wrthym beth oedd y Mesurau a'r Deddfau hyn. Enwodd y Ddeddf Comisiynydd Plant—mesur gwirioneddol werth chweil, a gefnogais yn llawn—a Mesur GIG (Cymru). Mesur drafft yw hwnnw sydd yn dal heb ei gyhoeddi. Mae'n debyg y byddwn wedi mynd drwy dymor pedair blynedd cyntaf y Cynulliad gyda dim ond un Ddeddf benodol i Gymru ar y llyfr statud. Ni wn a yw hynny'n symudiad mawr yn y modd y gwneir ein trefniadau cyfansoddiadol—nid wyf wedi fy mherswadio eto. Mae aelodau'r Cabinet yn mwmian ymysg ei gilydd—dylent wrando ar sut y maent wedi rhedeg y rhaglen ddeddfwriaethol.

Gadewch inni ystyried Mesur GIG (Cymru). Pan y'i cyhoeddwyd gan y Prif Weinidog, broliodd mai ef oedd wedi ei sicrhau ac y byddai'n rhan allweddol o Araith y Frenhines a gadwai'n hawl ni i allu deddfu'n benodol ar gyfer diwygio iechyd yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym ym Mehefin y defnyddid Mesur GIG (Cymru) i gyflawni'r newidiadau radicalaidd a gynigid i'r GIG—y mwyaf radicalaidd ers y 1970au cynnar. O fewn chwe wythnos, yr oedd crib y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i thorri ac fe'i gorfodwyd i ysgrifennu at aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn datgan y dywedwyd wrth y Cabinet y byddai'n rhaid pasio'r diwygiadau hynny ar Fesur i Gymru a Lloegr, ac y câ'r Mesur GIG (Cymru) gwreiddiol ei docio a'i ohirio, ac na fyddai bellach ond yn delio â chynghorau iechyd cymuned. Mae cynghorau iechyd cymuned yn bwysig, ond pan siaradwch am sefydlu strwythur newydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru, mae hyn yn eithaf tila o gymharu â newidiadau trefniadol enfawr. Mae gan y Prif Weinidog yr hyfdra i sefyll wrth y podiwm acw a dweud wrthym y bu symudiad hanesyddol yn

should be subjected to the most withering criticism for it.

The original intention was to publish drafts of a series of major Bills dealing with Wales. Therefore, if there were major public service changes, for example, in education and health, a Wales-only Bill would be published in draft. That would balance the form of executive devolution given to Wales, but not to Scotland and Northern Ireland, that gives us a minimal level of influence over primary legislation, and would afford us a level of pre-legislative scrutiny in the process. We would get the draft Bill, discuss it and it would then enter the formal legislative process in Parliament. None of these draft Bills have been proposed. Why is health and education now being dealt with in an England and Wales measure? Why has it not been separated out and dealt with in a Wales-only Bill? The answer is simple. The moment you deal with education on a Wales basis, you must also deal with it on an England basis. It is obvious that the Cabinet in London has told the Assembly Cabinet that such a constitutional precedent cannot be set and that it must continue to legislate through England and Wales measures. You have not convinced your colleagues or the Secretary of State for Wales, far less the Prime Minister.

Rod Richards: Do you recall the period when the former Secretary of State for Wales, Ron Davies, was taking the Government of Wales Bill through Parliament? Do you recall him saying time and time again that any Bills affecting Wales would be discussed here in the proposed Assembly, before a second reading in the House of Commons?

David Melding: I am grateful to my friend for making that point. Clearly, since devolution was put into effect, how Wales deals with primary legislation has not been altered to account for the fact that we have an Assembly that should influence primary legislation even though it cannot control it directly. It is instructive to consider what the First Minister bids for. I do not want to be dismissive of these measures, but some of them are hardly the meat and drink of the legislative programme, and they would not

y modd y llywodraethir y wlad hon. Nonsens pur yw hynny a dylid ei feirniadu'n hallt o'r herwydd.

Y bwriad gwreiddiol oedd cyhoeddi drafftiau o gyfres o Fesurau mawr yn delio â Chymru. Felly, pe bai newidiadau mawr mewn gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft, ym myd addysg a iechyd, cyhoeddid Mesur i Gymru'n unig ar ffurf drafft. Byddai hynny'n cydbwysu'r ffurf ar ddatganoli gweithredol a roddwyd i Gymru, ond nid i'r Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n rhoi'r lefel isaf o ddylanwad inni dros ddeddfwriaeth sylfaenol, a lefel o arolygaeth cyn-deddfu inni yn y broses. Byddem yn cael y Mesur drafft, yn ei drafod ac wedyn byddai'n mynd i'r broses ddeddfu ffurfiol yn y Senedd. Nid oes dim un o'r Mesurau drafft hyn wedi'u cynnig. Pam y mae iechyd ac addysg bellach wedi'u cynnwys mewn mesur i Gymru a Lloegr? Pam nad yw wedi'i wahanu a'i drafod mewn Mesur i Gymru'n unig? Mae'r ateb yn syml. Y munud y dechreuwch ddelio ag addysg o safbwynt Cymru, rhaid ichi ddelio â hi hefyd o safbwynt Lloegr. Mae'n amlwg bod y Cabinet yn Llundain wedi dweud wrth Gabinet y Cynulliad na ellir gosod cysail gyfansoddiadol o'r fath a bod yn rhaid iddo barhau i ddeddfu drwy fesurau i Gymru a Lloegr. Nid ydych wedi darbwyllo'ch cyd-aelodau nac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, I lai fyth Brif Weinidog y DU.

Rod Richards: A ydych yn cofio'r cyfnod pan oedd cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Ron Davies, yn mynd â Mesur Llywodraeth Cymru drwy'r Senedd? A gofiwch ef yn dweud dro ar ôl tro y câi unrhyw Fesurau a effeithiai ar Gymru eu trafod yma yn y Cynulliad arfaethedig, cyn cael ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin?

David Melding: Yr wyf yn ddiolchgar i'm cyfaill am wneud y pwynt hwnnw. Yn amlwg, ers i ddatganoli ddod i rym, nid yw'r modd y mae Cymru'n delio â deddfwriaeth sylfaenol wedi'i newid i adlewyrchu'r ffaith fod gennym Gynulliad a ddylai ddylanwadu ar ddeddfwriaeth sylfaenol hyd yn oed er na all ei rheoli'n uniongyrchol. Mae'n ddiddorol ystyried beth y mae Prif Weinidog Cymru yn gofyn amdano. Nid oes arnaf eisiau wfftio'r mesurau hyn, ond go brin bod rhai ohonynt yn faterion deddfwriaethol o bwys mawr, ac

really affect the day-to-day lives of the people of Wales. For instance, Sunday opening is an important area to clean up, I grant you, and making St David's Day a public holiday would bring an important benefit. However, as far as governing our public services is concerned, they are of limited significance.

The two massive changes currently proceeding through Parliament relate to health and education, which are included in measures covering both England and Wales. The Minister for Health and Social Services had the good grace to concede to a full debate on the Bill on health reform in the Health and Social Services Committee and then in Plenary, and I thank her for that. At least she responded to criticism she received. However, the Minister for Education and Lifelong Learning does not even consider it to be appropriate for the Assembly to discuss the Education Bill.

Mick Bates: Neither does your party.

David Melding: She had the cheek to tell me that it was just a skeleton measure, drafted in such a way as to give us maximum influence over secondary matters, and therefore we did not need to debate the issue before it was done and dusted in Parliament. I asked her just to read the Bill. I do not know if she has done that yet, but she had not done it at the time.

The Deputy Presiding Officer: Order. You need to wind up, David.

David Melding: I asked her to read the section that deals with the curriculum. There are 20 pages of clauses on the English curriculum and 20 pages of clauses on the Welsh curriculum, all drafted in the same style. Yet our Minister has the cheek to tell us that the drafting system is now different, and therefore we have maximum room for manoeuvre in terms of secondary legislation. We have none of that. You have gagged this Assembly, Minister. You want to get your measures through on the quiet, with minimum scrutiny. It is a disgrace to the lot of you. You need to learn some lessons on constitutional law.

ni fyddent mewn gwirionedd yn effeithio ar fywydau beunyddiol pobl Cymru. Er enghraifft, mae agor ar y Sul yn faes y mae'n bwysig ei dacluso, yr wyf yn cydnabod hynny, a byddai gwneud Dydd Gŵyl Dewi'n ŵyl gyhoeddus yn dod â budd pwysig. Fodd bynnag, yn nhermau rheoli'n gwasanaethau cyhoeddus, cyfyngedig yw eu harwyddocâd.

Mae'r ddau newid anferth sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd yn ymwneud â iechyd ac addysg, ac wedi'u cynnwys mewn mesurau ar gyfer Cymru a Lloegr ynghyd. Bu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigon graslon i ganiatáu dadl lawn ar y Mesur diwygio iechyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac wedyn mewn Cyfarfod Llawn, a diolchaf iddi am hynny. O leiaf fe ymatebodd i'r feirniadaeth a gawsai. Ond nid yw'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes hyd yn oed o'r farn ei bod yn briodol i'r Cynulliad drafod y Mesur Addysg.

Mick Bates: Nid yw'ch plaid chithau chwaith.

David Melding: Yr oedd ganddi'r wyneb i ddweud wrthyf mai dim ond mesur sgerbwd ydoedd, wedi'i ddrafftio yn y fath fodd fel ag i roi'r dylanwad mwyaf posibl inni dros faterion eilaidd, ac felly nad oedd angen inni drafod y mater cyn i'r Senedd gau pen y mwdwl arno. Gofynnais iddi o leiaf ddarllen y Mesur. Ni wn a ydyw wedi gwneud hynny eto, ond nid oedd hi wedi gwneud ar y pryd.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae angen ichi ddirwyn i ben, David.

David Melding: Gofynnais iddi ddarllen yr adran sy'n ymwneud â'r cwricwlwm. Mae yno 20 tudalen o gymalau ar gwricwlwm Lloegr ac 20 tudalen o gymalau ar gwricwlwm Cymru, i gyd wedi'u drafftio yn yr un arddull. Eto, mae gan ein Gweinidog yr wyneb i ddweud wrthym fod y system ddrafftio'n wahanol yn awr, ac felly bod gennym ddigonedd o le i symud yn nhermau is-ddeddfwriaeth. Nid oes gennym ddim o hynny. Yr ydych wedi mygu llais y Cynulliad hwn, Weinidog. Mae arnoch eisiau gyrru'ch mesurau drwodd yn ddistaw bach, heb nemor ddim arolygu. Mae'n warth arnoch chi i gyd. Mae angen ichi ddysgu gwers neu ddwy

mewn cyfraith gyfansoddiadol.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): I will respond to David in a while, because—
[*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order.

Michael German: If nothing else, David Melding has made a powerful case for giving the Assembly primary legislative powers, which I welcome. I also ought to declare an interest as an occasional Sunday drinker, as the First Minister suggested that all those seeing this measure go through should do.

The Welsh Liberal Democrats welcome the Cabinet's proposals for primary legislation. We particularly welcome the resubmission of the Bill to make St David's Day a national public holiday. We also warmly welcome the Passenger Transport Bill, which will reflect the content of the partnership agreement, where it states that we will:

'explore the case for the establishment of a Welsh Passenger Transport Authority to improve and better integrate transport throughout Wales'.

In addition, the Environment, Planning and Transport Committee's policy review of public transport recommended the development of proposals for organisational change, including passenger transport authority options. The Passenger Transport Bill also proposes to implement another partnership agreement initiative, namely to seek powers of direction over the Strategic Rail Authority. The Committee's review also confirmed that that should be done.

Owen John Thomas: Will you take an intervention?

Michael German: I will in a moment. We look forward to the UK Government accepting as many of these Bills as possible. However, the range of the Cabinet proposals makes it clear to me, and to the Liberal Democrats, that the Assembly needs to have primary legislative choices, and David made

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Gwnaf ymateb i David toc, oherwydd—
[*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn.

Michael German: Os nad dim byd arall, mae David Melding wedi gwneud achos cryf dros roi pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad, rhywbeth yr wyf fi'n ei groesawu. Dylwn innau ddatgan buddiant fel yfwr achlysurol ar y Sul, fel yr awgrymodd y Prif Weinidog y dylai pawb sy'n anfon y mesur hwn drwodd.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu cynigion y Cabinet dros ddeddfwriaeth sylfaenol. Yr ydym yn croesawu'n arbennig ailgyflwyniad y Mesur i wneud Dydd Gŵyl Dewi'n ŵyl gyhoeddus genedlaethol. Rhoddwn groeso gwresog hefyd i'r Mesur Cludiant i Deithwyr, a fydd yn adlewyrchu cynnwys y cytundeb partneriaeth, lle dywedir y byddwn yn:

'edrych yn fanwl ar yr achos o blaid sefydlu Awdurdod Trafnidiaeth Teithwyr i Gymru i wella ac integreiddio trafndiaeth yn well ledled Cymru'.

Yn ogystal, argymhellodd adolygiad polisi Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar gludiant cyhoeddus y dylid datblygu cynigion ar gyfer newid trefniadaethol, gan gynnwys dewisiadau a olygai sefydlu awdurdod cludiant teithwyr. Mae'r Mesur Cludiant i Deithwyr hefyd yn cynnig gweithredu menter cytundeb partneriaeth arall, sef ceisio pwerau cyfarwyddo dros yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. Cadarnhaodd adolygiad y Pwyllgor hefyd y dylid gwneud hynny.

Owen John Thomas: A gymerwch chi ymyriad?

Michael German: Gwnaf mewn munud. Edrychwn ymlaen at weld Llywodraeth y DU yn derbyn cymaint o'r Mesurau hyn ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, mae amrediad cynigion y Cabinet yn dangos yn glir i mi, ac i'r Democratiaid Rhyddfrydol, bod angen i'r Cynulliad gael dewisiadau deddfu sylfaenol,

a powerful argument for that. Many of the policies before us would carry a majority in this Chamber, yet we cannot implement them because we do not have the power to do so. David has made a *prima facie* case for that argument to be put before the independent commission on powers. I look forward to the Conservatives drafting and presenting their proposals, in the same tone, to the commission when it is set up.

Owen John Thomas: I am glad that you have taken the road to Damascus as regards the passenger transport authority for Wales. When I raised the matter in the former Local Government and Environment Committee, your colleague, Peter Black, said that he would not vote in favour of it. He said that he would not go down the Owen John Thomas road because he knew my agenda, and therefore opposed it. I am pleased, Michael, to see all your party behind you now.

Michael German: I am grateful to you for reminding us of who built the road to Damascus. I will send you a copy of the partnership agreement to read.

I am surprised by some of Ieuan's comments, and I want to refer to his view that we should act pre-emptively on the basis of a press report on what the commission on local government electoral arrangements in Wales will say. I hope that what the press is reporting as being the case will be the case, but what is reported here is the Bills that are being put forward for the current round—

Ieuan Wyn Jones *rose*—

4:50 p.m.

Michael German: Just one moment, I will finish this sentence, Ieuan.

The Assembly is, in fact, adding the end of conclusions to Bills that have been put forward this year. There will be opportunities, after the commission has reported, to put forward those points of view. We would expect to have them reported back to us in the Assembly for discussion and debate before 2003.

a gwnaeth David ddadl gref dros hynny. Byddai llawer o'r polisiau ger ein bron yn cario mwyafrif yn y Siambr hon, eto ni allwn eu gweithredu oherwydd nad oes gennym y grym i wneud hynny. Mae David wedi gwneud achos ar yr olwg gyntaf dros roi'r ddadl honno ger bron y comisiwn annibynnol ar bwerau. Edrychaf ymlaen at weld y Ceidwadwyr yn drafftio ac yn cyflwyno'u cynigion, yn yr un oslef, i'r comisiwn pan gaiff ei sefydlu.

Owen John Thomas: Yr wyf yn falch eich bod wedi cymryd y ffordd i Ddamascus parthed yr awdurdod cludiant teithwyr i Gymru. Pan godais y mater yn yr hen Bwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd, dywedodd eich cyd-aelod, Peter Black, na fyddai'n pleidleisio o'i blaid. Dywedodd nad âi i lawr ffordd Owen John Thomas oherwydd gwyddai beth oedd fy agenda, ac yr oedd yn ei erbyn o'r herwydd. Mae'n dda gennyf, Michael, weld eich plaid i gyd y tu cefn ichi'n awr.

Michael German: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ein hatgoffa pwy adeiladodd y ffordd i Ddamascus. Anfonaf gopi atoch o'r cytundeb partneriaeth i'w ddarllen.

Yr wyf yn synnu at rai o sylwadau Ieuan, a hoffwn gyfeirio at ei farn y dylem daro'n gyntaf ar sail adroddiad yn y wasg ar yr hyn a fydd gan y comisiwn ar drefniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru i'w ddweud. Gobeithiaf mai'r hyn y mae'r wasg yn ei adrodd fydd yn wir, ond yr hyn sy'n cael ei adrodd yma yw'r Mesurau sy'n cael eu rhoi ger bron ar gyfer y cylch cyfredol—

Ieuan Wyn Jones *a gododd*—

Michael German: Un funud, yr wyf am orffen y frawddeg hon, Ieuan.

Mae'r Cynulliad, mewn gwirionedd, yn ychwanegu diwedd casgliadau i Fesurau a roddwyd ger bron eleni. Bydd cyfleoedd, wedi i'r comisiwn adrodd yn ôl, i gyflwyno'r safbwyntiau hynny. Byddem yn disgwyl iddynt gael eu hadrodd yn ôl i ni yn y Cynulliad er trafodaeth a dadl cyn 2003.

Ieuan Wyn Jones: Mike, do you expect that, when that commission reports back and makes its recommendations, the partnership Government will not only act on them, but will ensure that those proposals are in place for the local government elections in 2004?

Ieuan Wyn Jones: Mike, a ydych yn disgwyl, pan gawn adroddiad ac argymhellion yn ôl gan y comisiwn hwnnw, y bydd y Llywodraeth bartneriaeth nid yn unig yn gweithredu arnynt, ond yn sicrhau y bydd y cynigion hynny yn eu lle ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn 2004?

Michael German: I would seek to support the independent commission's review and to ensure that the policies it promotes will be adopted. It is wrong to pre-empt a report on the basis of a press report. The timetable for these matters, as you know, will include the independent commission review followed by a proposal to Parliament, and so the cycle will roll. You will know, having been a Member of Parliament for such a long time, of the speed with which Westminster moves as it follows the parliamentary routine and proceeds. I hope that the independent commission's report concludes in the way that you suggest. I hope that we will be able to progress that through in the following year.

Michael German: Byddwn i'n ceisio cefnogi adolygiad y comisiwn annibynnol a sicrhau y mabwysiedir y polisiau y bydd yn eu hyrwyddo. Ni ddylid achub y blaen ar adroddiad ar sail adroddiad yn y wasg. Bydd yr amserlen ar gyfer y materion hyn, fel y gwyddoch, yn cynnwys adolygiad y comisiwn annibynnol ac wedyn gynnig i'r Senedd, ac felly bydd y cylch yn troi. Fe wyddoch, a chithau wedi bod yn Aelod Seneddol am gymaint o amser, am gyflymder symudiadau San Steffan wrth ddilyn y drefn seneddol a symud ymlaen. Gobeithiaf y bydd adroddiad y comisiwn annibynnol yn dod i'r casgliad a awgrymwech chi. Gobeithiaf y byddwn yn gallu symud hynny drwodd yn y flwyddyn ddilynol.

I hope that we will get our St David's Day Bill through Parliament in the next year. I fail to see why, when it has already been put forward once on behalf of the Government, Plaid Cymru is asking for it yet again, as it is doing about tobacco advertising. I am sure, as the First Minister noted, that we are in favour of banning tobacco advertising throughout the UK because, unfortunately, advertising does not stop at the border. Television or press advertising spans the border. My colleague, Tim Clement-Jones, promoted the Tobacco Advertising and Promotion Bill. That has now been successfully steered through the House of Lords, and the Westminster Government has committed to it. I hope that colleagues from all parties will support the Bill when it is debated on the floor of the House of Commons, in order to take it further.

Gobeithiaf y llwyddwn i gael ein Mesur Dydd Gŵyl Dewi Sant drwy'r Senedd yn y flwyddyn nesaf. Yr wyf yn methu gweld pam, a'r Mesur eisoes wedi'i gynnig un waith ar ran y Llywodraeth, y mae Plaid Cymru yn gofyn amdano eto fyth, fel y mae'n gwneud gyda hysbysebion tybaco. Yr wyf yn siŵr, fel y nododd y Prif Weinidog, ein bod o blaid gwahardd hysbysebu tybaco drwy'r DU gyfan oherwydd, yn anffodus, nid yw hysbysebu'n peidio wrth y ffin. Mae hysbysebion y teledu a'r wasg yn croesi ffiniau. Fy nghyd-aelod Tim Clement-Jones a hyrwyddodd y Mesur Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco. Mae hwnnw bellach wedi'i lywio'n llwyddiannus drwy Dŷ'r Arglwyddi, ac mae Llywodraeth San Steffan wedi ymrwymo iddo. Gobeithiaf y bydd cyd-aelodau o bob plaid yn cefnogi'r Mesur pan gaiff ei drafod ar lawr Tŷ'r Cyffredin, er mwyn mynd ag ef ymhellach.

It is the easiest job in the world to construct a list of Bills for debate. However, unfortunately, the amendments to today's motion will have no effect. We must turn to the difference between ourselves, as a governing party, and the party—[PLAID

Y peth hawsaf yn y byd yw llunio rhestr o Fesurau i'w trafod. Ond yn anffodus, ni chaiff y gwelliannau i gynnig heddiw ddim effaith. Rhaid inni droi at y gwahaniaeth rhyngom ni, fel plaid lywodraethol, a'r plaid—[AELODAU PLAID CYMRU: 'O']

CYMRU MEMBERS: ‘Oh’.] You may have noticed that some of Plaid Cymru’s amendments are not carried because it is not a governing party. The difference is of course—[ASSEMBLY MEMBERS: ‘Ah’.]

Peter Law *rose*—

Michael German: I am not giving way. [*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. You must wind up, Mike.

Michael German: While Plaid Cymru is chattering for Wales, some parties are arguing Wales’s corner at Westminster. I include David Melding’s party in that, as it will now argue prominently for more legislative powers to be given to the National Assembly. I am grateful for that. I hope that all Members from all parties, particularly those from the Conservative Party who believe in looking forward, will put their case forward in the proper manner to the powers commission, when it is established, so that we can consider Bills as a matter of measure. We can all do that, rather than having to go cap in hand to Westminster every time we want to contribute to the legislative process.

Helen Mary Jones: I will address two specific issues. First, I support the Government’s proposal with regard to the Passenger Transport Bill and the powers of direction over the Strategic Rail Authority. This is a Plaid Cymru—The Party of Wales policy, of course. I would therefore like to join in the burgeoning Liberal Democrat tradition of taking credit for something that this Government has finally got right. This was also a priority for the Environment, Planning and Transport Committee in its review of public transport. In that context, I am delighted that the differences between the Minister with responsibility for transport, who always sought power to direct the SRA, and the First Minister, who has told Plenary on more than one occasion that additional powers over rail were irrelevant, seem to have been resolved, and that this is now a priority for the Government of Wales.

Efallai ichi sylwi na chaiff rhai o welliannau Plaid Cymru eu cario oherwydd nad yw’n blaid lywodraethol. Y gwahaniaeth, wrth gwrs, yw—[AELODAU’R CYNULLIAD: ‘A’.]

Peter Law *a gododd*—

Michael German: Nid wyf yn ildio. [*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Rhaid ichi ddirwyn i ben, Mike.

Michael German: Tra bo Plaid Cymru’n clebran dros Gymru, mae rhai pleidiau’n dadlau achos Cymru yn San Steffan. Yr wyf yn cynnwys plaid David Melding yn hynny, gan y bydd yn awr yn dadlau’n flaenllaw dros roi mwy o bwerau deddfu i’r Cynulliad Cenedlaethol. Yr wyf yn ddiolchgar am hynny. Gobeithiaf y bydd pob Aelod o bob plaid, yn enwedig y rheini o’r Blaid Geidwadol sy’n credu mewn edrych ymlaen, yn cyflwyno’u hachos yn y ffordd briodol i’r comisiwn pwerau, pan y’i sefydlir, fel y gallwn ystyried Mesurau fel peth arferol. Gallwn i gyd wneud hynny, yn hytrach na gorfod mynd â’n cap yn ein llaw i San Steffan bob tro y bydd arnom eisiau cyfrannu at y broses ddeddfwriaethol.

Helen Mary Jones: Deliaf â dau fater penodol. Yn gyntaf, cefnogaf gynnig y Llywodraeth ynghylch y Mesur Cludiant i Deithwyr a’r pwerau cyfarwyddo dros yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. Dyma bolisi Plaid Cymru—The Party of Wales, wrth gwrs. Hoffwn felly ymuno yn nhraddodiad cynyddol y Democratiaid Rhyddfrydol o gymryd y clod am rywbeth y mae’r Llywodraeth hon o’r diwedd wedi’i wneud yn iawn. Yr oedd hyn yn flaenoriaeth hefyd i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn ei adolygiad o gludiant cyhoeddus. Yn y cyd-destun hwnnw, yr wyf ar ben fy nigon ei bod yn ymddangos y datryswyd y gwahaniaethau rhwng y Gweinidog â chyfrifoldeb am drafndiaeth, a fu’n chwennych grym i gyfarwyddo’r Awdurdod Rheilffyrdd o’r cychwyn, a’r Prif Weinidog, a ddywedodd fwy nag un waith wrth y Cyfarfod Llawn fod pwerau ychwanegol dros y rheilffyrdd yn amherthnasol, a bod hyn bellach yn

flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Secondly, I will comment on amendment 3. The Assembly will be aware that the Rees report recommended the abolition of tuition fees. Plaid Cymru did not necessarily support the second part of that recommendation, which suggested that they be replaced with a graduate tax, but that is not the matter for debate today. What is a matter for debate is how much serious attention the Government of Wales is prepared to give to tackling student poverty in Wales. Of course, the reintroduction of grants is welcome, but according to the Rees report, it is only half the cake. Despite what we have been told this afternoon about the Minister's advocacy on this matter, there is little sign that the UK Government's review of student funding will deliver any meaningful change within any kind of reasonable timescale. Indeed the National Union of Students believes that this issue has been:

'shunted off the Government's to-do list altogether.'

The Assembly cannot be prepared to tolerate this situation without comment, even in the short term. Eleven Welsh Labour Members of Parliament have already signed an early day motion in the House of Commons calling for the abolition of tuition fees. I urge the Government of Wales to support their colleagues on that and to do the same now. If we are to believe the NUS, and it must know, the Assembly Government's advocacy, if it is taking place, is falling on deaf ears at Westminster. Welsh students, living on £13 per week below Government official poverty levels cannot wait for Westminster to get its act together. The Government should seek devolved power over tuition fees now so that we can abolish them here. If student hardship is a priority for this Government, it should be a priority in its proposals for Bills. If the proposed Sunday Licensing Bill—and I declare myself as someone who does not drink in pubs on Sunday because I am at home with my family—is perceived by this Government as a higher priority than abolishing tuition fees, then, frankly the situation would be laughable if it were not so serious and if students were not leaving Welsh colleges every week because they

Yn ail, gwnaf sylw ar welliant 3. Bydd y Cynulliad yn ymwybodol fod adroddiad Rees wedi argymhell diddymu ffioedd dysgu. Nid oedd Plaid Cymru o reidrwydd yn cefnogi ail ran yr argymhelliad hwnnw, a awgrymai osod treth i raddedigion yn eu lle, ond nid dyna bwnc y ddadl heddiw. Yr hyn sydd yn bwnc dadl yw faint o sylw difrifol y mae Llywodraeth Cymru'n barod i'w roi i fynd i'r afael â thlodi myfyrwyr yng Nghymru. Wrth gwrs, croesewir y bwriad i ddod â grantiau'n ôl, ond yn ôl adroddiad Rees, dim ond hanner y deisen yw hyn. Er gwaethaf yr hyn a ddywedwyd wrthym y prynhawn yma am eiriolaeth y Gweinidog ar y mater hwn, nid oes fawr o arwydd y bydd adolygiad Llywodraeth y DU ar gyllid myfyrwyr yn esgor ar unrhyw newid ystyrllon o fewn unrhyw fath o amserlen resymol. Yn wir, mae Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) yn credu bod y mater hwn wedi cael:

'ei wthio oddi ar restr y Llywodraeth o "bethau i'w gwneud" yn gyfan gwbl.'

Ni all y Cynulliad fod yn barod i ddiodeff y sefyllfa hon heb wneud sylw, hyd yn oed yn y tymor byr. Mae 11 o Aelodau Seneddol Llafur Cymreig eisoes wedi llofnodi cynnig cynnar-yn-y-dydd yn Nhŷ'r Cyffredin yn galw am ddiddymu ffioedd dysgu. Anogaf Lywodraeth Cymru i gefnogi'u cyd-aelodau ar hynny a gwneud yr un peth yn awr. Os ydym i gredu'r NUS, a rhaid eu bod hwy'n gwybod, mae eiriolaeth Llywodraeth y Cynulliad, os ydyw'n digwydd, yn syrthio ar glustiau byddar yn San Steffan. Ni all myfyrwyr Cymru, a hwythau'n byw ar £13 yr wythnos islaw lefelau tlodi swyddogol y Llywodraeth, aros i San Steffan roi trefn ar ei bethau. Dylai'r Llywodraeth geisio pŵer datganoledig dros ffioedd dysgu yn awr fel y gallwn ni eu diddymu yma. Os yw caledi myfyrwyr yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, dylai fod yn flaenoriaeth yn ei chynigion am Fesurau. Os yw'r Mesur Trwyddedau Sul arfaethedig—a datganaf fy hun fel un nad yw'n yfed mewn tafarnau ar y Sul oherwydd fy mod gartref gyda'm teulu—yn flaenoriaeth uwch yn llygaid y Llywodraeth hon na diddymu ffioedd dysgu, yna, a dweud y gwir yn blaen, byddai'r sefyllfa'n chwethinllyd pe na bai mor ddifrifol a phe na bai myfyrwyr

cannot afford to stay there.

This absurd auction could be avoided if the Assembly had proper primary legislative powers. However, as the leader of the opposition has rightly indicated, there is little point in asking this Government for those powers given that its members cannot decide on this issue among themselves. In the meantime, tuition fees should be a priority. It is a priority for our students, and it should be a priority for us if we are to create a truly learning country. I urge this Assembly to support all the amendments. Let us have a meaningful legislative programme.

Peter Law: I am grateful for the opportunity to say a few words on this important subject. I just listened with incredulity—today's share of incredulity—to the leader of the Liberal Democrats when he called out to Plaid Cymru that its amendments did not get their support because they are the party of Government. He has a short memory because only last week, Plaid Cymru got their support when they ditched Rhodri and the other Labour Ministers. That is what the Liberal Democrats are like. I have told you before that you cannot trust them. Therefore, that is an example for you, Mike.

Let us talk about these proposals. The First Minister is putting forward common sense Bills. A great deal of work has been undertaken in the last three years and we are now tidying up measures. I remember the problems with the Sunday Licensing Bill because that came under my responsibilities; it is an anachronism that needs to be resolved. There is also the issue of the Housing Ombudsman Bill, which some may have missed. The fact is that—

Helen Mary Jones: I am glad that you are being so positive about the Government's proposals, but given that you represent the poorest constituency in Wales, do you agree with Huw Lewis that the Government of Wales is not giving enough priority to tackling poverty? Do you agree with me that we could tackle student poverty by abolishing

yn gadael colegau Cymru bob wythnos am na allant fforddio aros yno.

Gellid osgoi'r ocsiwn hurt hwn pe bai gan y Cynulliad bwerau deddfu sylfaenol go iawn. Fodd bynnag, fel y dywedodd arweinydd yr wrthblaid yn gwbl gywir, nid oes fawr o bwynt gofyn i'r Llywodraeth hon am y pwerau hyn os na all ei haelodau benderfynu ar y mater hwn ymysg ei gilydd. Yn y cyfamser, dylai ffioedd dysgu fod yn flaenoriaeth. Mae'n flaenoriaeth i'n myfyrwyr, a dylai fod yn flaenoriaeth i ni os ydym am greu gwir wlad sy'n dysgu. Anogaf y Cynulliad i gefnogi'r gwelliannau i gyd. Gadewch inni gael rhaglen ddeddfwriaethol ystyrlon.

Peter Law: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i ddweud ychydig o eiriau ar y pwnc pwysig hwn. Yr wyf newydd wrando mewn anghredinedd—cyfran heddiw o anghredinedd—ar arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol pan waeddodd ar Blaid Cymru na chafodd eu gwelliannau hwy eu cefnogaeth am mai hwy yw'r blaid mewn Llywodraeth. Mae ganddo gof byr oherwydd dim ond yr wythnos ddiwethaf, cafodd Plaid Cymru eu cefnogaeth pan droesant eu cefn ar Rhodri a'r Gweinidogion Llafur eraill. Dyna sut rai ydyw'r Democratiaid Rhyddfrydol. Yr wyf wedi dweud wrthyfch o'r blaen na allwch ymddiried ynddynt. Felly, dyna enghraifft ichi, Mike.

Gadewch inni siarad am y cynigion hyn. Mae'r Prif Weinidog yn cynnig Mesurau synnwyr cyffredin ger bron. Gwnaethpwyd llawer iawn o waith yn y tair blynedd diwethaf ac yr ydym yn awr yn tacluso'r mesurau. Cofiaf y problemau gyda Mesur Trwyddedau Sul oherwydd deuai hwnnw dan fy nghyfrifoldebau i; mae'n anacroniaeth sydd angen ei datrys. Mae gennym hefyd fater y Mesur Ombwdsmon Tai, y gall fod rhai ohonoch wedi'i gollu. Y ffaith yw fod—

Helen Mary Jones: Yr wyf yn falch eich bod yn siarad mor gadarnhaol am gynigion y Llywodraeth, ond gan eich bod yn cynrychioli'r etholaeth dlotaf yng Nghymru, a ydych yn cytuno â Huw Lewis nad yw Llywodraeth Cymru'n rhoi digon o flaenoriaeth i fynd i'r afael â thlodi? A ydych yn cytuno â mi y gallem wneud rhywbeth am

tuition fees?

